



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

STRATEGAETH LEOL I REOLI RISG LLIFOGYDD

Asesiad Amgylcheddol Strategol:
Adroddiad Amgylcheddol





Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

STRATEGAETH LEOL I REOLI RISG LLIFOGYDD

Asesiad Amgylcheddol Strategol: Adroddiad Amgylcheddol

MATH O DDOGFEN (FERSIWN): I'R CYHOEDD

RHIF Y PROSIECT: 70113899

EIN RHIF: CYF 001

DYDDIAD: MAWRTH 2024



Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

STRATEGAETH LEOL I REOLI RISG LLIFOGYDD

Asesiad Amgylcheddol Strategol: Adroddiad Amgylcheddol

WSP

1 Cwrt y Ddinas
Stryd Tyndall Street
Caerdydd
CF10 4BZ

Ffôn: +44 2920 769 200

WSP.com

RHEOLI ANSAWDD

Cyhoeddi/Adolygu	Cyhoeddiad Cyntaf	Adolygiad 1	Adolygiad 2	Adolygiad 3
Sylwadau	Draft ar gyfer CBSMT	Y Drafft Terfynol ar gyfer Ymgynghoriad	Diweddariadau ar ôl yr ymgynghoriad	
Dyddiad	Rhagfyr 2023	Rhagfyr 2023	Mawrth 2024	
Paratowyd gan	Sarah Utting Keri Sheppard	Keri Sheppard	Keri Sheppard	
Llofnod				
Gwiriwyd gan	Rachel Drabble	Rachel Drabble	Charlotte Town	
Llofnod				
Awdurdodwyd gan	Katie Dean	Katie Dean	Katie Dean	
Llofnod				
Rhif y Prosiect	70113899	70113899	70113899	
Rhif yr Adroddiad	001	002	003	

CYNNWYS

1	CYFLWYNIAD	1
2	CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL – STRATEGAETH LEOL I REOLI RISG LLIFOGYDD	4
3	METHODOLEG	10
4	NODI PROBLEMAU, CYFLEOEDD AC AMCANION SEA	ERROR!
	BOOKMARK NOT DEFINED.	
5	ASESU CYDWEDDOLDEB YR AMCANION	23
6	ASESU'R MESURAU	26
7	EFFEITHIAU CRONNOL	36
8	LLINIARU, GWELLA A MONITRO	ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.
9	ARGYMHELLION	47
10	Y CAMAU NESAF	50

TABLAU

Tabl 2-1 - Mesurau Arfaethedig LFRMS	6
Tabl 3-1 - Camau SEA	10
Tabl 3-2 - Allwedd i'r Effeithiau a'r Arwyddocâd	13
Tabl 4-1 - Cwmpas SEA	16
Tabl 4-2 - Materion a Chyfleoedd Allweddol	17
Tabl 4-3 - Fframwaith SEA	21
Tabl 5-1 - Allwedd i'r Asesiad Cydweddoldeb	23

Tabl 5-2 - Asesu Cydweddoldeb	24
Table 6-1 - Arwyddocâd yr Effeithiau	26
Table 6-2 - Trosolwg o'r Effeithiau	27
Table 6-3 - Asesiad o'r Mesurau - Crynodeb o'r Canfyddiadau	30
Table 6-4 - Asesiad o'r Dewisiadau Eraill	34
Table 7-1 - Allwedd i'r Effeithiau Cronnol	36
Table 8-1 - Lliniaru, Gwella a Monitro	44
Table 8-2 - Mesurau Monitro Arfaethedig	47
Table 9-1 - Argymhellion SEA	49

FFIGURAU

Ffigur 1-1 - Ffin Weinyddol CBSMT	1
Ffigur 2-1 - Amcanion, Mesurau a Gweithrediadau LFRMS	4
Ffigur 2-2 - Aliniad Amcanion LFRMS ag Amcanion y Strategaeth Genedlaethol	5

ATODIADAU

ATODIAD A

ADOLYGU'R CYNLLUNIAU, Y POLISI'AU A'R RHAGLENNI

ATODIAD B

GWAELODLIN

ATODIAD C

YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD


ATODIAD D

ASESU'R MESURAU

1 CYFLWYNIAD

- 1.1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) yn y broses o baratoi Strategaeth Leol newydd i Reoli Risg Llifogydd (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel yr “LFRMS”). Bydd hyn yn disodli LFRMS presennol CBSMT¹, y cytunwyd arno yn 2013.
- 1.1.2 Bydd yr LFRMS yn cwmpasu ffin weinyddol CBSMT, gan gynnwys ardal o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, fel y dangosir yn Ffigur 1-1.
- 1.1.3 Bydd yr LFRMS yn canolbwyntio ar ffynonellau lleol o risg llifogydd ond bydd hefyd yn cydnabod ac yn ystyried ffynonellau eraill o risg llifogydd (gan gynnwys cyrsiau dŵr mwy o faint a charthffosydd) ac Awdurdodau eraill sy’n gysylltiedig â Rheoli Risg.
- 1.1.4 Yr LFRMS hwn fydd ail Strategaeth Leol CBSMT. Er ei fod yn flaenorol wedi cyhoeddi Strategaeth Leol a Chynllun Rheoli Risg Llifogydd ar wahân, mae’r Strategaeth newydd hon yn integreiddio’r ddwy ddogfen yn un. Mae hyn yn lleihau cymhlethdod ac yn galluogi CBSMT i gyfathrebu a rheoli’r risg o lifogydd lleol yn fwy effeithiol.

Ffigur 1-1 - Ffin Weinyddol CBSMT



1.2 STRATEGAETH LEOL I REOLI RISG LLIFOGYDD

- 1.2.1 Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010² yn darparu ar gyfer rheoli risg llifogydd yn well ac yn fwy cynhwysfawr i bobl, cartrefi a busnesau, wrth helpu i ddiogelu cymunedau rhag cynnydd mewn dŵr wyneb ac amddiffyn cyflenwadau dŵr.
- 1.2.2 Mae'r Ddeddf yn diffinio "risg llifogydd lleol" fel yr hyn sy'n deillio o:
- ddŵr ffo arwyneb;
 - dŵr daear; a
 - chysiau dŵr cyffredin (gan gynnwys risgiau'n deillio o lynnoedd, pyllau, neu ardaloedd eraill o ddŵr sy'n llifo i gwrs dŵr cyffredin).
- 1.2.3 Mae'r Ddeddf yn nodi ei bod hi'n ofynnol i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA) ddatblygu, cynnal, cymhwyso a monitro strategaeth ar gyfer rheoli risg llifogydd yn eu hardaloedd lleol.
- 1.2.4 CBSMT yw'r LLFA ar gyfer ardal weinyddol Merthyr Tudful ac mae wedi penderfynu bod angen Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) ar gyfer eu LFRMS, ar ôl ystyried gofynion Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004³.
- 1.2.5 Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru⁴ (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel y "Strategaeth Genedlaethol") yn amlinellu'r strategaeth ar gyfer rheoli risg llifogydd cenedlaethol ar hyd a lled Cymru. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi pum amcan troswaol ar gyfer rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru:
- gwella ein dealltwriaeth o risg a'r ffordd rydym yn hysbysu am risg;
 - bod yn barod ac adeiladu gwytnwch;
 - blaenoriaethu buddsoddiad i'r cymunedau sy'n wynebu'r risg fwyaf;
 - atal mwy o bobl rhag dod i gysylltiad â risg; a
 - darparu ymateb effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau.
- 1.2.6 Rhaid i'r LFRMS fod yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol a fydd yn sicrhau bod yr amcanion a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol yn cael eu cyflawni trwy waith yr holl Awdurdodau Rheoli Risg yng Nghymru.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Strategaeth Leol i Reoli Risg Llifogydd, 2013. Ar gael yn: <https://www.merthyr.gov.uk/media/1472/mtcbc-local-flood-risk-management-strategy-lfrms.pdf> (Cyrchwyd 10/10/2023)

² Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/29/contents> (Cyrchwyd 10/10/2023)

³ Offerynnau Statudol Cymru 2004 Rhif 1656, Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2004/1656/made> (Cyrchwyd 01/11/2023)

⁴ Llywodraeth Cymru, Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, 2020. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/the-national-strategy-for-flood-and-coastal-erosion-risk-management-in-wales.pdf> (Cyrchwyd 10/10/2023)

1.3 PWRPAS YR ADRODDIAD HWN

1.3.1 Mae CBSMT wedi comisiynu WSP i gynnal SEA o'r LFRMS.

1.3.2 Defnyddir yr SEA i ddisgrifio'r modd y caiff asesiad amgylcheddol ei gymhwyso i gynlluniau a rhaglenni yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor Ewropeaidd 2001/42/EC (Cyfarwyddeb SEA) ac a weithredir yng Nghymru drwy Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Rheoliadau SEA)⁵.

1.3.3 Mae'r SEA yn orfodol ar gyfer cynlluniau (gan gynnwys strategaethau) a rhaglenni a baratoir ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni, diwydiant, trafnidiaeth, rheoli gwastraff neu ddŵr, telathrebu, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref neu ddefnydd tir, ac sy'n pennu'r fframwaith ar gyfer caniatâd i ddatblygu yn y dyfodol ar gyfer prosiectau a restrir yn y Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol 85/337/EEC⁶ a'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol)⁷.

1.3.4 Mae'r SEA yn broses ailadroddol sy'n ymwneud â chasglu data a thystiolaeth, asesu effeithiau amgylcheddol, datblygu mesurau lliniaru a gwneud argymhellion i fireinio cynlluniau neu raglenni yn wyneb yr effeithiau amgylcheddol a ragwelir.

1.3.5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ail gam y broses SEA yn dilyn ymlaen o'r Adroddiad Cwmpasu a bennodd y materion i'w cynnwys yn yr SEA. Mae'r adroddiad hwn yn nodi:

- gwybodaeth am yr LFRMS (**Adran 2**);
- y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer yr SEA (**Adran 3**);
- crynodeb o'r materion a'r cyfleoedd a nodwyd yn ystod y cwmpasu (**Adran 4**);
- canlyniadau'r SEA (**Adran 5 ac Adran 6**);
- yr effeithiau cronol (**Adran 7**);
- lliniaru, gwella a monitro (**Adran 8**);
- argymhellion (**Adran 9**); a'r
- camau nesaf (**Adran 10**).

⁵ Offerynnau Statudol Cymru 2004 Rhif 1656, Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 [ar-lein] ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2004/1656/made>

⁶ Cyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol (85/337/EEC) 2014. Ar gael yn: <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32014L0052&from=EN>

⁷ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017. Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/571/introduction/made>

2 CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL – STRATEGAETH LEOL I REOLI RISG LLIFOGYDD


2.1 CYFLWYNIAD

- 2.1.1 Cyhoeddodd CBSMT ei Strategaeth Leol gyntaf yn 2013, gan nodi ei ddull troswaol o reoli risg llifogydd lleol. Ochr yn ochr â'i Strategaeth Leol, cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Risg Llifogydd (FRMP). Datblygodd y FRMP yr amcanion a'r camau gweithredu lefel-uchel a amlinellwyd yn ei Strategaeth Leol i fod yn gynllun manylach ar gyfer rheoli llifogydd yn ein cymunedau.
- 2.1.2 Er bod CBSMT wedi cyhoeddi Strategaeth Leol a FRMP ar wahân o'r blaen, nod y Strategaeth Leol newydd hon yw integreiddio'r ddwy ddogfen yn un. Mae hyn yn lleihau cymhlethdod ac yn ein galluogi ni i gyfathrebu a rheoli'r risg o lifogydd lleol yn fwy effeithiol.
- 2.1.3 Bydd yr LFRMS (y Strategaeth) newydd yn egluro'r modd y bydd llifogydd yn cael eu rheoli ar draws CBSMT, yn gyson â'r amcanion, y mesurau a'r polisïau a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol.
- 2.1.4 Bydd yr LFRMS a'r Cynllun Gweithredu yn cael eu hadolygu gan Lywodraeth Cymru a'u cyhoeddi ym mis Ebrill 2024. Bydd y Cynllun Gweithredu yn ddogfen esblygol a gaiff ei hadolygu a'i diweddarau'n flynyddol. Bydd y ddogfen Strategaeth ei hun yn cael ei hadnewyddu bob chwe blynedd, yn unol â Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd.

2.2 AMCANION A MESURAU

- 2.2.1 Mae'r LFRMS yn nodi'r Amcanion, y Mesurau a'r Camau Gweithredu ar gyfer rheoli risg llifogydd. Mae'r tri grŵp hyn yn darparu gwahanol lefelau o fanylion ar ffyrdd o reoli risgiau llifogydd. Crynhoir ystyr pob un yn Ffigur 2-1 isod.

Ffigur 2-1 – Amcanion, Mesurau a Chamau Gweithredu'r LFRMS



- 2.2.2 Mae gan yr LFRMS bum amcan trosfwaol, sydd fel a ganlyn:
- Amcan 1 LFRMS – Gwella ein dealltwriaeth o risg a'r ffordd rydym yn hysbysu am risg;
 - Amcan 2 LFRMS – Bod yn barod ac adeiladu gwytnwch;
 - Amcan 3 LFRMS – Blaenoriaethu buddsoddiad i'r cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf;
 - Amcan 4 LFRMS – Atal mwy o bobl rhag dod i gysylltiad â risg; a
 - Amcan 5 LFRMS – Darparu ymateb effeithiol a pharhaus i lifogydd.
- 2.2.3 Mae'r amcanion hyn yn cyd-fynd â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, sydd fel a ganlyn:
- Amcan Cenedlaethol A: Gwella ein dealltwriaeth o risg a'r ffordd rydym yn hysbysu am risg;
 - Amcan Cenedlaethol B: Bod yn barod ac adeiladu gwytnwch;
 - Amcan Cenedlaethol C: Blaenoriaethu buddsoddiad i'r cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf;
 - Amcan Cenedlaethol D: Atal mwy o bobl rhag dod i gysylltiad â risg; a
 - Amcan Cenedlaethol E: Darparu ymateb effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau.
- 2.2.4 Mae **Ffigur 2-2** isod yn dangos yr aliniad rhwng yr amcanion cenedlaethol ac amcanion trosfwaol yr LFRMS.

Ffigur 2-2 – Yr Aliniad rhwng Amcanion yr LFRMS ac Amcanion y Strategaeth Genedlaethol

Amcanion Strategaeth Leol CBSMT	Amcanion y Strategaeth Genedlaethol				
	A	B	C	D	E
Gwella ein dealltwriaeth o risg	•	•			
Bod yn barod a chyfathrebu	•	•			
Lleihau llifogydd dŵr wyneb i'r cymunedau mwyaf agored i risg			•	•	
Darparu ymateb effeithiol a chydlynol i lifogydd					•

- 2.2.5 Mae'r Strategaeth yn cynnig nifer o fesurau i amlinellu'r modd y mae CBSMT yn bwriadu cwrdd â'r amcanion a amlinellwyd uchod, er mwyn lleihau'r risg o lifogydd yn y Fwrdeistref Sirol yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r mesurau wedi'u trefnu yn ôl y categorïau canlynol:
- Cynllunio ac addasu datblygiadau;
 - Rhagweld, rhybuddio a hysbysu;
 - Astudiaethau, asesiadau a chynlluniau;
 - Allgymorth, ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad;
 - Bod yn barod ac ymateb;
 - Rheoli'r tir a'r amgylchedd; a
 - Rheoli a chynnal a chadw asedau.

2.2.6 Mae'r mesurau arfaethedig wedi'u nodi yn Nhabl 2-1.

Tabl 2-1 – Mesurau Arfaethedig yr LFRMS

Mesur	Disgrifiad
Cynllunio ac Addasu Datblygiadau	
1. Awdurdod Cynllunio Lleol (LPA)	Rydym yn bwriadu gweithio gyda'r LPA i wella'r ystyriaeth gynnar o risg llifogydd gan ddatblygwyr yn ystod Cyfnod yr Uwchgynllunio neu'n gynharach. Cyflawnir hyn drwy gydweithio â'r LPA i ddatblygu uwchgynlluniau ar gyfer Safleoedd Datblygu Strategol, a chyfrannu at strategaethau ar gyfer y Canllawiau Cynllunio Atodol (yr SPGs) posibl i arwain datblygiadau llai tuag at ddyrannu lleoedd yn well wrth reoli risg llifogydd a chynnal bioamrywiaeth.
2. Corff Cymeradwyo SuDS (system ddraenio gynaliadwy) (SAB)	Mae lle i integreiddio'n well rhwng yr LPA a'r SAB wrth ystyried y risg o lifogydd a achosir gan, ac i, ddatblygiadau. Gellir cofnodi hyn yn yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol, trwy ddatblygu Canllawiau Cynllunio Atodol a rhannu gwybodaeth yn well rhwng y SAB a'r LPA yn ystod y cam ymgeisio.
Rhagweld, Rhybuddio a Hysbysu	
3. Rhybuddion a Rhagolygon	Byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr ym meysydd cynllunio at argyfwng a chyfathrebu, i sicrhau bod rhybuddion cyhoeddus a gwybodaeth am argyfyngau llifogydd y gorau y gallant fod. O'n harolwg ni, gwelwyd bod mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol ar gyfer rhybuddion yn opsiwn poblogaidd iawn. Mae'n anodd darparu rhybuddion am lifogydd dŵr wyneb oherwydd natur gyflym ac anrhagweladwy'r math hwn o lifogydd. Wrth i dechnoleg a modelu llifogydd wella, bydd yr LLFA yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am atebion sydd ar gael ar gyfer rhagweld llifogydd dŵr wyneb, ac yn ystyried eu budd a'u haddasrwydd i'w defnyddio ym Merthyr Tudful.
4. Monitro Llifogydd	Mae nifer o lifogydd yn y gorffennol wedi'u hachosi gan broblemau gyda chymeriant y cwlfertau, megis rhwystrau neu broblemau â'r capasiti. O ganlyniad, mae 23 o orsafoedd monitro wedi'u gosod ar gymeriant cwlfertau â risg uchel ar draws y Fwrdeistref. Mae'r gorsafoedd monitro hyn wedi bod yn annibynadwy, ac felly rydyn ni'n bwriadu gwella'r system hon o ran caledwedd a meddalwedd. Yn dilyn dadansoddiad dalgylch pellach a gynigir gan y Strategaeth hon, rydyn ni'n bwriadu ehangu'r system fonitro i gynnwys unrhyw gymeriant arall â risg uchel.
Astudiaethau, Asesiadau a Chynlluniau	
5. Deall Risg Llifogydd	Bydd gwella ein dealltwriaeth o risg llifogydd ar draws y Fwrdeistref ar hyn o bryd yn ein galluogi i ganfod ardaloedd risg-uchel yn well. Byddwn yn ymdrechu i fodelu llifogydd yn annibynnol a herio mapiau o'r llifogydd gyda pherchennog y data lle ceir anghysondebau. Ers y llifogydd a achoswyd gan Storm Dennis yn 2020, mae nifer o gynlluniau amddiffyn rhag llifogydd a gwelliannau wedi'u cyflawni ar draws y Fwrdeistref. Ymgymeir â modelu llifogydd fel y gellir adlewyrchu'r gwelliannau hyn yn y mapiau llifogydd cenedlaethol.

Mesur	Disgrifiad
6. Modelu Llifogydd ac Arolygon	Bydd y broses o fodelu llifogydd yn cael ei defnyddio i lywio prosiectau ac ymyriadau yn y dyfodol i sicrhau bod y cynlluniau yn cael eu lleoli yn y mannau mwyaf effeithiol ar gyfer lleihau risg. Bydd y defnydd o fodelu hefyd yn sicrhau y gellir asesu cynlluniau arfaethedig yn erbyn effeithiau posibl a achosir gan newid yn yr hinsawdd.
7. Dŵr Daear	Byddwn yn anelu at wella'r wybodaeth sydd ar gael i ddatblygwyr er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd cartrefi newydd yn cael eu codi mewn ardaloedd lle mae risg na chaiff dŵr daear mo'i ddraenio'n briodol. Cyflawnwyd gwaith arloesol gan Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Awdurdod Glo yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr ar gyfer datblygiadau trwy gategoreiddio cyfyngiadau mwynloddio a dŵr daear mewn perthynas â draenio a SuDS. Gellir defnyddio'r gwaith hwn i gyfeirio ato.
8. Llifogydd Hanesyddol	Bydd CBSMT yn defnyddio GIS fel sail i adeiladu cronfa ddata o lifogydd hanesyddol a gasglwyd o ffynonellau lleol ac Awdurdodau Rheoli Risg eraill (yr RMAs). Bydd hyn yn cefnogi'r dasg o nodi cynlluniau lliniaru llifogydd ac yn helpu i wella ein dealltwriaeth o risg llifogydd yn y Fwrdeistref.
Allgymorth, Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltiad	
9. Addysg ac Ymwybyddiaeth o Llifogydd	Mae gan y Cyngor ddyletswydd o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 i rybuddio a hysbysu ei drigolion am risgiau cyn, yn ystod, ac ar ôl digwyddiad. Er gwaethaf yr ymgysylltu blaenorol gan Gynghorau, Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Rheoli Risg eraill, mae lefel ymwybyddiaeth y cyhoedd o risg llifogydd yn parhau'n isel. Defnyddir y gweithgareddau isod i wella addysg ac ymwybyddiaeth o lifogydd: - cyflwyniadau mewn ysgolion; - digwyddiadau galw-heibio cymunedol; - mw ymgyssylltiad cymunedol wrth ddatblygu ac adeiladu prosiectau amddiffyn rhag llifogydd; - hyfforddiant i staff CBSMT ar risg llifogydd a newid hinsawdd.
10. Cyfrifoldebau Risg Llifogydd	Bydd y Cyngor yn parhau i ymgysylltu â pherchnogion glannau afon sy'n meddu ar asedau risg-uchel gan ailasesu'r wybodaeth am y perchnogion hyn yn dilyn asesiadau risg o'u hasedau fel rhan o ddatblygiad y Strategaeth hon. Fel rhan o'r gweithgareddau ymwybyddiaeth ac addysg a amlinellir ym Mesur 9, caiff gwybodaeth ei darparu am gyfrifoldebau risg llifogydd y Cyngor, y cyhoedd ac Awdurdodau Rheoli Risg eraill. Gweler Adran 5 am fanylion ynghylch cyfrifoldebau risg llifogydd.
11. Gweithio mewn Partneriaeth	Mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysig i Awdurdodau Rheoli Risg sy'n anelu tuag at yr un nodau ac mae'n addas iawn ar gyfer rheoli risg llifogydd. Mae'n meithrin cydweithrediad ac yn darparu llwyfan effeithiol i rannu gwybodaeth a gwaith. Bydd CBSMT yn gweithio gyda CNC gyda'r bwriad o ddefnyddio gwaith partneriaeth i ddatblygu Uwchgynllun Llifogydd Strategol, sef strategaeth hirdymor a chyfannol ar gyfer rheoli risg o lifogydd ar gyfer Dalgylch Afon Taf.
12. Cynllun Ymateb i Llifogydd	Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r Cynllun Ymateb Brys i Llifogydd yn fewnol, cynigir bod yr Awdurdod Lleol o bryd i'w gilydd yn trefnu digwyddiad sy'n ymateb i lifogydd mewn modd efelychiadol. Bydd hyn yn helpu staff i fod yn ymwybodol ac yn

Mesur	Disgrifiad
	hyderus o'u rolau mewn ymatebion brys, ac yn cynorthwyo'r dasg o adolygu'r Cynllun Ymateb Brys i Llifogydd.
13. Cydnerthedd Cymunedol	Mae gwybod beth i'w wneud cyn ac yn ystod llifogydd yn hanfodol i hyn ac felly bydd CBSMT yn cefnogi ymdrechion i godi ymwybyddiaeth. Mae sawl dull ar gael i wella parodrwydd gan gynnwys cynlluniau llifogydd cymunedol ac unigol; digwyddiadau addysg neu weithdai gyda thrigolion ac ysgolion; a thudalennau gwe neu daflenni. Mae mesurau i Ddiogelu Eiddo rhag Llifogydd (PFR) yn rhan allweddol o gydnerthedd cymunedol. Eu nod yw lleihau'r llifddwr sy'n mynd i mewn i eiddo neu leihau'r effeithiau a chynorthwyo adferiad cyflym os bydd dŵr yn mynd i mewn i'r eiddo. Bydd CBSMT yn darparu mwy o wybodaeth i drigolion ar PFR ar ei wefan a thrwy ymgysylltu â'r gymuned.
14. Ymateb ac Adfer yn Gyfannol ar ôl Llifogydd	Mae angen i CBSMT feddu ar y gallu i ymdrin ag effeithiau llifogydd ar iechyd meddwl er mwyn cefnogi adferiad effeithiol a pharhaus. Bwriadwn annog ymatebwyr cyntaf o CBSMT i weithio gyda chydweithwyr yn Adran Seicoleg Rhondda Cynon Taf (RhCT) i ddarparu cymorth cyntaf seicolegol yn ystod llifogydd difrifol fel y gallwn ddarparu'r ymateb mwyaf effeithiol posibl. Byddwn yn ymdrechu i weithio gyda'r Bwrdd Iechyd ac Awdurdodau Rheoli Risg eraill tuag at gynnig sesiynau cymorth.
15. Digwyddiad Ymchwilio i Llifogydd	Nid oes trothwy statudol wedi'i osod ar gyfer adroddiadau Adran 19, ond mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff adroddiadau Adran 19 eu llunio pan fydd 20 neu fwy o gartrefi mewn un ardal yn dioddef llifogydd mewnol. Bydd CBSMT yn ymdrechu i gwblhau adroddiadau Adran 19 o fewn tri mis i'r llifogydd. Fel yr LLFA, bydd CBSMT yn ymchwilio i bob achos o lifogydd yn y Fwrdeistref y mae'n ymwybodol ohono, ac yn cofnodi hynny'n fewnol yn unol â mesur 16. Bydd y cofnod hwn yn cynnwys maint a ffynhonnell y llifogydd lle bo modd.
16. Cofnodi Llifogydd	Bydd cwblhau cofnod cywir o bob graddfa llifogydd yn darparu adnodd gwerthfawr ar gyfer deall y risg o lifogydd ar draws y Fwrdeistref. Rydym yn bwriadu datblygu system fewnol ar gyfer cofnodi unrhyw raddfa a ffynhonnell ar gyfer llifogydd. Byddwn yn sicrhau ei fod yn hawdd cofnodi digwyddiad ac y gellir ei wneud gan unrhyw adran angenrheidiol o'r Cyngor.
Rheoli'r Tir a'r Amgylchedd	
17. Rheoli Llifogydd yn Naturiol (NFM)	Byddwn yn gweithio gyda Thimau Cefn Gwlad ac Ynni CBSMT i sicrhau bod cynlluniau NFM yn darparu buddion lluosog o ran rheoli risg llifogydd, lliniaru newid yn yr hinsawdd, a hyrwyddo budd ecolegol gan gynnwys ansawdd dŵr. Bydd yr LLFA hefyd yn gweithio gyda'r timau hyn i annog y defnydd o gynlluniau NFM mewn prosiectau sy'n ymwneud ag ecoleg a rheoli tir.
18. Echdynnu Mwynau	Rydyn ni'n bwriadu parhau i gyflawni'r cynlluniau hyn a sicrhau bod peirianwyr draenio tir a pheirianwyr risg llifogydd yn cael mewnbwn i bob cynllun er mwyn i'r cynlluniau gael y budd mwyaf posibl o'r mesurau i reoli'r risg. Bydd technegau i reoli risg llifogydd yn naturiol yn cael eu hystyried fel mesurau ategol lle bo'n briodol. Rydyn ni'n bwriadu gwella ein gwybodaeth am ryngweithiad dŵr daear a cheuffydd, a byddwn yn gweithio gyda'r Awdurdod Glo i gyflawni cynlluniau lle mae ceuffydd yn achosi problemau mewn perthynas â risg llifogydd.

Mesur	Disgrifiad
	Bydd Tîm Risg Llifogydd y Cyngor yn rhan o'r Gweithgor sy'n ymwneud â'r trafodaethau ynghylch adfer safle'r pwll glo. Bydd lleihau'r risg o lifogydd ar y safle yn flaenoriaeth.
19. Risg Llifogydd a Newid Hinsawdd	Rydyn ni'n cynnig bod newid hinsawdd a'r ymaddasu a ddaw yn sgil hynny yn cael eu cynnwys yn ein haddysg ar risg llifogydd (Mesur 9), er mwyn cefnogi cymunedau i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Bydd ymwybyddiaeth CBSMT o risg llifogydd a newid hinsawdd yn cael ei chynyddu drwy weithdai gan Awdurdodau Rheoli Risg eraill (e.e. CNC) a chaiff y cynnwys ei ledaenu'n fewnol i ddilyn.
Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau	
20. Cynlluniau Rheoli Risg Llifogydd	Rydyn ni'n bwriadu datblygu rhaglen o gynlluniau ar gyfer rheoli risg llifogydd i dargedu'r cymunedau hynny sydd â'r perygl mwyaf, gan nodi'r modd y caiff y cynlluniau hyn eu cyflawni dros y cylch strategaeth hwn.
21. Cofrestr a Chofnod o Asedau Risg Llifogydd	Nid oes unrhyw ddull ffurfiol o adnabod asedau sydd ag "effaith arwyddocaol", felly bydd y Cyngor yn defnyddio hanes, bregusrwydd a modelau o'r llifogydd lle bo'n briodol i bennu'r asedau hyn. Byddwn yn parhau i ehangu'r cofnod asedau a bydd CBSMT yn defnyddio ei rôl mewn ymchwilio i berygl llifogydd, asesu ceisiadau SAB, cynllunio a chaniatáu cyrsiau dŵr cyffredin i nodi asedau newydd yn rhagweithiol. Ar hyn o bryd, mae gan CBSMT gronfa ddata asedau sy'n seiliedig ar GIS a bydd yn cael ei hadolygu a'i gwella gan roi cyfle i gofnodi asedau, archwiliadau a llifogydd yn well.
22. Cynnal a Chadw Asedau a Effeithiwyd gan Llifogydd	Mae cynnal a chadw asedau a effeithiwyd gan lifogydd yn rhan allweddol o leihau risg. Achosir nifer o lifogydd gan rwystrau i fewnlifoedd a sianeli neu systemau draenio priffyrdd. Gall trefn gynnal a chadw gadarn helpu i leihau'r risg o rwystrau ac ymestyn oes yr asedau â risg o lifogydd.

3 METHODOLEG

3.1 CYFLWYNIAD

- 3.1.1 Mae'r SEA yn broses systematig a ymgwymerir wrth baratoi cynllun. Ei rôl yw hyrwyddo datblygiad cynaliadwy drwy asesu effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, yn ogystal â lliniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl y gallai'r cynllun ei gael fel arall.

3.2 ASESAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL

- 3.2.1 Cynhelir y broses SEA wrth baratoi cynlluniau lleol a strategaethau datblygu gofodol. Ei rôl yw hyrwyddo datblygiad cynaliadwy drwy asesu i ba raddau y bydd cynlluniau newydd yn helpu i gyflawni amcanion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol perthnasol.
- 3.2.2 Defnyddir SEA i ddisgrifio'r modd y caiff asesiad amgylcheddol ei gymhwyso ar gyfer cynlluniau a rhaglenni yn unol â'r Rheoliadau SEA.
- 3.2.3 Mae SEA yn orfodol ar gyfer cynlluniau a rhaglenni sy'n cael eu paratoi ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni, diwydiant, trafnidiaeth, rheoli gwastraff neu ddŵr, telathrebu, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref neu ddefnydd tir, ac sy'n gosod y fframwaith ar gyfer caniatáu prosiectau'r dyfodol fel y'u rhestrir yn Atodiad I neu II i Gyfarwyddeb y Cyngor 85/337/EEC⁸.
- 3.2.4 Mae **Tabl 3-1** isod yn nodi'r broses SEA.

Tabl 3-1 – Camau'r SEA

Camau'r SEA	Camau a Thasgau'r SEA	Pwrpas
Cam A: Gosod y cyd-destun a'r amcanion, sefydlu'r llinell sylfaen a phenderfynu ar y cwmpas		
A1	Nodi cynlluniau, rhaglenni ac amcanion perthnasol eraill i ddiogelu'r amgylchedd er mwyn canfod amcanion SEA.	Pennu'r ffordd y mae ffactorau allanol yn effeithio ar y Cynllun neu'r rhaglen, awgrymu syniadau ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw gyfyngiadau, a helpu.
A2	Casglu gwybodaeth sylfaenol	Darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer problemau amgylcheddol, rhagfynegi effeithiau, a monitro; helpu i ddatblygu amcanion yr SEA.
A3	Canfod problemau amgylcheddol	Helpu i ganolbwyntio'r SEA a symleiddio'r camau dilynol, gan gynnwys dadansoddi gwybodaeth sylfaenol, gosod amcanion yr SEA, rhagfynegi effeithiau a monitro.

⁸ Cyfnodolyn Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd, Cyfarwyddeb y Cyngor dyddiedig 27 Mehefin 1985 ar asesu effeithiau rhai prosiectau cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd (85/337/EEC). Ar gael yn: <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:31985L0337&from=EN> (Cyrchwyd 01/11/2023)

Camau'r SEA	Camau a Thasgau'r SEA	Pwrpas
A4	Datblygu amcanion yr SEA	Darparu modd o asesu perfformiad amgylcheddol y Cynllun neu'r Rhaglen a'r dewisiadau amgen.
A5	Ymgynghori ar gwmpas yr SEA	Sicrhau bod yr SEA yn ymdrin ag effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol y Cynllun/Rhaglen.
Cam B: Datblygu a mireinio dewisiadau amgen ac asesu effeithiau		
B1	Profi amcanion y Cynllun neu'r Rhaglen yn erbyn amcanion yr SEA	Canfod synergeddau neu anghysondebau posibl rhwng amcanion y Cynllun neu'r Rhaglen ac amcanion yr SEA a helpu i ddatblygu dewisiadau amgen.
B2	Datblygu dewisiadau amgen strategol	Datblygu a mireinio dewisiadau amgen strategol.
B3	Rhagfynegi effeithiau'r Cynllun neu'r Rhaglen, gan gynnwys dewisiadau amgen	Rhagfynegi effeithiau amgylcheddol sylweddol y Cynllun neu'r Rhaglen a'r dewisiadau amgen.
B4	Gwerthuso effeithiau'r Cynllun neu'r Rhaglen, gan gynnwys dewisiadau amgen	Gwerthuso'r effeithiau a ragwelir ar gyfer y Cynllun neu'r rhaglen a'i ddewisiadau amgen a chynorthwyo i fireinio'r Cynllun neu'r Rhaglen.
B5	Lliniaru effeithiau andwyol	Sicrhau bod effeithiau andwyol yn cael eu nodi, a bod mesurau lliniaru posibl yn cael eu hystyried.
B6	Cynnig mesurau i fonitro'r effeithiau amgylcheddol a gwyd yn sgil gweithredu'r Cynllun neu'r Rhaglen	Manylu ar y modd y gellir asesu perfformiad amgylcheddol y Cynllun neu'r Rhaglen.
Cam C: Paratoi'r Adroddiad Amgylcheddol		
C3	Paratoi'r Adroddiad Amgylcheddol	Cyflwyno effeithiau amgylcheddol rhagweledig y Cynllun neu'r Rhaglen, gan gynnwys y dewisiadau amgen, ar ffurf sy'n addas ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
Cam D: Ymgynghori ar y cynllun neu'r rhaglen ddrafft a'r Adroddiad Amgylcheddol		
D1	Ymgynghori â'r cyhoedd a Chyrff Ymgynghori ynghylch y Cynllun neu'r Rhaglen Ddrafft a'r Adroddiad Amgylcheddol	Rhoi cyfle i'r cyhoedd a'r Cyrff Ymgynghori fynegi eu barn ar ganfyddiadau'r Adroddiad Amgylcheddol a'i ddefnyddio fel cyfeirbwynt wrth wneud sylwadau ar y Cynllun neu'r Rhaglen. Casglu mwy o wybodaeth trwy ganfod barn a phryderon y cyhoedd.

Camau'r SEA	Camau a Thasgau'r SEA	Pwrpas
D2	Asesu newidiadau sylweddol	Sicrhau bod goblygiadau amgylcheddol unrhyw newidiadau sylweddol i'r Cynllun neu'r Rhaglen Ddrafft ar hyn o bryd yn cael eu hasesu a'u hystyried.
D3	Gwneud penderfyniadau a darparu gwybodaeth	Darparu gwybodaeth ar y modd yr ystyriwyd yr Adroddiad Amgylcheddol a barn yr ymgynghoreion wrth benderfynu ar ffurf derfynol y Cynllun neu'r Rhaglen i'w mabwysiadu.
Cam E: Monitro effeithiau arwyddocaol y Cynllun ar yr amgylchedd		
E1	Datblygu nodau a dulliau monitro	Tracio effeithiau amgylcheddol y Cynllun i ddangos a ydynt fel y rhagfynegwyd ac i helpu i ganfod effeithiau andwyol.
E2	Ymateb i effeithiau andwyol	Paratoi ar gyfer ymatebion priodol lle nodir effeithiau andwyol.

3.3 METHODOLEG YR ADRODDIAD AMGYLCHEDDOL

- 3.3.1 Mae Cam D (y cam hwn) yn cynnwys asesiad o'r Cynllun LFRMS terfynol (yn dilyn ymgynghori), yn erbyn amcanion Fframwaith Arfarnu SEA a nodwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu (Cam A). Mae'r cam hwn yn ymgorffori'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar yr LFRMS a'r SEA gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Cadw a rhanddeiliaid eraill. Mae'r ymatebion a dderbyniwyd a'r camau a gymerwyd wedi'u nodi yn Atodiad C o'r prif Adroddiad Amgylcheddol.
- 3.3.2 Yn unol â'r rheoliadau SEA, mae angen i'r SEA hefyd ystyried a chymharu'r holl ddewisiadau amgen rhesymol wrth i'r LFRMS ddatblygu ac asesu'r rhain yn erbyn nodweddion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sylfaenol y Fwrdeistref Sirol. Y dewisiadau amgen rhesymol yw'r gwahanol opsiynau realistig a ystyriwyd gan y sawl sy'n llunio'r Cynllun ac yn datblygu'i bolisiau.
- 3.3.3 Gan nad oes unrhyw fesurau amgen arfaethedig, mae'r SEA wedi ystyried ymyriadau blaenorol y Cynllun fel dewisiadau amgen rhesymol.
- 3.3.4 Felly, mae'r Adroddiad Amgylcheddol hwn wedi ymdrin â'r asesiad o'r canlynol:
- cydweddoldeb yr amcanion;
 - y mesurau arfaethedig; a'r
 - mesurau amgen.

3.4 ASESU'R CYDWEDDOLDEB

- 3.4.1 Mae profi cydweddoldeb Amcanion yr LFRMS yn erbyn Fframwaith Arfarnu'r SEA o gymorth i ganfod synergeddau ac anghysondebau posibl. Gall y wybodaeth hon helpu i ddatblygu a mireinio amcanion y Cynllun Lleol.
- 3.4.2 Gweler Adran 5 am fanylion pellach.

3.5 ASESU'R EFFEITHIAU

- 3.5.1 Mae'r asesiad o fesurau wedi ystyried yr effeithiau canlynol:
- Arwyddocâd effaith gyffredinol (negyddol, cadarnhaol, ansicr, potensial ar gyfer effaith negyddol a chadarnhaol neu ddibwys)
 - Maint yr effeithiau (uchel, canolig, isel):
 - Uchel: Mae'n debygol y bydd y derbynnydd dan sylw yn colli'r cwbl neu'n newid llawer. Rhagwelir y bydd yr effeithiau yn barhaol ac yn ddi-droi'n-ôl.
 - Canolig: Colled/newid/gwelliant rhannol i un neu fwy o elfennau/nodweddion/priodoleddau allweddol y derbynnydd dan sylw. Rhagwelir y bydd yr effeithiau yn rhai tymor canolig-hir ond yn aml yn wrthdroadwy.
 - Isel: Mân golled/newid/gwelliant i un neu fwy o elfennau/nodweddion/priodoleddau allweddol y derbynnydd dan sylw. Yn aml, rhagwelir y bydd yr effeithiau yn rhai gwrthdroadwy a byrdymor.
 - Natur yr effaith (uniongyrchol, anuniongyrchol)
 - Maint Gofodol (lleol, rhanbarthol, cenedlaethol)
 - Gwrthdroadwyedd yr effaith:
 - Gwrthdroadwy: Gall y derbynnydd ddychwelyd i gyflwr sylfaenol heb ymyrraeth sylweddol
 - Di-droi'n-ôl: Byddai angen ymyrraeth sylweddol ar y derbynnydd i ddychwelyd i'w gyflwr sylfaenol
 - Hyd (tymor byr, canolig neu hir):
 - Tymor byr: 0-5 mlynedd
 - Tymor canolig: 5-10 mlynedd (hyd at ddiwedd cyfnod y Cynllun)
 - Tymor hir: 10+ mlynedd (y tu hwnt i gyfnod y Cynllun)

- 3.5.2 Mae **Tabl 3-2** yn nodi'r allwedd i arwyddocâd yr effeithiau a ddefnyddir yn yr asesiad.

Tabl 3-2 - Allwedd i Arwyddocâd yr Effeithiau

Arwyddocâd yr Effaith	Allwedd
Potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol arwyddocaol	++
Potensial ar gyfer mân effeithiau cadarnhaol	+
Potensial ar gyfer mân effeithiau negyddol	-

Arwyddocâd yr Effaith	Allwedd
Potensial ar gyfer effeithiau negyddol arwyddocaol	--
Effeithiau ansicr – gwybodaeth ansicr neu annigonol i benderfynu ynghylch yr arfarniad ar hyn o bryd	?
Potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol	+/-
Dibwys / Dim effaith	0
Maint (Uchel, Canolig neu Isel)	H / M / L
Natur yr effaith (uniongyrchol/anuniongyrchol).	D / I
Hyd a Lled Ofodol (lleol - bwrdeistref gyfan / rhanbarthol - De Cymru / cenedlaethol - Cymru)	L / R / N
Gwrthdroadwyedd yr effaith (gwrthdroadwy / di-droi'n-ôl)	R / I
Parhad (Parhaol / Dros Dro)	P / T
Hyd (tymor byr / canolig / hir).	ST / MT / LT

3.5.3 Sylwer: lle mae effeithiau ansicr a dibwys wedi'u nodi, nid oedd modd pennu natur yr effaith, yr ehangder gofodol, y gwrthdroadwyedd na hyd yr effaith. Yn yr achos hwn, mae'r celloedd hyn wedi'u gadael yn wag.

3.6 EFFEITHIAU CRONNOL

3.6.1 Mae'r Rheoliadau SEA yn mynnu bod effeithiau cronrol yn cael eu hystyried wrth nodi effeithiau arwyddocaol tebygol. Felly, mae nifer o gynlluniau a pholisïau (lleol, rhanbarthol a chenedlaethol) wedi'u hadolygu ar gyfer effeithiau cronrol posibl, yn ogystal ag effeithiau cronrol posibl a allai ddigwydd ochr yn ochr â gweithredu'r LFRMS Drafft.

3.6.2 At hynny, mae'r asesiad o safleoedd wedi ystyried effeithiau cronrol safleoedd datblygu cyfagos, gan gynnwys y rhai y tu hwnt i ffiniau'r Fwrdeistref.

3.6.3 Mae asesiad o'r effeithiau cronrol wedi'i nodi yn **Adran 7** yr adroddiad hwn.

3.7 MESURAU LLINIARU, GWELLA A MONITRO

3.7.1 Mae'r Rheoliadau SEA yn mynnu bod mesurau lliniaru yn cael eu hystyried i atal, lleihau neu wrthbwysu unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd o ganlyniad i weithredu'r Cynllun. Gelwir y mesurau hyn yn fesurau "lliniaru".

- 3.7.2 Mae mesurau lliniaru wedi'u nodi mewn perthynas ag asesu polisïau, gweledigaethau lleoedd, dyraniadau safle a dewisiadau safle amgen. Mae'r rhain yn cynnwys camau rhagweithiol i osgoi effeithiau a chamau andwyol a gymerwyd ar ôl nodi effeithiau posibl. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn **Adran 8** o'r adroddiad hwn.
- 3.7.3 Mae **Adran 8** hefyd yn cynnwys mesurau gwella sy'n anelu at wneud y mwyaf o effeithiau cadarnhaol a gwella cynaliadwyedd. Bydd y mecanwaith yn sicrhau bod unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd yn cael eu hatal, eu lleihau a'u gwrthbwysu, a bod unrhyw gyfleoedd i'w gwella, yn cael eu hyrwyddo.
- 3.7.4 Mae'r Rheoliadau SEA hefyd yn mynnu bod cynllun yn cael ei fonitro fel y gellir nodi effeithiau arwyddocaol y gweithredu, a chymryd camau adferol. Pwrpas y monitro yw darparu mesur pwysig o gynaliadwyedd y Strategaeth derfynol, a mesur perfformiad y Cynllun yn erbyn amcanion a thargedau cynaliadwyedd. Defnyddir y gwaith monitro hefyd i reoli ansicrwydd, gwella gwybodaeth, hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd, a rheoli gwybodaeth am gynaliadwyedd.

3.8 RHAGDYBIAETHAU A CHYFYNGIADAU

- 3.8.1 Mae paratoi'r LFRMS ochr yn ochr â'r SEA wedi caniatáu proses ailadroddol ar gyfer asesu a mireinio naratif a pholisïau'r Cynllun. Felly, mae'n bosibl bod rhai o'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn eisoes wedi cael sylw yn yr LFRMS.
- 3.8.2 Mae'r asesiad o amcanion a mesurau wedi'i gynnal fel "ymarfer desg" gan ddefnyddio'r wybodaeth sylfaenol o'r Adroddiad Cwmpasu. Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau safle yn benodol at ddibenion yr SEA.
- 3.8.3 Mae Cynllun Gofodol Cymru (WSP) wedi sicrhau bod effeithiau'n cael eu rhagweld yn gywir; fodd bynnag, gall hyn fod yn heriol o ystyried y ddealltwriaeth gyfyngedig o'r union modd y caiff y Strategaeth ei gweithredu. O ystyried yr ansicrwydd, mae'n anochel y bydd angen gwneud rhai rhagdybiaethau; er hynny, mae'r rhain yn cael eu gwneud yn ofalus a'u hesbonio'n fanwl yn nhestun yr asesiad.
- 3.8.4 Mewn rhai achosion, o ystyried tybiaethau rhesymol, nid yw'n bosibl rhagweld "effeithiau arwyddocaol", ond mae modd cynnig sylwadau mwy cyffredinol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl y Cynllun Drafft a'i ddewisiadau amgen.

4 NODI MATERION, CYFLEOEDD AC AMCANION YR SEA

4.1 CYFLWYNIAD

- 4.1.1 Mae'r adran hon yn nodi'r materion a'r cyfleoedd sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ar gyfer yr LFRMS a Fframwaith Arfarnu'r SEA, sef yr hyn y mae'r Cynllun Lleol wedi'i asesu yn ei erbyn.
- 4.1.2 Cynhyrchwyd Adroddiad Cwmpasu, i gefnogi'r LFRMS, gan WSP ym mis Hydref 2023, a hynny a gychwynnodd y broses SEA (gweler **Tabl 3-1**). Roedd yr adroddiad hwn yn adolygu deddfwriaeth, cynlluniau a rhaglenni sylfaenol perthnasol, yn nodi gwybodaeth sylfaenol yn ogystal â materion a chyfleoedd allweddol ar gyfer y Cynllun Lleol, ac yn nodi fframwaith asesu. Mae'r adolygiad o gynlluniau, polisïau a rhaglenni i'w weld yn **Atodiad A** ac mae'r llinell sylfaen lawn wedi'i chofnodi yn **Atodiad B**.
- 4.1.3 Ymgynghorwyd ynghylch yr adroddiad hwn gyda'r Ymgynghoreion Statudol (Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadw) yn ogystal â Llywodraeth Cymru a cheir manylion o'u sylwadau ymgynghori yn **Atodiad C**. Mae'r wybodaeth waelodlin a ddefnyddiwyd yn Adroddiad Cwmpasu'r SEA wedi'i nodi yn **Atodiad B**.

4.2 ADOLYGU CYNLLUNIAU, POLISÏAU A RHAGLENNI

- 4.2.1 Gall cynllun gael ei ddylanwadu mewn amrywiol ffyrdd gan gynlluniau, polisïau neu raglenni eraill, neu gan amcanion gwarchod yr amgylchedd allanol megis y rhai a nodir mewn polisïau neu ddeddfwriaeth. Mae'r perthnasoedd hyn yn galluogi'r Awdurdod Cyfrifol i fanteisio ar synergeddau posibl ac i ymdrin ag unrhyw anghysondebau a chyfyngiadau.
- 4.2.2 Cynhaliodd yr Adroddiad Cwmpasu adolygiad cychwynnol o bolisïau, cynlluniau, rhaglenni, strategaethau a mentrau a allai gael effaith ar baratoi polisïau perthnasol sy'n cael eu hadolygu fel rhan o ddiweddariad yr LFRMS. Mae'r adolygiad hwn wedi llywio datblygiad yr LFRMS a fframwaith yr SEA.
- 4.2.3 Ceir manylion llawn am yr adolygiad o gynlluniau, polisïau a rhaglenni yn **Atodiad A**.

4.3 MATERION A CHYFLEOEDD CYNALADWYEDD

- 4.3.1 Roedd yr Adroddiad Cwmpasu yn nodi nifer o faterion a chyfleoedd ar gyfer yr LFRMS ac roeddynt yn ymwneud â phob un o'r pynciau SEA a amlinellwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu. Mae'r pynciau hynny a gwmpaswyd yn yr SEA wedi'u hamlinellu yn **Nhabl 4-1** isod.

Table 4-1 - Cwmpas yr SEA

Pwnc SEA	Cwmpaswyd?	Rhesymeg
Poblogaeth a Chydraddoldeb	Do	Mae gan y Strategaeth y potensial i effeithio'n gadarnhaol ac yn negyddol ar boblogaeth, cydraddoldeb ac iechyd pobl. Oherwydd bod y pynciau hyn yn gorgyffwrdd â'i gilydd o ran risg llifogydd, cynigir y bydd un amcan SEA yn ymdrin â'r ddau bwnc.
Iechyd Pobl	Do	

Pwnc SEA	Cwmpaswyd?	Rhesymeg
Yr Economi	Do	Mae gan yr LFRMS y potensial i effeithio'n sylweddol ar fusnesau ac economi'r ardal a bydd yn destun sylw manwl.
Bioamrywiaeth	Do	Mae potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol ar fioamrywiaeth o ganlyniad i'r LFRMS.
Tirwedd a Threflun	Do	Mae potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol ar dirwedd a threflun o ganlyniad i'r LFRMS.
Amgylchedd Hanesyddol	Do	Mae potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol ar yr amgylchedd hanesyddol o ganlyniad i'r LFRMS.
Amgylchedd Dŵr	Do	Mae potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol ar yr amgylchedd dŵr o ganlyniad i'r LFRMS.
Ansawdd Aer ac Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr	Naddo	Mae'r LFRMS yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ansawdd aer ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, ond bydd yn destun sylw manwl.
Ffactorau Hinsoddol	Do	Mae potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol ar ffactorau hinsoddol o ganlyniad i'r LFRMS.
Asedau Materol	Do	Mae potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol ar asedau materol o ganlyniad i'r LFRMS.

4.3.2 Mae'r materion a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer pob un o'r pynciau hyn wedi'u crynhoi yn **Nhabl 4-2** isod.

Tabl 4-2 – Y Materion a'r Cyfleoedd Allweddol

Pwnc SEA	Materion a Chyfleoedd
Poblogaeth a Chydraddoldeb	- Rhagwelir y bydd twf yn y boblogaeth erbyn 2030. - Gyda phoblogaeth gynyddol sy'n heneiddio ar draws ardal CBSMT, mae'n debygol y bydd straen ychwanegol ar wasanaethau a seilwaith y rhanbarth, gan gynnwys cyfnodau pan geir llifogydd. - Mae cyfleoedd i leihau a rheoli'r risg o lifogydd ar gyfer yr henoed a chymunedau gwledig. - Dylai'r LFRMS anelu at leihau a rheoli'r risg o lifogydd. - Bydd angen i ddatblygiadau gefnogi newidiadau demograffig yn y dyfodol. - Yn aml, mae anghyfartaledd o ran amddifadedd cymdeithasol a dod i gysylltiad â phob ffynhonnell sy'n achosi risg o lifogydd. - Dylai'r Strategaeth Leol anelu at leihau a rheoli risg llifogydd. - Bydd angen i ddatblygiadau gefnogi newidiadau demograffig yn y dyfodol.
Iechyd Pobl	Disgwylir i'r boblogaeth barhau i gynyddu a gall hynny roi straen ychwanegol ar wasanaethau a seilweithiau.

Pwnc SEA	Materion a Chyfleoedd
	- Mae'r prif risgiau iechyd a gwyd yn sgil llifogydd yn cynnwys boddi, anaf difrifol o ddisgyn i ddŵr sy'n llifo'n gyflym, anadliad carbon monocsid, straen a heintiau o ddod i gysylltiad â dŵr llifogydd. - Gall llifogydd gyflwyno amrywiaeth o ffactorau straen eilaidd i unigolion. - Mae gwahaniaethau mawr rhwng disgwyliad oes yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig. - Dylai'r LFRMS sicrhau bod y mesurau atal llifogydd yn bodloni gofynion ac anghenion poblogaeth y dyfodol. - Mae gwahaniaethau mawr rhwng disgwyliad oes yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig. - Dylai'r LFRMS sicrhau bod y mesurau atal llifogydd yn bodloni gofynion ac anghenion poblogaeth y dyfodol. - Mae angen i'r LFRMS gydbwysu costau a buddion yr amddiffynfeydd rhag llifogydd.
Yr Economi	- Mae'r gyfradd cyflogaeth wedi cynyddu, ac mae'r gyfradd anweithgaredd economaidd wedi gostwng, gan ddangos twf economaidd. - Mae pandemig COVID-19 wedi beichio'r economi leol drwy roi pwysau ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac atal busnesau rhag gweithredu a thrigolion rhag gweithio. - Darparodd CBSMT gymorth grant i fusnesau lleol a mentrau cymdeithasol yn ystod y pandemig. - Mae potensial am fwy o straen i gefnogi pobl nad ydynt o oedran gweithio wrth i boblogaeth y rhai 65 oed a hŷn gynyddu. - Darparodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol i fusnesau lleol oedd yn dod dros y llifogydd a achoswyd gan Stormydd Ciara a Dennis. - Mae cyfle i gefnogi'r twf yn yr economi a chyflawni gweledigaeth economaidd CBSMT ar gyfer 2020-2035, yn enwedig yn dilyn y pandemig, drwy amddiffyn busnesau lleol rhag llifogydd. - Dylai'r LFRMS leihau a rheoli'r risg o lifogydd ar gyfer busnesau lleol.
Bioamrywiaeth	- Bellach, mae Cymru'n un o wledydd tlotaf y byd o ran natur. - Bydd newid yn yr hinsawdd a dirywiad yn yr ansawdd dŵr yn rhoi straen ar ecosystemau daearol a dyfrol. - Mae angen cynyddu gwytnwch yr ecosystemau. - Gall llifogydd gael effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth gan gynnwys boddi, amlhau clefydau a dinistrio cynefinoedd. - Dangoswyd bod llifogydd eithafol yn cael effaith negyddol ar ecosystemau dŵr croyw. - Mae llifogydd yn cynyddu dŵr ffo sy'n cyflwyno mwy o bridd, deunydd organig a llygryddion i gyrsiau dŵr. - Gall biomas planhigion a'r doreth o fertebratau ac infertebratau gael eu lleihau'n ddramatig gan lifogydd eithafol. - Mae Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS), plâu a phathogenau yn gallu lledaenu, gan achosi difrod i weddiill y fioamrywiaeth. Mae gan CBSMT broblemau gyda <i>Phytophthora ramorum</i>, <i>Rhododendron ponticum</i>, a <i>Chalara fraxinea</i> (gwywiad yr onnen). - Dylai'r LFRMS ystyried difrifoldeb yr amgylchedd presennol a gwaelodlin bioamrywiaeth pob rhan o gymdeithas a rhoi pwyslais ar wella ansawdd presennol y dŵr a bioamrywiaeth y dyfodol o fewn CBSMT. - Bydd angen i'r LFRMS gadw at nodau bioamrywiaeth CBSMT yn y dyfodol a lliniaru unrhyw effeithiau posibl ar gynefinoedd sy'n arwain at golli bioamrywiaeth.

Pwnc SEA	Materion a Chyfleoedd
	Dylai'r LFRMS ymgorffori atebion sy'n seiliedig ar natur a gweithio tuag at enillion net mewn bioamrywiaeth.
Tirwedd a Threflun	- Gall newid yn yr hinsawdd gael effaith ar nodweddion tirwedd megis sychu cronfeydd dŵr, lleihau cyfaint y dŵr mewn afonydd a chynyddu amllder a dwyster llifogydd. - Bydd y twf disgwylidig yn y boblogaeth yn gyrru'r angen am gartrefi a chyfleusterau ychwanegol. - Mae'r Parc Cenedlaethol yn meddu ar broblemau rheoli tir sy'n ymwneud yn enwedig â bioamrywiaeth, ac yn deillio o newidiadau yn y byd amaeth, datblygiadau lleol, newid hinsawdd, a rhywogaethau estron goresgynnol yn lledaenu. - Mae angen hefyd ystyried dibenion Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'i amgylchedd. Pwrpas y rhain yw cadw a gwella harddwch naturiol a mwynhad o Nodweddion Arbennig y Parc, sy'n cynnwys Awyr Dywyll a Llonyddwch. - Bydd angen i'r LFRMS sicrhau ei fod yn gwarchod tirwedd a threflun unigryw CBSMT, gan gynnwys yr amgylcheddau gwledig a threfol. - Dylai'r LFRMS gefnogi cyfleoedd i greu atebion sy'n seiliedig ar natur, yn ymgorffori seilwaith gwyrdd/glas ac yn darparu asedau hamdden newydd i'r gymuned.
Amgylchedd Hanesyddol	- Yn y dyfodol, mae gan dwf a datblygiad y potensial i effeithio ar oroesiad, ffabrig, cyflwr ac amgylchedd yr asedau treftadaeth ddiwylliannol (uwchben ac o dan y ddaear). - Gall cynnydd mewn glawiad, tywydd eithafol a llifogydd arwain at ddifrodi, diraddio a/neu erydu safleoedd treftadaeth ac archeolegol heb y modd i'w hadfer. - Dylai'r LFRMS hyrwyddo rheolaeth a chynhaliaeth yr asedau hanesyddol a diwylliannol, a gwella gwytnwch hinsoddol y safleoedd diwylliannol, gan sicrhau bod nodweddion nodedig yn cael eu gwarchod. - Dylai'r LFRMS anelu at wella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o arwyddocâd asedau treftadaeth.
Amgylchedd Dŵr	- Gall effeithiau newid hinsawdd arwain at fwy o lifogydd a sychder ar gyfer ffynonellau dŵr CBSMT. - Gall y potensial i ddefnyddio ffynonellau dŵr daear effeithio ar dderbynyddion cyfagos sy'n dibynnu ar ddŵr daear, gan gynnwys ecosystemau daearol a chysiau dŵr sy'n dibynnu ar ddŵr daear, yn ogystal â'r dŵr daear a echdynnir eisoes. - Gallai ansawdd dŵr is gael effeithiau andwyol sylweddol ar ecosystemau dibynnol. - Mae ansawdd ffisegol a chemegol yr adnoddau dŵr yn agwedd bwysig ar yr amgylchedd naturiol, a gall llygredd a achosir gan ddŵr ffo o seilwaith trafndiaeth newydd neu bresennol effeithio'n andwyol arnynt. Yn ogystal â hynny, gall newidiadau i gyrff dŵr effeithio ar eu hansawdd fel cynefin. - Gall effeithiau hirdymor y gorffennol diwydiannol achosi heriau sy'n effeithio ar ansawdd dŵr. - Dylai'r LFRMS geisio ymgorffori strategaethau lliniaru megis systemau draenio trefol cynaliadwy (SUDS) a seilwaith gwyrdd (GI) er mwyn addasu i newid hinsawdd a gwrthweithio perygl llifogydd. Gall GI hefyd leihau dŵr ffo ar yr wyneb a gwella ansawdd y dŵr. - Mae angen gwella/adfer y geomorffoleg er mwyn gwella cynefinoedd a phrosesau naturiol.

Pwnc SEA	Materion a Chyfleoedd
	- Mae gan yr LFRMS gyfle i fod yn niweidiol neu'n fuddiol wrth weithredu mesurau lliniaru'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. - Mae cyfleoedd i gydweithio ar atebion sy'n seiliedig ar natur ar gyfer buddion ehangach, gan gynnwys y risg o lifogydd.
Ffactorau Hinsoddol	- Mae'r risg o lifogydd mwy yn parhau i fod yn risg hinsoddol allweddol i seilwaith CBSMT a rhagwelir y bydd risg cynyddol o wlybaniaeth trwm yn ystod misoedd y gaeaf o hyn allan. - Bydd maint y newid hinsawdd yn y dyfodol yn cael ei effeithio'n fawr gan faint o nwyon tŷ gwydr a ollyngir. - Bydd y risg o lifogydd yn y dyfodol yn achosi difrod sylweddol i seilwaith. - Bydd newidiadau yng nglawiad y dyfodol yn cael effaith sylweddol ar iechyd a llesiant pobl ac ar gyfalaf naturiol CBSMT. - Mae angen i'r LFRMS ddiogelu rhag llifogydd hinsoddol yn awr ac yn y dyfodol. - Er mwyn cynyddu gwytnwch, bydd angen i'r LFRMS gynllunio, gweithredu a hwyluso'r dasg o addasu i'r tymheredd uwch a thywydd eithafol a ddaw yn sgil newid hinsawdd, yn enwedig glaw trwm/llifogydd a phoethder.
Asedau Materol	- Mae'r boblogaeth gynyddol a'r angen cysylltiedig am ddatblygiad yn debygol o gynyddu'r defnydd o bridd a thir. - Bydd cyfleoedd i wneud defnydd o dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd) ac i leihau nifer yr achosion o dir diffaith. - Mae angen lleihau'r defnydd o adnoddau, gan gynnwys ynni ac asedau materol. - Bydd newid hinsawdd y dyfodol a chynnydd mewn glawiad yn debygol o arwain at fwy o risg i'r amgylchedd adeiledig, yn ogystal ag asedau a systemau seilwaith. - Mae ymgorffori seilwaith gwyrdd yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer dal a storio carbon. - Mae angen lleihau effaith bosibl llifogydd ar drafnidiaeth a seilwaith hanfodol arall, yn awr ac yn y dyfodol. - Mae hefyd angen gwarchod a gwella daeareg, geomorffoleg, adnoddau mwynol ac ansawdd priddoedd ym Merthyr Tudful. - Mae angen i'r LFRMS ddiogelu a gwella'r seilwaith llifogydd presennol er mwyn ymestyn ei oes. - Mae potensial i gael atebion sy'n seiliedig ar natur yn y dyfodol, e.e. darparu mynediadau i'r amgylchedd a chaniatáu llwybrau newydd.

4.1 FFRAMWAITH ARFARNU'R SEA

4.1.1 Mae amcanion Fframwaith Arfarnu'r SEA a ddarperir yn Nhabl 4-3 ond yn ymwneud â materion SEA sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad (gweler Tabl 4-2). Mae amcanion yr SEA a'r dangosyddion cysylltiedig yn deillio o'r data sylfaenol, y materion a'r cyfleoedd ynghyd â'r adolygiad o gynlluniau, polisiau a rhaglenni perthnasol eraill.

Tabl 4-3 – Fframwaith yr SEA

Pwnc yr SEA	Amcan yr SEA	Cwestiynau Arfarnu Ategol – A fydd y polisi/ymyrraeth ...
Poblogaeth a Chydraddoldeb Iechyd Pobl	SEA1: Cynyddu a gwella amddiffyniad rhag llifogydd yn ogystal ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth i gwrdd â newidiadau demograffig y presennol a'r dyfodol, a diogelu a gwella pobl o ran eu hiechyd, ansawdd bywyd a llesiant.	yn cefnogi twf poblogaeth y dyfodol? yn diogelu ac yn gwella amwynderau hamdden a mynediadau i'r cyhoedd? yn osgoi effeithiau negyddol ar iechyd neu ansawdd bywyd pobl, e.e. llygredd sŵn ac aer? yn cefnogi mentrau ymgysylltu cymunedol? yn lleihau lefelau'r trallod a achosir gan lifogydd? yn lleihau lefelau anghydraddoldeb o ran dod i gysylltiad â llifogydd?
Yr Economi	SEA2: Cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o risg llifogydd, a chynyddu gwytnwch busnesau ac economi'r ardal.	yn darparu mwy o amddiffyniad i fusnesau a pherchnogion? yn lleihau difrod economaidd? yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y perchnogion busnes?
Bioamrywiaeth	SEA3: Diogelu, gwella a darparu gwytnwch i gynefinoedd, rhywogaethau a rhwydweithiau ecolegol gwerthfawr sy'n cyfrannu at weithrediad ecosystemau, gan gyfrannu at fudd net mewn bioamrywiaeth.	yn achosi difrod i safleoedd a ddynodwyd yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhwngwladol? yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth? yn chwilio am gyfleoedd er budd net i fioamrywiaeth? yn rhwystro darnio cynefinoedd ac yn hyrwyddo rhwydweithiau ecolegol? yn arwain at ddatblygiadau a fydd yn gwella bioamrywiaeth ar y safle? yn arwain at gynydd posibl mewn rhywogaethau estron goresgynnol? yn cynyddu gwytnwch i gynefinoedd, rhywogaethau a rhwydweithiau ecolegol gwerthfawr?
Tirwedd a Threflun	SEA4: Diogelu a gwella trefluniau a thirweddau CBSMT, gan gynnwys yr	yn parchu, yn cynnal ac yn cryfhau cymeriad a hynodrwydd lleol? yn parchu, yn cynnal ac yn cryfhau Nodweddion Arbennig ac amgylchedd PCBB?

Pwnc yr SEA	Amcan yr SEA	Cwestiynau Arfarnu Ategol – A fydd y polisi/ymyrraeth ...
	amgylcheddau gwledig a threfol.	yn creu dyluniadau cynaliadwy o ansawdd uchel? yn gwella ansawdd a chyflwr y treflun a'r dirwedd? yn gwella ansawdd, maint a hygyrchedd y mannau gwyrdd? yn gwella'r Awyr Dywyll a'r Llonyddwch?
Amgylchedd Hanesyddol	SEA5: Diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys asedau treftadaeth (a ddynodwyd ai peidio) a'u lleoliadau unigryw.	yn cadw a/neu'n gwella asedau treftadaeth, eu cynefin a'r amgylchedd hanesyddol ehangach? yn parchu, yn cynnal ac yn cryfhau cymeriad a hynodrwydd yr ardal leol?
Amgylchedd Dŵr	SEA6: Cynnal a gwella ansawdd dŵr wyneb a dŵr daear.	yn cefnogi'r dasg o amddiffyn a gwella cyrff dŵr? yn gwella statws cyrff dŵr y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (WFD)? yn effeithio ar faint ac argaeledd dŵr? yn cynyddu nifer y cyrff dŵr sydd wedi'u haddasu'n helaeth?
Ffactorau Hinsoddol	SEA7: Sicrhau bod CBSMT yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd a bod datblygiadau'n cefnogi dylunio ynni-effeithlon a charbon-isel. SEA8: Lleihau'r risg o lifogydd.	yn cynyddu gwytnwch cyffredinol y Fwrdeistref Sirol i effeithiau newid hinsawdd? yn effeithio ar allu asedau a seilwaith i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd? yn cynyddu lefelau carbon ymgorfforedig? yn lleihau'r risg o lifogydd?
Asedau Materol	SEA9: Lleihau effaith bosibl llifogydd ar drafnidiaeth a seilwaith hollbwysig arall, yn awr ac yn y dyfodol. SEA10: Gwarchod a gwella daeareg, geomorffoleg, adnoddau mwynol ac ansawdd y priddoedd o fewn CBSMT.	yn cefnogi'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy? yn lleihau maint y gwastraff? yn gwneud defnydd o'r seilwaith presennol? yn osgoi difrod i safleoedd o bwysigrwydd daearegol? yn gwarchod tir amaethyddol? yn diogelu ac yn gwella hawliau tramwy cyhoeddus? yn diogelu ac yn gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth? yn diogelu ac yn gwella seilwaith hanfodol? yn diogelu, yn cynnal ac yn gwella iechyd a swyddogaeth y priddoedd?

5 ASESU CYDWEDDOLDEB YR AMCANION

5.1 CYFLWYNIAD

- 5.1.1 Mae'r adran hon yn asesu pa mor gydweiddol yw'r Amcanion ag amcanion Fframwaith Arfarnu'r SEA.
- 5.1.2 Mae'r Amcanion wedi'u profi'n unigol yn erbyn amcanion Fframwaith Arfarnu'r SEA i nodi synergeddau ac anghysondebau posibl. Gall y wybodaeth hon helpu i ddatblygu a mireinio amcanion y Strategaeth.
- 5.1.3 Mae **Tabl 5-1** isod yn nodi allwedd yr arfarniad, tra bod **Tabl 5-2** drosodd yn nodi canfyddiadau'r profion a wnaed i asesu cydweddoldeb yr amcanion LFRMS.

Tabl 5-1 – Yr Allwedd i Asesu'r Cydweddoldeb

Effaith	Allwedd
Cydweiddol	✓
Anghydweiddol / Gwrthdaro Posibl	✗
Dim Perthynas	0

- 5.1.4 Dyma'r amcanion:

- Amcan LFRMS 1 – Gwella ein dealltwriaeth o risg a'r ffordd rydym yn hysbysu am risg;
- Amcan LFRMS 2 – Bod yn barod ac adeiladu gwytnwch;
- Amcan LFRMS 3 – Blaenoriaethu buddsoddiad i'r cymunedau sy'n wynebu'r risg fwyaf;
- Amcan LFRMS 4 – Atal mwy o bobl rhag dod i gysylltiad â risg; a
- Amcan LFRMS 5 – Darparu ymateb effeithiol a pharhaus i lifogydd.

Tabl 5-2 – Asesu Cydweddoldeb

Amcan	SEA1	SEA2	SEA3	SEA4	SEA5	SEA6	SEA7	SEA8	SEA9	SEA10
Amcan LFRMS 1 – Gwella ein dealltwriaeth o risg a'r ffordd rydym yn hysbysu am risg	✓	✓	0	0	0	0	0	✓	✓	0
Amcan LFRMS 2 – Bod yn barod ac adeiladu gwynwch	✓	✓	✓	?	?	✓	✓	✓	✓	?
Amcan LFRMS 3 – Blaenoriaethu buddsoddiad i'r cymunedau sy'n wynebu'r risg fwyaf	✓	✓	✓	?	?	0	0	✓	✓	?
Amcan LFRMS 4 – Atal mwy o bobl rhag dod i gysylltiad â risg	✓	✓	✓	0	0	0	0	✓	✓	0
Amcan LFRMS 5 – Darparu ymateb effeithiol a pharhaus i lifogydd	✓	✓	0	0	0	0	0	✓	✓	0

5.2 CANFYDDIADAU'R ASESIAD O GYDWEDDOLDEB

- 5.2.1 Dengys Tabl 5-2 uchod nad yw'r un o'r amcanion wedi arwain at unrhyw ganfyddiadau anghydweddol. Nid yw'n syndod mai SEA8 (lleihau'r perygl o lifogydd) oedd fwyaf cydweddol, gan ddangos aliniad â'r holl amcanion arfaethedig. Yn yr un modd, oherwydd yr amddiffyniad rhag llifogydd a gynigir ynghyd â natur drawsbynciol y risg o lifogydd, ystyriwyd bod SEA1 (poblogaeth ac iechyd pobl) yn cydweddu â holl amcanion yr LFRMS.
- 5.2.2 Ystyrir hefyd bod SEA2 (yr economi) ac SEA9 (trafnidiaeth a seilwaith hanfodol) yn cydweddu â'r holl amcanion, gan y byddant yn cynyddu dealltwriaeth, parodrwydd a gwytnwch, ac yn debygol o gynnig mwy o amddiffyniad i fusnesau (a pherchnogion busnes) yn ogystal â seilwaith hanfodol.
- 5.2.3 Amcan 2 "Bod yn barod ac adeiladu gwytnwch" oedd yr amcan mwyaf cydweddol, gan ddangos aliniad â bron pob amcan, gan y tybir y bydd yr amcan hwnnw'n cwmpasu pob agwedd ar amddiffyn yr amgylchedd a'r gymuned rhag risg llifogydd.
- 5.2.4 Ystyrir bod SEA3 (Bioamrywiaeth) yn gydnaws ag amcanion 2, 3 a 4 drwy weithredu a hyrwyddo atebion sy'n seiliedig ar natur, a gweithio gyda chymunedau i'w gweithredu, bioamrywiaeth, gwytnwch ecosystemau, ansawdd dŵr, ansawdd a swyddogaeth pridd, iechyd meddwl ac iechyd corfforol, mae dal carbon yn rhai o'r manteision lluosog y gall datrysiadau sy'n seiliedig ar natur eu cyflawni ochr yn ochr â buddion perygl llifogydd.

6 ASESU'R MESURAU

6.1 CYFLWYNIAD

- 6.1.1 Mae asesiad o fesurau'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd (yr LFRMS) wedi'i grynhoi isod a'i gyflwyno'n llawn yn **Atodiad A**. Defnyddiwyd dull matrices ar gyfer yr asesiad gan gynnwys meini prawf i ddynodi arwyddocâd fel y'u nodir isod yn **Nhabl 6-1**.
- 6.1.2 Mae **Tabl 6-2** drosodd yn rhoi trosolwg o berfformiad mesurau'r LFRMS yn erbyn pob amcan SEA ac mae **Tabl 6-3** yn amlinellu effeithiau arwyddocaol yn seiliedig ar bob amcan yr SEA. At ddiben yr SEA, ystyrir bod yr effeithiau arwyddocaol fel a ganlyn:
- Effeithiau Cadarnhaol Arwyddocaol;
 - Effeithiau Negyddol Arwyddocaol; ac
 - Effeithiau Ansicr.
- 6.1.3 Ceir rhagor o fanylion am yr effeithiau anarwyddocaol, h.y. mân effeithiau cadarnhaol, mân effeithiau negyddol, effeithiau cymysg ac effeithiau niwtral yn **Atodiad A**. Mae'r Atodiad hefyd yn nodi natur yr effeithiau megis maint, ehangder gofodol a hyd.

Tabl 6-1 – Arwyddocâd yr Effaith

Arwyddocâd yr Effaith	Allwedd
Potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol arwyddocaol	++
Potensial ar gyfer mân effeithiau cadarnhaol	+
Potensial ar gyfer mân effeithiau negyddol	-
Potensial ar gyfer effeithiau negyddol arwyddocaol	--
Effeithiau ansicr – ar hyn o bryd, ni all yr arfarniad ddod i gasgliad am fod y wybodaeth yn ansicr neu'n annigonol	?
Potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol	+/-
Effaith ddibwys / Dim effaith	0

6.2 ASESU'R MESURAU

6.2.1 Mae Tabl 6-2 yn rhoi trosolwg o effeithiau'r mesurau a aseswyd.

Tabl 6-2 – Trosolwg o'r Effeithiau

Mesur	SEA1	SEA2	SEA3	SEA4	SEA5	SEA6	SEA7	SEA8	SEA9	SEA10
1. Awdurdod Cynllunio Lleol (LPA)	+	+	+	+	0	0	0	+	+	0
2. Corff Cymeradwyo SuDS (SAB)	+	+	+	?	?	+	+	++	+	?
3. Rhybuddion a Rhagolygon	+	+	0	0	0	0	0	+	0	0
4. Monitro Llifogydd	+	+	0	?	?	+	+	++	+	0
5. Deall y Risg o Llifogydd	0	+	+	0	0	+	0	+	+	0
6. Modelu ac Arolygu Llifogydd	0	0	0	0	0	0	+	+	+	0
7. Dŵr Daear	+	+	0	0	0	+	0	+	0	0
8. Llifogydd Hanesyddol	+	+	0	0	0	0	0	+	+	0

Mesur	SEA1	SEA2	SEA3	SEA4	SEA5	SEA6	SEA7	SEA8	SEA9	SEA10
9. Addysg ac Ymwybyddiaeth o Llifogydd	+	+	0	0	0	0	0	+	0	0
10. Cyfrifoldebau Risg Llifogydd	0	0	0	0	0	0	0	+	+	0
11. Gweithio mewn Partneriaeth	0	+	0	0	0	0	+	++	+	0
12. Cynllun Ymateb i Llifogydd	+	+	0	0	0	0	0	+	0	0
13. Cydnherthedd Cymunedol	+	+	0	0	0	0	0	+	0	0
14. Ymateb ac Adfer yn Gyfannol yn sgil Llifogydd	++	0	0	0	0	0	0	0	0	0
15. Ymchwilio i Llifogydd	0	0	0	0	0	0	0	+	0	0
16. Cofnodi Llifogydd	+	0	0	0	0	0	0	+	0	0
17. Rheoli Llifogydd yn Naturiol (NFM)	+	0	++	+	?	+	+	+	+	++

Mesur	SEA1	SEA2	SEA3	SEA4	SEA5	SEA6	SEA7	SEA8	SEA9	SEA10
18. Echdynnu Mwynau	0	0	0	0	0	+	0	+	0	0
19. Risg o Lifogydd a Newid Hinsawdd	+/-	+/-	+	+	?	+	+	+	+	+
20. Cynlluniau Rheoli'r Risg o Lifogydd	+	+	?	?	?	?	?	++	++	?
21. Cofrestr a Chofnod o Asedau sy'n Wynebu Risg o Lifogydd	0	0	0	0	0	0	0	+	0	0
22. Cynnal a Chadw Asedau Llifogydd	+	+	0	0	0	0	+	+	+	0

6.2.2 Mae Tabl 6-3 yn crynhoi canfyddiadau'r asesiad o fesurau.

Tabl 6-3 – Asesu'r Mesurau – Crynodeb o'r Canfyddiadau

Amcan yr SEA	Crynodeb
SEA1: Poblogaeth, Cydraddoldeb ac Iechyd Pobl	
SEA2: Yr Economi	Mae SEA2 wedi arwain at nifer o fân effeithiau cadarnhaol. Yn gyffredinol, mae hyn yn ganlyniad i fesurau sy'n anelu at gynyddu dealltwriaeth o risg llifogydd (Mesur 5), gwella systemau rhybuddio (Mesur 3), a gweithredu cynlluniau rheoli llifogydd mewn modd naturiol fel y SuDS (Mesur 2). O'u cyfuno, mae'r mesurau hyn yn helpu perchnogion busnes i baratoi ar gyfer llifogydd, ac yn caniatáu iddynt amddiffyn eu hasedau a lleihau'r difrod a achosir gan lifogydd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd mân effeithiau negyddol ar fusnesau ac economi'r ardal os na fydd modd dibynnu mwyach ar yr amddiffynfeydd rhag llifogydd.
SEA3: Bioamrywiaeth	Mae effeithiau ansicr wedi codi lle nad yw'n glir sut mae datblygiadau unigol a chynlluniau rheoli risg llifogydd yn bwriadu
SEA4: Tirwedd a Threflun	Mae SEA4 wedi arwain at dair mân effaith gadarnhaol. Mae hyn yn gyffredinol yn defnyddio cynlluniau Rheoli Llifogydd yn Naturiol fel SuDS i warchod a gwella'r amgylcheddau gwledig a threfol o fewn CBSMT trwy leihau'r risg o lifogydd.

Amcan yr SEA	Crynodeb
	Mae effeithiau ansicr wedi codi ym mesurau 1, 4 ac 20 gan ei bod yn ansicr sut y bydd y seilwaith gwyrdd a'r tirlunio yn cael eu gweithredu mewn datblygiadau unigol yn y dyfodol, a sut y bydd dyluniad y gorsafoedd monitro a pheirianeg galed yn effeithio ar y treflun ac ar amgylchedd y dirwedd.
SEA5: Yr Amgylchedd Hanesyddol	
SEA6: Amgylchedd Dŵr	O'r 22 o fesurau, mae saith wedi arwain at fân effeithiau cadarnhaol ar SEA6. Yn gyffredinol, mae hyn oherwydd mesurau sy'n anelu at ymgorffori'r SuDS a'r NFM ac sy'n helpu i leihau llifogydd ac adfer prosesau gwaddod naturiol. Mae effeithiau ansicr wedi codi ym mesurau 7 (Dŵr Daear) ac 20, lle nad yw'n hysbys eto sut y gall cynigion effeithio ar ansawdd dŵr daear.
SEA7: Gwynnchwch Hinsoddol	
SEA8: Risg Llifogydd	O'r holl Amcanion SEA, dim ond SEA8 sydd wedi arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol, yn benodol ar gyfer mesurau 2 (Corff Cymeradwyo SuDS) a 4 (Monitro Llifogydd). Mae nodau'r mesurau hyn yn ceisio lleihau perygl llifogydd mewn ardaloedd risg-uchel, cynnal a chadw cwlffertau yn well, codi ymwybyddiaeth, a datblygu'r dasg o fonitro risg llifogydd mewn "amser real".
SEA9: Trafnidiaeth a Seilwaith	Mae effeithiau ansicr wedi codi lle nad yw'n glir sut y bydd y cynlluniau arfaethedig ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn helpu

Amcan yr SEA	Crynodeb
SEA10: Daeareg a Phriddoedd	Mae pob mesur ac eithrio un wedi arwain at effeithiau dibwys ar SEA10. Mae mân effaith gadarnhaol wedi'i nodi lle mae mesur 17 (Rheoli Llifogydd yn Naturiol) yn anelu'n benodol at gael Tîm Cefn Gwlad CBSMT i ymgorffori NFM o fewn prosiectau sy'n ymwneid yn bennaf â rheoli tir.

6.3 ASESU DEWISIADAU RHESYMOL ERAILL

- 6.3.1 Ni chynhyrchodd yr LFRMS unrhyw opsiynau amgen penodol, felly, mae'r SEA yn ystyried bod parhau â'r strategaeth bresennol yn ddewis amgen rhesymol.
- 6.3.2 Mae'r prif asesiad wedi'i amlinellu yn **Nhabl 6-3** drosodd. Ar y cyfan, mae'r Strategaeth bresennol wedi perfformio'n debyg i'r LFRMS arfaethedig, gan fod llawer o'r amcanion a'r mesurau yn gorgyffwrdd, ac yn y pen draw bydd yn sicrhau amddiffyniad rhag llifogydd. Mae effeithiau cadarnhaol ac arwyddocaol yn debygol o aros ar gyfer SEA1 (poblogaeth, cydraddoldeb ac iechyd) ac SEA8 (risg llifogydd) trwy barhad y Strategaeth hon.
- 6.3.3 Mae'r ddwy Strategaeth ychydig yn wahanol am fod ymyriadau peirianyddol caled megis adeiladu sianeli a chwlfertau, wedi'u cynnwys o fewn y Strategaeth bresennol. Er y bydd atebion sy'n ymwneud â "pheirianeg feddal" yn cael eu ffafrio, roedd yr asesiad yn dal i nodi lefel uwch o ansicrwydd, o gymharu â'r Strategaeth newydd arfaethedig. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn gysylltiedig ag effeithiau adeiladu andwyol dros dro ac effeithiau tymor hwy o feddiannu tir annatblygedig a'i ddiraddio. Mae hyn wedi arwain at effeithiau ansicr ar dirwedd a threflun (SEA4), yr amgylchedd hanesyddol (SEA5), a daeareg a phriddoedd (SEA10).
- 6.3.4 Er y gallai opsiynau arwain at feddiannu tir annatblygedig, oherwydd y mesur "Monitro Cynefinoedd", mae potensial i'r Strategaeth bresennol barhau i ddarparu amddiffyniad i gynefinoedd a rhywogaethau gwerthfawr, ac felly mae'r potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol. Nid yw'r Strategaeth arfaethedig newydd yn cynnwys ei hamcan ei hun ar wella bioamrywiaeth, ond mae wedi'i phlethu i mewn i'r penawdau "rheoli llifogydd naturiol" ac "awdurdod cynllunio lleol". Efallai na fydd y rhain yn cynnig cymaint o amddiffyniad â'r Strategaeth flaenorol.
- 6.3.5 Mae SEA2 (yr economi) hefyd wedi arwain at effeithiau ansicr. Nod Amcan Trosfwaol 1 yw lleihau aflonyddwch i'r gymuned drwy leihau nifer yr eiddo preswyl a masnachol yr effeithir arnynt gan risg o lifogydd; fodd bynnag, nid yw'r Strategaeth yn nodi unrhyw fesurau penodol i gefnogi busnesau lleol. Nid yw'n glir sut y bydd busnesau lleol yn cael eu cefnogi.
- 6.3.6 Yn gyffredinol, gan fod y Strategaeth newydd yn cynnwys mesurau llai caled a mwy o fanylion am y mesurau arfaethedig, mae ganddi'r potensial i wireddu mwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfer amcanion yr SEA.

Tabl 6-4 – Asesu’r Dewisiadau Amgen

Amcan yr SEA	Effaith Arwyddocaol	Crynodeb
SEA1: Poblogaeth, Cydraddoldeb ac Iechyd Pobl	++	Mae’r Strategaeth yn cynnwys strategaeth lefel-uchel i leihau’r effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a ddaw yn sgil llifogydd. Mae amcanion mwy penodol (fel Amcan 10 – bod yn barod ac Amcan 14 – asesu risg) yn anelu’n benodol at leihau effeithiau llifogydd ar y boblogaeth leol a’u hiechyd. Mae’r Strategaeth yn cefnogi ymgysylltiad cymunedol i gefnogi ymwybyddiaeth a pharodrwydd cyffredinol.
SEA2: Yr Economi	?	Nod Amcan Trosfwaol 1 yw lleihau aflonyddwch cymunedol drwy leihau nifer yr eiddo preswyl a masnachol yr effeithir arnynt gan risg o lifogydd; fodd bynnag, nid yw’r Strategaeth yn nodi unrhyw fesurau penodol i gefnogi busnesau lleol. Nid yw’n glir sut y bydd busnesau lleol yn cael eu cefnogi.
SEA3: Bioamrywiaeth	+/-	Mae mesurau arfaethedig wedi’u cynllunio i roi blaenoriaeth uchel i’r rhai sy’n debygol o wella bioamrywiaeth. Nod y mesur SuDS yw darparu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt mewn ardaloedd trefol a chyfleoedd i wella bioamrywiaeth. Nod y mesur “Monitro Cynefinoedd” presennol yw monitro’r newid (lleihad, cynnydd, gwelliant o ran y cynefinoedd naturiol) yn unol â’r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Mae’r mesurau hyn yn debygol o gyfrannu at enillion net o ran bioamrywiaeth; fodd bynnag, mae mesurau hefyd yn cynnwys amddiffynfeydd caled, a allai arwain at ddifrodi a diraddio bioamrywiaeth. Nid oes unrhyw sôn am enillion net o ran bioamrywiaeth.
SEA4: Tirwedd a Threflun	?	Nod y mesur SuDS yw darparu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt mewn ardaloedd trefol a chyfleoedd i wella bioamrywiaeth. Gallai hyn yn ei dro wella amgylchedd y dirwedd a’r treflun. Fodd bynnag, nid yw’r Strategaeth yn cydnabod y goblygiadau posibl y gall llifogydd eu hachosi i amgylchedd y dirwedd a’r treflun, yn enwedig mewn perthynas â phwysigrwydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Gallai cyflwyno atebion “peirianyddol caled” effeithio’n andwyol ar amgylchedd y dirwedd a’r treflun.
SEA5: Amgylchedd Hanesyddol	?	Nod yr amcan “Asedau Hanesyddol” yw cynnal arolygon i sefydlu pa fesurau, lle bo’n ymarferol, fydd eu hangen er mwyn darparu gwytnwch ychwanegol rhag i ddŵr llifogydd ymdreiddio i asedau hanesyddol ac i wneud hynny mewn modd sy’n gydnaws â’u nodweddion pensaernïol a hanesyddol. Bydd hyn hefyd yn tynnu ar y gronfa ddata bresennol o asedau hanesyddol a gofnodwyd, cyn dechrau unrhyw waith. Er y gwneir cryn ymdrech i warchod yr amgylchedd hanesyddol, mae’r Strategaeth yn dal i anelu at gyflwyno seilwaith sydd â’r potensial i effeithio’n andwyol ar yr amgylchedd hanesyddol.
SEA6: Amgylchedd Dŵr	+	Nod Amcan Trosfwaol 3 yw “gwarchod a gwella’r ansawdd dŵr”. Cefnogir yr Amcan hwn gan nifer o fesurau sydd wedi’u hanelu at wella ansawdd dŵr megis SuDS a “Chynllunio Datblygiadau Cynaliadwy a Strategol”. Fodd bynnag, mae’r rhain yn canolbwyntio mwy ar ansawdd dŵr wyneb yn hytrach na dŵr daear.

Amcan yr SEA	Effaith Arwyddocaol	Crynodeb
SEA7: Gwytnwch Hinsoddol	+	Bydd y Strategaeth yn cynnig gwytnwch i wrthsefyll newid hinsawdd, ond gallai rhai mesurau (fel “adeiladu a chynnal sianeli” ac “adeiladu a chynnal a chadw cwlfertau”) ymgorffori lefelau uchel o garbon yn ystod y cyfnod adeiladu. Fodd bynnag, er mwyn ceisio diogelu'r seilwaith presennol, caiff gwaith cynnal a chadw ei ffafrio dros adeiladu strwythurau'n llwyr o'r newydd.
SEA8: Risg Llifogydd	++	Nod pob mesur yw lleihau risg llifogydd o bob ffynhonnell, gan gynyddu'r gwytnwch/lleihau'r risg o lifogydd.
SEA9: Trafnidiaeth a Seilwaith	+	Nod cyffredinol Amcan 1 yw “lleihau'r tarfu ar seilwaith hanfodol neu baratoi cynlluniau i gynnal y gweithrediadau”. Nid oes unrhyw fesur penodol sy'n ymdrin â diogelu seilwaith hanfodol; fodd bynnag, gan fod pob mesur yn anelu at leihau'r risg o lifogydd a chynyddu gwytnwch, mae'n debygol y bydd seilwaith yn cael ei warchod.
AAS10: Daeareg a Phriddoedd	?	Mae potensial i'r Strategaeth ddylanwadu ar reolaeth tir i liniaru'r risg o lifogydd, sy'n cynnwys lleihau gwrtaith a newidiadau eraill i arferion ffermio. Nid yw'r effeithiau y gallai hyn ei gael ar ansawdd cyffredinol y pridd yn glir. Nid yw'n glir ychwaith a fyddai'r cyfryw ymyriadau yn arwain at golli tir amaethyddol o ansawdd uchel neu safleoedd o bwysigrwydd daearegol.

7 EFFEITHIAU CRONNOL

7.1 CYFLWYNIAD

- 7.1.1 Mae'r Rheoliadau SEA yn mynnu bod effeithiau cronol yn cael eu hystyried wrth nodi effeithiau arwyddocaol tebygol. Mae effeithiau cronol yn codi, er enghraifft:
- lle mae sawl mesur unigol yn cael effaith gyfunol ar amcan; neu
 - lle mae nifer o fesurau yn cael effeithiau anarwyddocaol fel rhai unigol ond gyda'i gilydd yn cael effaith arwyddocaol.
- 7.1.2 Gall effeithiau cronol fod yn ganlyniad i ystod o weithgareddau neu ddigwyddiadau lluosog o un gweithgaredd, a gall eu harwyddocâd amrywio yn ôl ffactorau megis natur y safleoedd a'r polisïau arfaethedig, yn ogystal â sensitifrwydd y cymunedau a'r amgylchedd sy'n eu derbyn.
- 7.1.3 Mae'r adran hon felly yn ymdrin â chanfyddiadau'r canlynol:
- y modd y gall gwahanol fesurau arfaethedig o fewn CBSMT ryngweithio ac achosi effeithiau cronol ar dderbynnydd (effeithiau o fewn prosiectau);
 - y modd y gallai mesurau arfaethedig o fewn yr LFRMS achosi effeithiau cronol mewn cysylltiad â chynlluniau, polisïau a phrosiectau eraill yn yr ardal gyfagos (effeithiau rhwng prosiectau).

7.2 EFFEITHIAU O FEWN PROSIECTAU

- 7.2.1 Roedd asesiad yr SEA o bolisïau a safleoedd strategol yn tynnu sylw at effeithiau cronol posibl o fewn y prosiect. Mae'r rhain wedi'u nodi yn **Nhabl 7-2** isod.
- 7.2.2 Mae **Tabl 7-1** isod yn amlinellu'r allwedd i effeithiau cronol y prosiect.

Tabl 7-1 – Allwedd i'r Effeithiau Cronol

Effaith	Allwedd
Effeithiau cronol cadarnhaol	+
Effeithiau cronol negyddol	-
Effeithiau cronol cymysg	+/-
Effeithiau cronol ansicr	?
Dim effeithiau cronol cyffredinol	0

Tabl 7-2 – Effeithiau o Fewn Prosiectau

Amcan yr SEA	Effaith	Crynodeb yr Effeithiau
SEA1: Poblogaeth, Cydraddoldeb ac Iechyd Pobl	+	Mae'r lefel uwch o amddiffyniad a gynigir ar draws y mesurau arfaethedig yn debygol o arwain at gynnydd cronol yn yr amddiffyniad a gynigir i boblogaethau'r presennol a'r dyfodol.
SEA2: Yr Economi	+	Mae'r lefel uwch o amddiffyniad a gynigir ar draws y mesurau arfaethedig yn debygol o arwain at gynnydd cronol yn yr amddiffyniad a gynigir i ddatblygiadau presennol ac yn y dyfodol.
SEA3: Bioamrywiaeth	?	Nid yw lefel y seilwaith sydd ei angen ar gyfer rhai cynlluniau na chymhareb y beirianeg galed i feddal, yn hysbys eto. Os oes angen nifer o gynlluniau peirianeg galed, gall hynny arwain at golled gronol o dir a cholli cynefinoedd yn ei sgil (effaith negyddol parhaol). Mae gweithgareddau adeiladu hefyd yn debygol o gael effaith andwyol dros dro ar gynefinoedd a rhywogaethau cyfagos oherwydd y sŵn a'r aflonyddwch ac mae'n debygol o amharu ar amwynderau gweledol oherwydd presenoldeb offer adeiladu. Mae gan atebion a gynigir gan beirianeg feddal y potensial i arwain at gynnydd cronol yn lefel seilwaithiau a chynefinoedd gwyrdd.
SEA4: Tirwedd a Threflun	?	Nid yw lefel y seilwaith sydd ei angen ar gyfer rhai cynlluniau na chymhareb y beirianeg galed i feddal, yn hysbys eto. Os oes angen cynlluniau peirianyddol caled, mae'r gwaith adeiladu yn debygol o effeithio'n andwyol dros dro ar amgylchedd y dirwedd a'r treflun, oherwydd y sŵn a'r aflonyddwch a thrwy golli amwynderau gweledol oherwydd yr offer a'r gweithgareddau adeiladu. At hynny, gall cynlluniau sydd wedi'u dylunio'n wael achosi effeithiau parhaol tymor hwy wrth i amwynderau gweledol gael eu colli. Mae gan atebion peirianeg feddal y potensial i arwain at gynnydd cronol yn lefelau seilwaith gwyrdd.
SEA5: Yr Amgylchedd Hanesyddol	+/-	Gallai mesurau lluosog gyda'i gilydd ddarparu cynnydd cronol o ran amddiffyniad i'r amgylchedd hanesyddol. Fodd bynnag, nid yw lleoliad a lefel y seilwaith sydd ei angen ar gyfer rhai cynlluniau a'r gymhareb peirianeg galed i feddal, yn hysbys eto. Gallai'r amgylchedd hanesyddol gael ei ddiraddio'n gronol pe bai sawl cynllun ansensitif yn cael ei gyflwyno.
SEA6: Ansawdd Dŵr	?	Gall gwaith adeiladu gael effaith fewngronol ac andwyol ar ansawdd dŵr, trwy lygredd posibl o ddŵr ffo wyneb a sborion llwch a allai achosi problemau gyda solidau crog, llygryddion symudol, ac ewtroffigedd. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar gymhareb yr opsiynau peirianeg galed i feddal y gellid ei chyflwyno. Os bydd NFM yn cael ei ffafrio, gallai cynlluniau lluosog o'r fath helpu i wella ansawdd dŵr, gan fod llawer o'r mecanweithiau y mae mesurau naturiol yn eu defnyddio i leihau llifogydd hefyd yn gweithio i adfer prosesau gwaddod naturiol a gwella ansawdd dŵr.

Amcan yr SEA	Effaith	Crynodeb yr Effeithiau
		Gall y rhain helpu i ddynwared prosesau rheoleiddio naturiol a all helpu i gynnal a gwella ansawdd dŵr
SEA7: Gwytnwch hinsoddol ac effeithlonrwydd ynni	+/-	Gan ddibynnu ar nifer y cynlluniau a gyflwynir a'u math, gellir cael cynnydd cronol mewn carbon ymgorfforedig, yn enwedig os caiff nifer uchel o gynlluniau peirianeg galed eu cyflwyno. Ar y llaw arall, bydd cynnydd yn y gallu i wrthsefyll llifogydd yn helpu i sicrhau bod seilwaith yn medru gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd yn well. Gall cyflawni cynlluniau a mesurau lluosog gynyddu gwytnwch mewn modd cronol.
SEA8: Risg Llifogydd	+	Mae'r lefel uwch o amddiffyniad a gynigir ar draws y mesurau arfaethedig yn debygol o arwain at gynnydd cronol yn yr amddiffyniad rhag risg o lifogydd.
SEA9: Trafnidiaeth a Seilwaith	+	Mae'r lefel uwch o amddiffyniad a gynigir ar draws y mesurau arfaethedig yn debygol o arwain at gynnydd cronol yn yr amddiffyniad a gynigir i seilwaith hanfodol a thrafnidiaeth.
SEA10: Daeareg a Phriddoedd	?	Nid yw lefel y seilwaith sydd ei angen ar gyfer rhai cynlluniau na chymhareb y beirianeg galed i feddal, yn hysbys eto. Os bydd angen nifer o gynlluniau peirianeg caled, mae potensial ar gyfer colli tir yn gronol gan arwain efallai at golli tir amaethyddol a safleoedd daearegol gwerthfawr. Mae atebion peirianeg feddal yn meddu ar y potensial i arwain at gynnydd cronol yn lefelau'r amddiffyniad ar gyfer tir amaethyddol gwerthfawr, ac i wella ansawdd y pridd.

7.3 EFFEITHIAU RHWNG PROSIECTAU

7.3.1 Mae **Tabl 7-3** isod yn amlinellu ffynonellau effeithiau rhyng-gronnol posibl, tra bod **Tabl 7-4** yn manylu ar yr effeithiau cronol a nodwyd ar gyfer pob un o'r Testunau SEA mewn perthynas â'r polisïau a'r cynlluniau hyn. Mae'n defnyddio'r un allwedd i effeithiau ag a nodir yn **Nhabl 7-1** uchod.

Tabl 7-2 – Ffynonellau'r Effeithiau Rhyng-Gronnol

Polisi neu Gynllun	Manylion y Cynllun
Cynllun Datblygu Lleol Amnewid, 2020	Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid yn darparu'r fframwaith i'r polisi cynllunio lleol ar gyfer yr ardal hyd at 2031. Mae'n sail i benderfyniadau sy'n ymwneud â chynllunio defnydd tir yn y Fwrdeistref Sirol, ac eithrio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru	Cafodd y cynllun hwn ei gyd-gynhyrchu gan Gyngorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen. Mae'n nodi eu blaenoriaethau ar gyfer cynlluniau trafndiaeth yn y pum mlynedd rhwng 2015 a 2020, a'u dyheadau tymor canolig a hir hyd at 2030.
Cynllun Datgarboneiddio 2023-2030	Mae'n darparu fframwaith ar gyfer gweithio tuag at allyriadau carbon sero net yn y Sir hyd at 2030. Mae'r ddogfen wedi'i rhannu'n chwe maes thema allweddol gyda Chynlluniau Gweithredu cysylltiedig. Mae'r rhain yn cynnwys cynllunio ar gyfer adeiladau ac ystadau, symudedd a thrafnidiaeth, caffael, gwasanaethau ar gontract allanol, rheoli tir a llywodraethu.
Cynlluniau Lleol Cyfagos	Mae cynlluniau lleol mewn awdurdodau lleol cyfagos (Caerffili, Rhondda Cynon Taf) yn dylanwadu ar welliannau datblygu trawsffiniol. Sylwer: er bod Powys yn ALI cyfagos, nid yw'r CDLI yn cynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Felly, mae un ar wahân ar gyfer Bannau Brycheiniog. Mae'r cynlluniau'n cynnwys: • Cynllun Datblygu Lleol Caerffili hyd at 2021 (Mabwysiadwyd 2010) a'i adolygiad yn 2021; • CDLI Rhondda Cynon Taf hyd at 2021 (Mabwysiadwyd 2011) a'i adolygiad yn 2020; • Cynllun Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (2007-2022 a thu hwnt); • LFRMS Powys (2013-2017); ac • LFRMS Rhondda Cynon Taf 2013.

Tabl 7-4 – Crynodeb o Effeithiau Cronnol Rhwng Prosiectau

Amcan yr SEA	Cynllun Datblygu Lleol Amnewid	Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru	Cynllun Datgarboneiddio 2023-2030	Cynlluniau Lleol Cyfagos	Crynodeb o'r Effeithiau
SEA1: Poblogaeth, Cydraddoldeb ac Iechyd	+/-	0	+	+/-	Mae rhai effeithiau cronrol cadarnhaol yn deillio o fesurau lliniaru megis SuDS a gwahardd datblygiadau newydd rhag cael eu gosod o fewn parthau lle ceir risg uchel o lifogydd – mae hyn oll yn helpu i gynyddu a gwella'r amddiffyniad rhag llifogydd. Gall yr effeithiau cronrol fod yn negyddol oherwydd y straen cynyddol ar gyfleusterau iechyd cymunedol wrth i'r galw amdanynt dyfu yn sgil cynnydd yn nifer y trigolion. Bydd y ddarpariaeth a'r gwelliannau i'r parth cyhoeddus, y seilwaith trafndiaeth, y mannau agored a'r cynlluniau i leihau carbon, yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant y boblogaeth o fewn y rhanbarth. Mae hyn oherwydd y gall mynediad at fannau gwyrdd a theithio llesol ddarparu gwell canlyniadau o ran iechyd meddwl a llesiant, gan gynnwys lefelau is o iselder a phryder a gwell ansawdd bywyd. Yn ogystal â hynny, mae'n helpu i uno cymunedau, lleihau unigrwydd, a lliniaru'r effeithiau negyddol a ddaw yn sgil llygredd aer a sŵn gormodol.
SEA2: Yr Economi	+/-	0	0	+/-	Mae effeithiau cronrol negyddol yn bosibl wrth i ddatblygiadau cynyddol achosi risg uwch o ddŵr ffo wyneb. Fodd bynnag, byddai effeithiau cronrol cadarnhaol yn cynyddu lefelau'r amddiffyniad rhag llifogydd trwy ymgorffori arwynebau hydraid a SuDS.
SEA3: Bioamrywiaeth	+/-	+/-	+	+/-	Gall safleoedd a chynefinoedd statudol ac anstatudol wynebu colled, difrod neu ddarniad cronrol wrth i ddatblygiadau tai a seilwaith trafndiaeth gael eu darparu. Er y rhagdybir y byddai rhywogaethau a warchodir yn cael eu lliniaru ar lefel prosiect, ceir effeithiau ehangach ar fioamrywiaeth. Gall cynlluniau lluosog gael effeithiau cronrol cadarnhaol ar enillion net bioamrywiaeth. Mae'r rhain yn debygol o gael eu llywio gan bolisiau lle mae seilwaith gwyrdd yn cael ei

Amcan yr SEA	Cynllun Datblygu Lleol Amnewid	Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru	Cynllun Datgarboneiddio 2023-2030	Cynlluniau Lleol Cyfagos	Crynodeb o'r Effeithiau
					ymgorffori yn y dyluniad i gynyddu bioamrywiaeth ac os collir bioamrywiaeth ar y safle, bydd mesurau lliniaru yn gwella ansawdd a rheolaeth yng ngweddill y safle neu'n sicrhau gwell bioamrywiaeth oddi ar y safle. Ceir rhagor o effeithiau cronol cadarnhaol wrth ddatblygu cynlluniau trafndiaeth gynaliadwy. Bydd hyn yn cynyddu mynediad at gludiant llesol a dulliau o drafndiaeth gyhoeddus, gan leihau'r defnydd o geir preifat a thrwy hynny, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac amseroedd teithio a thagfeydd, ac arwain at fwy o lonyddwch a gwell ansawdd aer.
SEA4: Landscape & Townscape	+/-	+/-	+	+/-	Gallai darparu gwelliannau i dir y cyhoedd drwy'r Cynlluniau Lleol a'r Cynlluniau Trafnidiaeth gynyddu a gwella'r manau agored yn ogystal ag amgylchedd y trefluniau a'r tirweddau o fewn y Sir. Bydd hyn yn arwain at effeithiau cronol cadarnhaol; fodd bynnag, gallai datblygiadau lluosog arwain at golled gronol o fannau agored.
SEA5: Historic Environmnet	+	+/-	0	+	Gall datblygiadau tai a chynlluniau trafndiaeth lluosog ym Merthyr Tudful a'r siroedd cyfagos gael effeithiau cronol negyddol dros dro ar yr amgylchedd hanesyddol. Yn ystod y gwaith adeiladu ar y datblygiadau hyn, gall yr amgylchedd hanesyddol gael ei aflonyddu gan sŵn a llygredd aer. Bydd effeithiau cronol cadarnhaol pellach yn deillio o ddatblygu cynlluniau trafndiaeth gynaliadwy. Bydd hyn yn cynyddu mynediad at wahanol ddulliau o drafndiaeth gyhoeddus, yn gostwng y defnydd o geir preifat, ac felly'n lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, amseroedd teithio a thagfeydd, ac yn arwain at fwy o lonyddwch a gwell amgylchedd hanesyddol. Gallai effeithiau cadarnhaol pellach ddeillio o wella'r mynediad i'r amgylchedd hanesyddol drwy gynlluniau trafndiaeth amgenach, gan gynnwys gwella'r cysylltiadau â thrafnidiaeth actif a allai cynhyrchu gweithgaredd ac ennyn bywiogrwydd.

Amcan yr SEA	Cynllun Datblygu Lleol Amnewid	Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru	Cynllun Datgarboneiddio 2023-2030	Cynlluniau Lleol Cyfagos	Crynodeb o'r Effeithiau
SEA6: Ansawdd Dŵr	+	0	0	+	Gall yr effeithiau ar ddŵr wyneb a dŵr daear gynyddu'n gronol, yn enwedig o ganlyniad i newidiadau ffisegol a ddaw yn sgil datblygiadau. Mae mesurau draenio ac ansawdd dŵr yn debygol o fod yn benodol i bob datblygiad. Bydd mesurau lliniaru ar gyfer datblygiadau yn cael eu rheoli gan bolisi'r cynlluniau lleol.
SEA7: Effeithlonrwydd Ynni	+	+	+	+	Gall effeithiau cronol a chadarnhaol ddeillio o ddatblygiadau a seilweithiau newydd sy'n well o ran bod yn garbon-isel, yn ynni-ffeithlon ac yn gydnerth mewn perthynas â newid hinsawdd. Mae mesurau ar gyfer addasu i newid yn yr hinsawdd yn debygol o fod yn benodol i bob cynllun lleol.
SEA8: Llifogydd	+/-	0	0	+/-	Bydd defnyddio arwynebau llawr caled fel rhan gynyddol o'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiadau tai a thrafnidiaeth, yn cynyddu dŵr ffo wyneb, gan arwain at effeithiau negyddol posibl ar lifogydd. Fodd bynnag, mae'r datblygiadau arfaethedig yn debygol o ymgorffori arwynebau hydraiddd a SUDS gan leihau'r risg o lifogydd os cânt eu gweithredu ledled y Sir. Bydd cynlluniau hefyd yn sicrhau bod datblygiadau'n digwydd i fwrdd o ardaloedd lle ceir risg o lifogydd.
SEA9: Seilwaith Hanfodol	+	0	0	+	Bydd cynlluniau datblygu lleol yn ymgorffori'r defnydd o SuDS ar gyfer datblygiadau newydd i liniaru llifogydd a dargyfeirio dŵr ffo wyneb. Bydd hyn yn cael effeithiau cronol cadarnhaol ar dfraniaeth a seilwaith hanfodol arall.

Amcan yr SEA	Cynllun Datblygu Lleol Amnewid	Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru	Cynllun Datgarboneiddio 2023-2030	Cynlluniau Lleol Cyfagos	Crynodeb o'r Effeithiau
SEA10: Daeareg a Phriddoedd	+	-	0	+	Ceir effeithiau cronol cadarnhaol wrth i gynlluniau datblygu lleol hyrwyddo'r defnydd effeithlon o briddoedd tir a mwynau trwy eu hailddefnyddio a'u hadfer, yn enwedig gyda datblygiadau newydd. Fodd bynnag, efallai y bydd effeithiau cronol negyddol dros dro o ganlyniad i'r gwaith adeiladu a'r posibilrwydd o feddiannu tir ar gyfer tai, trafnidiaeth a seilwaith newydd.

8 LLINIARU, GWELLA A MONITRO

8.1 MESURAU LLINIARU A GWELLA

- 8.1.1 Mae lliniaru effeithiau negyddol ac arwyddocaol y Cynllun a hyrwyddo'r effeithiau cadarnhaol yn un o ddibenion allweddol yr SEA. Yn ôl Rheoliadau'r SEA, mae'n ofynnol i ystyried mesurau lliniaru er mwyn atal, lleihau neu wrthbwysu unrhyw effeithiau andwyol o bwys ar yr amgylchedd wrth weithredu'r Cynllun. Gelwir y mesurau hyn yn fesurau "lliniaru". Mae mesurau lliniaru yn cynnwys camau rhagweithiol i osgoi effeithiau a chatau andwyol a gymerir ar ôl canfod effeithiau posibl.
- 8.1.2 Mae'r mesurau lliniaru a gynigir yn **Nhabl 8-1** wedi'u cynllunio i osgoi neu leihau'r effeithiau a nodwyd fel rhai a allai fod yn negyddol yn ôl asesiadau polisi'r Amcanion SEA. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys mesurau sy'n anelu at gyflawni'r effeithiau cadarnhaol gorau posibl ac at wella cynaliadwyedd.

Tabl 8-1 – Lliniaru, Gwella a Monitro

Amcan yr IIA	Lliniaru/Gwella	Mecanwaith
SEA1: Poblogaeth, Cydraddoldeb ac Iechyd	Ni ddylai cyfathrebu gael ei gyfyngu i gyfryngau cymdeithasol. Dylai'r mesurau sicrhau eu bod yn cyrraedd pob grŵp mewn modd cynhwysol ac amserol. Dylid ystyried y rhai nad oes ganddynt o bosibl fynediad neu'r wybodaeth i gyrchu'r rhyngwrwyd a/neu ffôn clyfar.	O fewn yr LFRMS
SEA1: Poblogaeth, Cydraddoldeb ac Iechyd SEA2: Yr Economi	Dylid gweithredu mesurau lliniaru ar gyfer arferion gorau, e.e. rheoli sŵn ac ansawdd aer i leihau effeithiau'r gwaith adeiladu ar y boblogaeth leol. Dylid ymgysylltu'n weithredol â'r gymuned leol cyn dechrau unrhyw weithgareddau adeiladu.	Cynllun Rheoli Amgylcheddol ar gyfer Gwaith Adeiladu (CEMP) Cynllun Ymgysylltu Cymunedol
SEA1: Poblogaeth, Cydraddoldeb ac Iechyd SEA3: Bioamrywiaeth	Dylai atebion NFM gynnig cyfleoedd i greu ardaloedd newydd o seilweithiau a mannau gwyrdd y gall y gymuned leol gael mynediad iddynt.	O fewn yr LFRMS Dyluniad lefel cynllun
SEA3: Bioamrywiaeth	Dylai cynlluniau ymgorffori'r enillion net o ran bioamrywiaeth lle bo modd.	O fewn yr LFRMS Dyluniad lefel cynllun
SEA3: Bioamrywiaeth	Dylai dyluniad y cynllun anelu at leihau'r effeithiau amgylcheddol trwy "ddylunio i osgoi" nodweddion cynefin a all fod o bwysigrwydd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Dylid osgoi colli cynefinoedd, ond lle na ellir osgoi hynny, dylid adfer cynefinoedd ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu, ac ystyried camau i greu cynefinoedd cydadferol i gymryd lle'r rhai a ddifrodwyd neu a gollwyd.	Dyluniad lefel cynllun CEMP Cynllun Rheoli Bioamrywiaeth

Amcan yr IIA	Lliniaru/Gwella	Mecanwaith
SEA4: Tirwedd a Threflun SEA5: Yr Amgylchedd Hanesyddol	Dylai'r mesurau ymgorffori canllawiau Cymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu (CIRIA) ar waith dylunio SuDS i sicrhau dyluniadau o ansawdd uchel a fydd yn lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol.	Dyluniad lefel cynllun
SEA4: Tirwedd a Threflun SEA5: Yr Amgylchedd Hanesyddol	Dylai datblygiadau gael eu dylunio'n dda a'u sgrinio i sicrhau eu bod yn effeithio gyn lleied â phosibl ar y treflun, y dirwedd a'r lleoliad hanesyddol.	Dyluniad lefel cynllun
SEA5: Yr Amgylchedd Hanesyddol	Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i bresenoldeb posibl asedau treftadaeth (yn enwedig archeoleg gladdedig) wrth gwblhau cynigion ar gyfer llwybro piblinellau. Lle bo angen, dylid cynnal rhaglen brawf ar gyfer torri ffosydd a chofnodi archeolegol.	Arolygon archeolegol/treftadaeth CEMP
SEA6: Ansawdd Dŵr	Dylid bod yn ofalus yn ystod gwaith adeiladu ynghylch y potensial i halogion fel silt, concrit neu olew tanwydd, lygru cyrsiau dŵr trwy ddŵr ffo. Dylid ymgymryd â'r holl weithgareddau adeiladu yn unol â'r canllawiau perthnasol a'r arferion gorau ar gyfer atal llygredd. Dylid datblygu Cynlluniau Rheoli Llygredd i gyfyngu ar yr effeithiau andwyol sy'n deillio o lygredd. Mae datrysiadau sy'n seiliedig ar natur a rheoli llifogydd naturiol yn cynnig cyfle i adfer sianeli sydd wedi'u haddasu'n drwm i brosesau naturiol. Felly, nid yw'r datganiad presennol yn gywir. Lle gallai cyrff dŵr gael eu dosbarthu fel HMWB o ganlyniad i'w swyddogaeth fel ased perygl llifogydd, mae cyfleoedd o hyd i ddarparu mesurau lliniaru i helpu i gyflawni Potensial Ecolegol Da.	CEMP Cynllun Rheoli Digwyddiadau Llygredd
SEA6: Ansawdd Dŵr	Dylai'r NFM hefyd osgoi sianeli sydd wedi'u haddasu'n helaeth. Potensial i gyfrannu at wella statws ecolegol cyrff dŵr drwy nodi synergeddau rhwng atebion FCERM a mesurau WFD.	Dyluniad lefel cynllun
SEA6: Ansawdd Dŵr	Dylai cynlluniau gael eu dylunio a'u lleoli'n ofalus i osgoi gwaith ymwithiol fel stancio a allai symud halogion. Yn dibynnu ar natur cynlluniau perygl llifogydd arfaethedig, gellid effeithio ar swyddogaethau hydromorffolegol naturiol, gan arwain at effeithiau negyddol	Dylunio lefel cynllun / opsiwneiddio

Amcan yr IIA	Lliniaru/Gwella	Mecanwaith
SEA7: Gwytnwch Hinsoddol ac Effeithlonrwydd Ynni	Dylai cynlluniau gynnwys mesurau i sicrhau bod y dylunio'n gynaliadwy er mwyn lleihau'r lefelau carbon. Byddir yn ymchwilio i'r defnydd o ynni adnewyddadwy a gyflenwir yn ystod y gwaith adeiladu a'r gweithredu, yn ogystal â'r defnydd o ddeunyddiau sy'n cynnwys llai o garbon.	Dyluniad lefel cynllun
SEA10: Daeareg a Phriddoedd	Dylid cyfeirio cynlluniau i ffwrdd o ardaloedd lle ceir tir amaethyddol gwerthfawr a/neu safleoedd daearegol pwysig a llesteirio symudiadau'r halogion.	Dyluniad lefel cynllun

8.2 MESURAU MONITRO

- 8.2.1 Mae Rheoliadau'r SEA yn mynnu bod y cynllun yn cael ei fonitro fel y gellir nodi effeithiau arwyddocaol y gweithredu, a chymryd camau adferol. Pwrpas y monitro yw darparu mesur pwysig o gynaliadwyedd y cynllun terfynol, a mesur perfformiad y cynllun yn erbyn amcanion a thargedau cynaliadwyedd. Defnyddir y broses monitro hefyd i reoli ansicrwydd, gwella gwybodaeth, hwyluso tryloywder ac atebolrwydd, ac arolygu gwybodaeth am gynaliadwyedd.
- 8.2.2 Nod monitro yw gwirio a yw'r cynllun yn cael yr effeithiau sylweddol a ragwelwyd yn y SEA, ac i ddelio ag unrhyw broblemau annisgwyl. Mae'r effeithiau sylweddol sy'n weddill (er bod effeithiau ansicr) sy'n parhau i fod ar ôl gweithredu'r mesurau lliniaru a gwella uchod yn cynnwys:
- **SEA3** (Bioamrywiaeth): Colli a darnio cynefinoedd posibl o ganlyniad i adeiladu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd.
 - **SEA4** (Tirwedd a Threflun): Diraddiad posibl o'r dirwedd a'r treflun o adeiladu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd.
 - **SEA5** (Yr Amgylchedd Hanesyddol): Colli asedau treftadaeth posibl (gan gynnwys olion archaeolegol) a dirywiad y lleoliad hanesyddol o adeiladu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd.
 - **SEA6**: Dirywiad posibl o ansawdd dŵr daear.
 - **SEA7**: Y nifer sy'n manteisio ar ddylunio ynni carbon isel yn effeithlon.
 - **SEA10**: (Daeareg a Phriddoedd): Colli tir amaethyddol posibl o ganlyniad i adeiladu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd.
- Dylid nodi bod yr effeithiau ansicr hyn i'w gweld fynychaf lle mae gwybodaeth am y Cynllun yn gyfyngedig ar hyn o bryd.
- 8.2.3 Mae Tabl 8-2 isod yn nodi'r mesurau monitro a allai fod yn addas ar gyfer monitro'r effeithiau ansicr a gweddilliol a amlinellwyd uchod.
- 8.2.4 Mae Tabl 5-2 isod yn nodi'r mesurau monitro hynny a allai fod yn addas wrth fonitro'r effeithiau gweddilliol ansicr hynny a amlinellir uchod. Mae mesurau monitro ychwanegol hefyd wedi'u cynnwys i fonitro effeithiau cadarnhaol sylweddol posibl yr LFRMS

Tabl 8-2 – Mesurau Monitro Arfaethedig

Amcan SEA	Beth ellir ei fesur?	Mecanwaith
SEA3: Bioamrywiaeth	Nifer y cynlluniau newydd sy'n sicrhau cynnydd net bioamrywiaeth Y gymhareb o gynlluniau RhLIN anodd	Dylunio lefel y cynllun Monitro blynyddol
SEA4: Tirwedd a Threfi	Colled neu ddifrod i gymeriad a nodweddion tirwedd safleoedd dynodedig (e.e. AHNEau/Bannau Brycheiniog). Ardal o seilwaith glas a gwyrdd wedi'i greu Y gymhareb o gynlluniau RhLIN anodd	Dylunio lefel y cynllun Monitro blynyddol

Amcan SEA	Beth ellir ei fesur?	Mecanwaith
SEA5: Amgylchedd Hanesyddol	Nifer o ddatblygiadau o fewn ardal gadwraeth. Nifer yr asedau hanesyddol (gan gynnwys treftadaeth claddedig) a gollwyd a/neu a ddarganfuwyd. Nifer yr asedau treftadaeth sy'n elwa o amddiffyn rhag llifogydd.	Dylunio lefel y cynllun Monitro blynyddol
SEA6: Ansawdd dŵr	Ansawdd dŵr CFfD	Asesiad risg lefel y cynllun CFfD
SEA7: Effeithlonrwydd Ynni	Nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo effeithlonrwydd ynni. Nifer o gynlluniau od sy'n defnyddio seilwaith presennol.	Dylunio lefel y cynllun
SEA10: Daeareg a Phriddoedd	Ardal o dir tir glas wedi'i aflonyddu neu ei golli. % o'r tir amaethyddol a gollwyd.	Dylunio lefel y cynllun Monitro blynyddol
Mesurau Monitro Ychwanegol		
SEA1: Cydraddoldeb ac Iechyd Dynol	Nifer yr eiddo sy'n elwa o amddiffyn rhag llifogydd % cynnydd mewn seilwaith gwyrdd / glas	Dylunio lefel y cynllun Monitro blynyddol
SEA2: Economi a Busnesau SEA8: Perygl llifogydd SEA9: Seilwaith Critigol	Nifer yr eiddo sy'n elwa o amddiffyn rhag llifogydd Nifer y busnesau sy'n elwa o amddiffyn rhag llifogydd Nifer yr asedau seilwaith critigol sy'n elwa o amddiffyn rhag llifogydd	Monitro blynyddol
SEA10: Daeareg a Phriddoedd	% o'r tir sy'n cael ei adfer a'i wella	Monitro blynyddol

9 ARGYMHELLION

- 9.1.1 Mae'r adran hon yn rhestru'r argymhellion a ganfuwyd trwy gydol yr Asesiad SEA. Dylid nodi bod y rhain yn wahanol i'r mesurau lliniaru a amlinellwyd yn Adran 8 uchod, gan eu bod yn canolbwyntio ar newidiadau posibl i'r LFRMS, yn hytrach na mesurau a nodwyd mewn ymateb i effeithiau arwyddocaol.
- 9.1.2 Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu hystyried gan CBSMT yn dilyn ymgynghoriad ac maent wedi'u cynnwys fel rhan o'r LFRMS terfynol. Mae Tabl 9-1 isod yn amlinellu'r argymhellion hyn.

Tabl 9-1 – Argymhellion SEA

Eitem	Argymhelliad
Cyffredinol	Os yw'n hysbys, argymhellir bod yr LFRMS yn cynnwys rhaglen ddangosol y cynlluniau ar gyfer rheoli risg llifogydd a'r mathau o gynlluniau i'w cyflawni.
Amcanion y Strategaeth	Mae'r amcanion trosfwaol yn brin o fanylion, sydd wedi arwain at rai effeithiau ansicr yn deillio o amcanion yr SEA. Byddai darparu rhagor o fanylion am yr hyn y gallai'r amcanion ei olygu gynyddu'r cydweddoldeb cyffredinol.
Mesur 1	Gallai'r mesur hwn hefyd gael ei gysylltu â'r Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau bod risg llifogydd yn ystyriaeth allweddol i'r cynllun strategol, ac yn cael ei integreiddio yn y meini prawf wrth ddewis safleoedd.
Mesur 2	Argymhellir bod y mesur yn gwarantu "dyluniad o ansawdd uchel" i sicrhau bod SuDS wedi'u hymgorffori'n dda yn yr amgylchedd naturiol a hanesyddol ac nad ydynt yn amharu ar y lleoliadau hyn.
Mesur 2	Dylai'r mesur hwn hefyd ei gwneud hi'n glir a yw hefyd yn cynnwys SuDS gwledig gan fod eu rheolaeth ychydig yn wahanol i'r rhai trefol.
Mesur 3	Dylai'r mesur hwn hefyd roi ystyriaeth fanwl i fesurau cyfathrebu eraill a'u defnyddio i gyrraedd yr aelodau hynny o'r gymuned sydd heb y modd i gyrchu cyfryngau cymdeithasol.
Mesur 9	Gallai'r mesur hwn hefyd gynnwys gweithdai gloywi i sicrhau bod y gymuned yn parhau i fod yn wybodus ac yn effro i'r risgiau.
Mesur 17	Gallai'r mesur gynnwys rhagor o fanylion am y mathau o NFM a gynigir.
Mesur 19	Argymhellir y dylid manylu ymhellach ar elfen "adleoli" y mesurau gan nad yw'n gwbl glir a yw'n cyfeirio at y gymuned gyfan, ac yn/neu'n cyfeirio at ddatblygiadau sydd ar waith neu ar y gweill.
Mesur 20	Gallai'r mesur hefyd amlinellu maen prawf/trothwy o ran pryd y byddai atebion peirianyddol caled yn cael eu hystyried, e.e. ar ôl ystyried yr holl ddatrysiadau NFM, gwerth/pwysigrwydd yr ased y mae angen ei ddiogelu, ac ati.
Mesur 22	Argymhellir bod y mesur yn rhoi rhagor o fanylion am yr hyn a olygir gan "Cael mwy o fudd gan amwynderau a gynhelir yn dda".

10 Y CAMAU NESAF

- 10.1.1 Yn unol â Rheoliadau SEA, rhaid sicrhau bod Adroddiad SEA ar gael ar yr un pryd â'r cynllun neu'r rhaglen ddrafft, fel rhan annatod o'r broses ymgynghori, a'r berthynas rhwng y dogfennau a nodir yn glir.
- 10.1.2 Gofynnodd CBSMT am farn cyrff statudol a rhanddeiliaid eraill ar ganlyniadau'r SEA, er mwyn sicrhau bod yr SEA yn darparu asesiad cadarn o'r LFRMSS. Mae'r ER wedi'i ddiweddarau yng ngoleuni'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad.
- 10.1.3 Unwaith y bydd yr LFRMS yn cael ei fabwysiadu, bydd Datganiad SEA yn cael ei lunio i ddogfennu'r broses hon a bydd yn cynnwys cofnod o'r sylwadau a dderbyniwyd ar Adroddiad Amgylcheddol LFRMS ac SEA, a'r camau a gymerwyd yn ogystal â nodi sut mae'r SEA wedi dylanwadu ar ddatblygiad LFRMS.

Atodiad A

ADOLYGIAD O GYNLLUNIAU, POLISIÂU A RHAGLENNI



Tabl 0-1 - Cynlluniau, Polisiâu, Strategaethau a Rhaglenni Perthnasol – Poblogaeth ac Iechyd Pobl

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Cenedlaethol	
Deddf Cydraddoldeb, 2010	Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach. Mae yn erbyn y gyfraith i wahaniaethu yn erbyn unrhyw un oherwydd: - oedran; - bod neu ddod yn berson trawsrywiol; - bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil; - bod yn feichiog neu gael plentyn; - anabledd; - hil gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol; - crefydd, cred neu ddiffyg crefydd/cred; - rhyw; a - chyfeiriadedd rhywiol.
Polisi Cynllunio Cymru, 2021 (Rhifyn 11)	Rhaid i bolisiâu, cynigion a phenderfyniadau cynllunio geisio hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy a chefnogi llesiant pobl a chymunedau ledled Cymru. Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn cael eu hystyried wrth lunio penderfyniadau. Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth eu bod wedi ystyried cyfleoedd rhesymol i gyflwyno buddion amgylcheddol a chymdeithasol fel rhan o'u cynlluniau.
Cymru'r Dyfodol, Cynllun Cenedlaethol 2040	“Bydd y dull gweithredu rhanbarthol yn cydnabod bod rhannau gwahanol o Gymru yn gweithio'n wahanol i'w gilydd, gyda'u nodweddion a'u heriau sylfaenol eu hunain. Eir i'r afael ag anghydraddoldebau yn y pedwar rhanbarth drwy feithrin cysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau a busnesau. Caiff pob rhanbarth ei annog i adeiladu ar ei gryfderau presennol a manteisio ar gyfleoedd i sicrhau mwy o ffyniant a gwella llesiant”.
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n glir bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus rhestredig weithio i gyflawni pob un o'r nodau: - Cymru lewyrchus - Cymru gydnerth

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	■ Cymru sy'n fwy cyfartal ■ Cymru iachach ■ Cymru o gymunedau cydlynus ■ Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ■ Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Mae hyn yn ymwneud â sicrhau bod gan genedlaethau'r dyfodol o leiaf yr un ansawdd bywyd ag sydd gennym ni ar hyn o bryd. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau gwell drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus: ■ yn ystyried y tymor hir ■ yn helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu ■ yn defnyddio dull gweithredu integredig ■ yn defnyddio dull gweithredu cydweithredol ■ yn ystyried ac yn cynnwys pobl o bob oed ac amrywiaeth
Build Back Fairer: The Covid-19 Marmot Review, 2020	Nododd Adolygiad Marmot fod lefelau anghydraddoldeb cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd mewn cymdeithas yn niweidiol i iechyd a llesiant. Mae'r adroddiad hwn yn nodi mai camgymeriad fyddai ceisio ailsefydlu'r status quo a fodolai cyn i'r DU ddod allan o'r pandemig. Arweiniodd y gostyngiadau mewn traffig ceir yn ystod y pandemig at aer glanach a lleihad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Daeth cerdded a seiclo fel dulliau trafnidiaeth yn angenrheidiol ac yn ddymunol. Wrth i'r pandemig ddod dan reolaeth ac wrth i drafnidiaeth gyhoeddus ddod yn ddiogel unwaith eto, mae modd inni bellach ddychmygu a gwireddu dyfodol i'n dinasoedd sydd yn cynnwys llai o draffig cerbydau, yn ddiogel ar gyfer cerdded a seiclo, ac yn cofleidio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae Building Back Fairer yn gofyn am leihad sylweddol yn y defnydd o geir preifat a mwy o deithio llesol a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Mae angen ymdrechion i gefnogi hyn ar frys gan y byddent yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn arwain at amgylchedd mwy cynaliadwy.
Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru: Byw'n Hirach, Heneiddio'n Dda (2013-2023)	Nododd y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru weledigaeth i wneud Cymru yn lle gwych i heneiddio ynddo. Nod y Strategaeth yw mynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebwr gan bobl hŷn yng Nghymru heddiw a sicrhau bod llesiant o fewn cyrraedd pawb. Dyma'r weledigaeth: ■ Bod pobl yng Nghymru yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, waeth beth fo'u hoedran. ■ Bod gan bob person hŷn yng Nghymru yr adnoddau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol sydd eu hangen arnynt i ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau a wynebant.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2014) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n diwygio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol, a'i nod yw gwella llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth yn ogystal â gofalmwr sydd angen cymorth. Mae'n darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gofal a chymorth yng Nghymru, yn seiliedig ar egwyddorion craidd cydweithrediad, partneriaeth, a deilliannau. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru i weithio tuag at hyrwyddo llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth, yn ogystal â gofalmwr sydd angen cymorth. Mae egwyddorion y Ddeddf fel a ganlyn: - mae'r Ddeddf yn helpu i sicrhau llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth; - mae'r system newydd yn canolbwyntio ar bobl gan roi llais cyfartal iddynt yn y penderfyniadau a wneir am y cymorth a gânt; - caiff gwasanaethau eu darparu drwy bartneriaethau a thrwy gydweithrediad; - bydd gwasanaethau'n ceisio atal anghenion rhag cynyddu a bydd y cymorth iawn ar gael ar yr adeg iawn.
Llywodraeth Cymru (2016) Cynllun Cydraddoldeb Strategol	Mae'r Cynllun yn nodi wyth amcan: - Amcan 1 – Dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus - Amcan 2 – Sicrhau darpariaeth ddigonol o gyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth - Amcan 3 – Lleihau anghydraddoldebau o ran cyflogaeth, sgiliau a chyflog - Amcan 4 – Lleihau harasio a cham-drin - Amcan 5 – Mynd i'r afael â rhwystrau i benderfynwyr o ran ymgysylltiad a chyfranogiad - Amcan 6 – Cryfhau cydlyniant cymunedol - Amcan 7 – Lleihau tlodi a gwella amodau byw - Amcan 8 – Anelu at gael Llywodraeth Cymru, fel cyflogwr, i osod esiampl yn y maes hwn
Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, 2021	Nod y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yw annog gwell penderfyniadau ac yn y pen draw sicrhau deilliannau gwell i'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Nod y canllawiau statudol hyn yw helpu'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys yn y Ddyletswydd (y "cyrff cyhoeddus") i gyflawni gofynion y Ddyletswydd.
Llywodraeth Cymru (2017) Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol	Mae'r Strategaeth yn amlinellu gweledigaeth a chamau gweithredu o dan bob un o themâu allweddol y Rhaglen Lywodraethu – Ffyniannus a Diogel, Iach ac Egnïol, Uchelgais a Dysgu, ac Unedig a Chysylltiedig. Mae hefyd yn nodi pum maes blaenoriaeth sydd â'r potensial i wneud y cyfraniad mwyaf at ffyniant a llesiant yn y tymor hir. - Y Blynnyddoedd Cynnar - Tai - Gofal Cymdeithasol

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	- Iechyd Meddwl - Sgiliau
Datganiad Ardal Canol De Cymru	Lansiwyd Datganiadau Ardal yn 2020 ac mae Datganiad Ardal Canol De Cymru – sy’n cynnwys pum thema allweddol – yn ceisio mynd i’r afael ag effeithiau hirdymor y gorffennol ynghyd â heriau a chyfleoedd y dyfodol, gan archwilio ffyrdd y gallwn gydweithio i ddiogelu, gwerthfawrogi a chofleidio’r amgylchedd naturiol a’i roi wrth galon y broses o wneud penderfyniadau, yn unol â Pholisi Adnoddau Naturiol 2017 Llywodraeth Cymru. Yn ôl y thema sy’n cysylltu pobl â natur: <i>“Ceir angen dybryd i sicrhau ein bod yn cynnal a gwella cysylltiad pobl â’r byd naturiol a’u gwerthfawrogiad ohono. Yn anffodus, mae’n rhy hawdd i gymunedau ddatgysylltu’n gorfforol ac yn feddyliol rhag natur. Gall seilwaith trefol llwyd eang fod yn rhwylstr, yn aml mewn modd llythrennol. Dros y blynyddoedd i ddod, mae cynlluniau i dwf trefol sylweddol ddigwydd ar draws Canol De Cymru. Ein gweledigaeth yw y bydd pobl yn cael eu hamgylchynu gan amgylchedd o ansawdd da, gan ddiogelu, rheoli a chynnal ar yr un pryd ein cymysgedd trefol/gwledig unigryw.”</i>
Lleol	
Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Cyntaf CBSMT 2016-2031	Mae gweledigaeth ac amcanion y CDLI yn darparu cyd-destun trosfwaol ar gyfer y Cynllun sy’n dangos y modd y mae ystyriaethau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn cael eu cydbwysu i gyflawni datblygiad cynaliadwy BSMT hyd at 2031. Y weledigaeth yw cryfhau safle Merthyr Tudful fel y ganolfan ranbarthol ar gyfer Blaenau’r Cymoedd ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, annog lefel gynaliadwy o dwf yn y boblogaeth, bod yn fan i fod yn falch ohono, ac: - yn fan lle mae pobl yn dysgu ac yn datblygu sgiliau i gyflawni eu huchelgeisiau; - yn fan lle mae pobl yn byw, yn gweithio, yn cael bywyd diogel, iach a bodlon; ac - yn fan lle mae pobl yn ymweld, yn mwynhau ac yn dychwelyd iddo.
Cynllun Cydraddoldeb Strategol CBSMT 2020-2024	Pwrpas y Cynllun yw gwella cyfleoedd cyfartal o fewn cymunedau trwy ddarparu gwasanaethau, cyflogaeth, comisiynau, arweinyddiaeth a gwaith partneriaeth. Gweledigaeth Cydraddoldeb Merthyr Tudful yw: “Man lle mae amrywiaeth yn cael ei gwerthfawrogi a’i pharchu a lle gall pawb gymryd rhan, ffynnu a chael y cyfle i gyflawni eu potensial heb wahaniaethu a rhagfarn.” Mae’r gweithgareddau yng Nghynllun Gweithredu’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn dangos ymrwymiad cryf i ddileu pob math o wahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl sy’n ymweld, yn byw ac yn gweithio ym MT.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg – Asesiad Llesiant a Chynllun Llesiant 2023-2028	Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg yn dod â phartneriaid lleol allweddol ynghyd yn ardaloedd awdurdodau lleol Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf. Thema drosfwaol y Cynllun Llesiant yw “Cwm Taf Morgannwg Fwy Cyfartal” ac mae hynny’n llywio pob agwedd ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Y ddau amcan yw: - Cymdogaethau Lleol Iach – Cwm Taf Morgannwg lle mae ein cymunedau’n gynhwysol ac yn teimlo’n gydlynol a phobl yn teimlo’n ddiogel, yn cael eu cefnogi a’u gwerthfawrogi. - Cymdogaethau Lleol Cynaliadwy a Gwydn – Cwm Taf Morgannwg lle rydym yn deall ac yn ymateb i’r risg o newid yn yr hinsawdd i’n cymunedau. Er mwyn gwneud hyn rhaid i ni werthfawrogi, rheoli a mwynhau ein mannau gwyrdd a glas yn gyfrifol.

Tabl 0-2 - Cynlluniau, Polisiâu, Strategaethau a Rhaglenni Perthnasol – Iechyd Pobl

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
<i>National</i>	
Build Back Fairer: The Covid-19 Marmot Review, 2020	Nododd Adolygiad Marmot fod lefelau anghydraddoldeb cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd mewn cymdeithas yn niweidiol i iechyd a llesiant. Mae’r adroddiad hwn yn nodi mai camgymeriad fyddai ceisio ailsefydlu’r status quo a fodolai cyn i’r DU ddod allan o’r pandemig. Arweiniodd y gostyngiadau mewn traffig ceir yn ystod y pandemig at aer glanach a gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Daeth cerdded a seiclo fel dulliau trafnidiaeth yn angenrheidiol ac yn ddymunol. Wrth i’r pandemig ddod dan reolaeth ac wrth i dfrnidiaeth gyhoeddus ddod yn ddiogel unwaith eto, mae modd inni bellach ddychmygu a gwireddu dyfodol i’n dinasoedd sy’n cynnwys llai o draffig cerbydau, yn ddiogel ar gyfer cerdded a seiclo, ac yn cofleidio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae Building Back Fairer yn gofyn am leihad sylweddol yn y defnydd o geir preifat a mwy o deithio llesol a defnydd o dfrnidiaeth gyhoeddus. Mae angen ymdrechion i gefnogi hyn ar frys gan y byddent yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn arwain at amgylchedd mwy cynaliadwy.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Polisi Cynllunio Cymru, 2021 (Rhifyn 11)	Rhaid i bolisiâu, cynigion a phenderfyniadau cynllunio geisio hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy a chefnogi llesiant pobl a chymunedau ledled Cymru. Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn cael eu hystyried wrth lunio penderfyniadau. Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth eu bod wedi ystyried cyfleoedd rhesymol i gyflwyno buddion amgylcheddol a chymdeithasol fel rhan o'u cynlluniau.
Llywodraeth Cymru (2012) Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant yng Nghymru	Strategaeth drawslywodraethol yw Law yn Llaw at Iechyd Meddwl sy'n gosod nodau ar gyfer gwella iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Dyma'r Strategaeth Iechyd Meddwl gyntaf sy'n cwmpasu pob oedran: plant a phobl ifanc, oedolion oedran gweithio a phobl hŷn. Ei nod yw hyrwyddo llesiant meddwl pawb yng Nghymru a sicrhau bod pobl â phroblemau iechyd meddwl a salwch meddwl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Dylai hyn fod trwy ddull sy'n eu helpu i wella ac sy'n edrych ar bob agwedd ar fywyd person. Mae'r Strategaeth yn anelu at chwe deilliant: ■ Mae iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth gyfan yn gwella. ■ Mae effaith problemau iechyd meddwl a/neu salwch meddwl ar unigolion o bob oedran, eu teuluoedd a'u gofalwyr, cymunedau a'r economi yn cael eu hadnabod yn well ac yn lleihau. ■ Mae anghydraddoldebau, stigma a gwahaniaethu a ddioddefir gan bobl sy'n cael problemau iechyd meddwl a salwch meddwl yn lleihau. ■ Mae unigolion yn cael gwell profiad o ran y gefnogaeth a'r driniaeth a gânt ac mae ganddynt fwy o fewnbwn a rheolaeth dros benderfyniadau cysylltiedig. ■ Mae'r mynediad i fesurau ataliol, ymyrraeth gynnar a thriniaethau, a'u hansawdd, yn well ac mae mwy o bobl yn gwella o ganlyniad i hynny. ■ Mae gwerthoedd ac agweddau a sgiliau'r rhai sy'n trin neu'n cefnogi unigolion o bob oedran sydd â phroblemau iechyd meddwl neu salwch meddwl yn gwella.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2014) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n diwygio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol, a'i nod yw gwella llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth yn ogystal â gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'n darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gofal a chymorth yng Nghymru, yn seiliedig ar egwyddorion craidd cydweithrediad, partneriaeth, a deilliannau. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru i weithio tuag at hyrwyddo llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth, yn ogystal â gofalwyr sydd angen cymorth. Mae egwyddorion y Ddeddf fel a ganlyn: ■ mae'r Ddeddf yn helpu i sicrhau llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth; ■ mae'r system newydd yn canolbwyntio ar bobl gan roi llais cyfartal iddynt yn y penderfyniadau a wneir am y cymorth a gânt;

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	- caiff gwasanaethau eu darparu drwy bartneriaethau a thrwy gydweithrediad; - bydd gwasanaethau'n ceisio atal anghenion rhag cynyddu a bydd y cymorth iawn ar gael ar yr adeg iawn.
Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013)	Disgrifiwyd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 fel y ddeddfwriaeth gyntaf yn y byd i hyrwyddo Teithio Llesol. Daeth y Ddeddf yn ddyletswydd ym mis Medi 2014 ac mae'n gosod gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i wella llwybrau i gerddwyr a seiclwyr yn barhaus, ac i baratoi mapiau sy'n nodi llwybrau presennol a llwybrau posibl yn y dyfodol. Drwy gysylltu safleoedd allweddol fel gweithleoedd, ysbytai, ysgolion ac ardaloedd siopa â llwybrau di-draffig a lonydd seiclo, nod y Ddeddf yw annog pobl i ddibynnu llai ar eu ceir wrth wneud teithiau byr. Nod y Ddeddf yw gwneud teithio llesol yr opsiwn mwyaf deniadol ar gyfer teithiau byrrach. Bydd hynny'n sail i alluogi mwy o bobl i deithio'n llesol gan fwynhau'r manteision iechyd a ddaw yn ei sgil. At hynny, bydd yn helpu i leihau allyriadau tŷ gwydr, mynd i'r afael â thlodi ac anfantais, a helpu ein heconomi i dyfu.
Cynllun Strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023-2026	Mae'r Cynllun Strategol yn nodi'r camau gweithredu a fydd yn cael eu cyflawni dros dair blynedd gyntaf y strategaeth newydd sef Cydweithio i gael Cymru Iachach 2023-2035. Mae'r Cynllun Strategol yn canolbwyntio ar gyflawni chwe blaenoriaeth strategol: - Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd - Hybu llesiant meddyliol a chymdeithasol - Hybu ymddygiad iach - Cefnogi datblygiad system iechyd a gofal cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar ataliad ac ymyrraeth gynnar - Darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol i amddiffyn y cyhoedd a sicrhau'r deilliannau gorau posibl o ran iechyd y boblogaeth - Mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd cyhoeddus
Llywodraeth Cymru (2016) Cynllun Gweithredu Teithio Llesol i Gymru	Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn canolbwyntio ar gerdded a seiclo fel dull o deithio, h.y. ar gyfer teithiau pwrpasol. Nid oedd cerdded a seiclo er dibenion hamdden yn unig wedi'u cynnwys yn y Ddeddf. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cerdded a seiclo fel modd i hamddena a seiclo fel modd i chwarae, yn gryf. Bydd llawer o'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol o fudd i gerdded a seiclo adloniadol neu gystadleuol lawn cymaint â theithiau llesol. Gweledigaeth y cynllun yw "i bobl yng Nghymru, mae arnom eisiau i gerdded a seiclo ddod yn ddewis ffordd o symud o gwmpas ar deithiau byrion".
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017	Mae'r Bil yn nodi cyfres o gynigion ym meysydd blaenoriaeth polisi iechyd y cyhoedd. Mae'r Bil yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i arwain iechyd y cyhoedd a defnyddio deddfwriaeth fel ffordd o wella a diogelu iechyd pobl Cymru ymhellach. Mae'n rhan o agenda iechyd cyhoeddus cynhwysfawr ochr yn ochr â gwasanaethau, polisïau, rhaglenni ac ymgyrchoedd, yn ogystal â gwaith ar draws y llywodraeth i fynd i'r afael ag achosion afiechyd.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	Mae'r Bil yn ceisio gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ac ymarferol mewn nifer o feysydd penodol, er budd grwpiau penodol yn ogystal â chymunedau cyfan. Mae'n cynnwys y cynigion gwreiddiol a ystyriwyd gan y Cynulliad blaenorol ond heb y darpariaethau sy'n cyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin mewn rhai mannau cyhoeddus. Mae'r Bil hefyd yn elwa ar y ffaith ei fod eisoes wedi cael ei graffu'n drylwyr ac mae'n cynnwys y newidiadau a wnaed i'w wella yn ystod y cyfnodau diwygio gwreiddiol. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y canlynol: - Tybaco a chynhyrchion nicotin - Gweithdrefnau arbennig - Gwasanaethau fferyllol - Toiledau
Datganiad Ardal Canol De Cymru	Mae'r thema ar wella iechyd yn datgan: <i>Mae'r amgylchedd ffisegol sy'n ein hamgylchynu yn cael effaith ar ein hiechyd: yr aer rydym yn ei anadlu; ein mynediad at ddŵr glân; ein dewisiadau o ran yr hyn rydym yn ei fwyta ac yfed; faint o weithgarwch corfforol rydym yn ei wneud, a ble rydym yn dewis ei wneud. Mae Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, wedi dweud bod: "creu lleoedd yn llwyddiannus yn allweddol i greu mannau cynaliadwy lle gall pobl fyw bywydau egniol ac iach, a bod yn falch o ddweud o ble y maent yn dod." Mae creu mannau cynaliadwy yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac mae'r broses gynllunio yn rhoi cyfle i ni gyd ddilyn ffordd o fyw iachach. Fodd bynnag, er mwyn manteisio ar y cyfle hwnnw a gwireddu'r buddion posibl, mae'n rhaid i'n hiechyd ddod yn rhan ganolog o greu lleoedd.</i>
Local	
Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Cyntaf CBSMT 2016-2031	Mae gweledigaeth ac amcanion y CDLI yn darparu cyd-destun trosfwaol ar gyfer y Cynllun sy'n dangos y modd y mae ystyriaethau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn cael eu cydbwysu i gyflawni datblygiad cynaliadwy BSMT hyd at 2031. Y weledigaeth yw cryfhau safle Merthyr Tudful fel y ganolfan ranbarthol ar gyfer Blaenau'r Cymoedd ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, annog lefel gynaliadwy o dwf yn y boblogaeth, bod yn fan i fod yn falch ohono, ac: - yn fan lle mae pobl yn dysgu ac yn datblygu sgiliau i gyflawni eu huchelgeisiau; - yn fan lle mae pobl yn byw, yn gweithio, yn cael bywyd diogel, iach a bodlon; ac - yn fan lle mae pobl yn ymweld, yn mwynhau ac yn dychwelyd iddo.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Datganiad Llesiant CBSMT 2023-2028	Fel rhan o'r ddyletswydd llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi - Merthyr Tudful uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar ddysgu - byddwn yn atgyfnerthu sut rydym ni'n galluogi pobl i dyfu a - Merthyr Tudful lachach - byddwn yn grymuso pobl i fyw bywydau annibynnol ac urddasol - Merthyr Tudful Diogel a Ffyniannus - byddwn yn cefnogi'r modd mae ein heconomi yn gwella ac yn tyfu; gan sicrhau bod pobl - Merthyr Tudful Glân a Gwyrdd - byddwn yn cefnogi'r gwaith o greu amgylchedd glân a gwyrdd yn awr ac yn y dyfodol.

Tabl 0-3 - Cynlluniau, Polisiâu, Strategaethau a Rhaglenni Perthnasol - Yr Economi

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Cenedlaethol	
Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040	Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yw fframwaith datblygu cenedlaethol Cymru ac mae'n gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, cyflawni datgarboneiddio a gwytnwch hinsoddol, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant cymunedau.
Polisi Cynllunio Cymru, 2021 (Rhifyn 11)	Rhaid i bolisiâu, cynigion a phenderfyniadau cynllunio geisio hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy a chefnogi llesiant pobl a chymunedau ledled Cymru. Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn cael eu hystyried wrth lunio penderfyniadau. Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth eu bod wedi ystyried cyfleoedd rhesymol i gyflwyno buddion amgylcheddol a chymdeithasol fel rhan o'u cynlluniau.
Strategaeth Twf Diwydiannol y DU, 2017	Mae'r Strategaeth Ddiwydiannol yn nodi cynllun hirdymor i hybu cynhyrchiant a gallu pobl i ennill arian ledled y DU. Mae'n nodi'r modd y mae Llywodraeth y DU yn gweithio tuag at adeiladu Prydain sy'n addas ar gyfer y dyfodol – y modd y bydd yn helpu busnesau i greu swyddi sy'n talu'n well ym mhob rhan o'r DU gyda buddsoddiad yn sgiliau, diwydiannau a seilweithiau'r dyfodol.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	Mae'r Strategaeth yn cynnwys pum sylfaen: ■ Syniadau: yr economi mwyaf arloesol y byd ■ Pobl: swyddi da a mwy o allu i bawb ennill arian ■ Seilwaith: uwchraddiad mawr i seilwaith y DU ■ Amgylchedd busnes: y lle gorau i ddechrau a thyfu busnes ■ Lleoedd: cymunedau llewyrchus ar draws y DU Bydd Llywodraeth y DU yn defnyddio'r strategaeth hon i weithio gyda diwydiant, y byd academiaidd a chymdeithas sifil dros y blynyddoedd nesaf i adeiladu ar gryfderau'r DU, datgloi mwy o'i photensial, a chreu economi fwy cynhyrchiol sy'n gweithio i bawb ledled y DU.
Strategaeth Twf Glân, 2017	Mae'r Strategaeth hon yn nodi set gynhwysfawr o bolisïau a chynigion sy'n anelu at gyflymu "twf glân", h.y. tyfu'r economi a lleihau'r allyriadau. Mae gan y Strategaeth ddau brif amcan: 1. cyflawni ein hymrwymadau domestig ar y gost net isaf bosibl i drethdalwyr, defnyddwyr a busnesau'r DU; a 2. manteisio i'r eithaf o'r buddion cymdeithasol ac economaidd a ddaw i'r DU yn sgil y trawsnewid hwn. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, bydd angen i'r DU feithrin technolegau, prosesau a systemau carbon-isel sydd mor rhad â phosibl.
Llywodraeth Cymru (2010) Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd	Mae dwy egwyddor bwysig yn sail i "Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd" - yr angen i gael y Llywodraeth gyfan i weithredu mewn perthynas â datblygiad economaidd, a'r pwysigrwydd o gael Llywodraeth y Cynulliad i weithredu'n glir trwy ddull mwy strategol a galluogol gan greu amgylchedd sy'n ennyn twf a budd i bob cwmni. Mae'r ddwy egwyddor hyn ar waith drwy ein pum blaenoriaeth, sef: ■ buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o ansawdd; ■ gwneud Cymru'n lle mwy deniadol i wneud busnes; ■ ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau; ■ annog arloesedd; ■ targedu'r cymorth yr ydym yn ei gynnig i fusnesau.
Llywodraeth Cymru (2017) Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu economaidd	Diben y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yw helpu i gyflawni Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru. Mae ein Cynllun yn disgrifio gweledigaeth ar gyfer twf cynhwysol, wedi'i adeiladu ar seiliau cadarn, diwydiannau cryf y dyfodol a rhanbarthau cynhyrchiol. Mae'r Cynllun yn hyrwyddo dau nod sef sicrhau twf yn yr economi a lleihau anghydraddoldeb. Mae'n nodi sawl cynnig uchelgeisiol sy'n ymrwymo'r Llywodraeth i newid cyfeiriad ei pholisïau mewn amryw faes allweddol at un diben cyffredin, sef gweithio gyda busnesau ac eraill i wella cydnerthedd a pharatoi economi Cymru at y dyfodol.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Llywodraeth Cymru (2021) Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru: fframwaith	Fel sail i'r Cynllun, byddwn yn gweithio i sicrhau tri deilliant: Economi ffyniannus sy'n canolbwyntio drwy'r amser ar fod yn gydnherth ac ar allu newid. Rhaid cryfhau sylfeini'r economi trwy greu sylfaen amrywiol ond cydgysylltiedig o gwmnïau sy'n edrych tuag allan, yn arloesi, yn gynhyrchol ac yn cyflogi gweithlu â'r sgiliau addas ar gyfer byd sy'n newid. Economi werdd y bydd gofyn iddi fod yn gylchol iawn, lle mae adnoddau yn cael eu cadw o fewn yr economi, gan ychwanegu at werth yr economi a chan osgoi gwastraff. Mae'r math hwn o economi yn annatod i gymdeithas carbon-isel, felly mae angen i ni fuddsoddi mewn seilwaith carbon-isel all wrthsefyll effeithiau hinsawdd sy'n newid, prosiectau ynni adnewyddadwy, meddwl/dylunio ar lefel system gyfan a chartrefi cynaliadwy. Economi gyfartal sy'n golygu buddsoddi ym mhotensial cynhyrchol pawb mewn cymunedau. Mae angen i ni feithrin uchelgais, annog dysgu am oes, deall ymddygiadau ac agweddau yn well a chefnogi pobl i wneud y gorau o'u potensial. Bydd ein dull rhanbarthol o weithio yn cefnogi dosbarthiad teg o gyfleoedd a byddwn yn parhau i fynnu a hyrwyddo gwaith teg.
Lleol	
Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Cyntaf CBSMT 2016-2031	Mae gweledigaeth ac amcanion y CDLI yn darparu cyd-destun trosfwaol ar gyfer y Cynllun sy'n dangos y modd y mae ystyriaethau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn cael eu cydbwysu i gyflawni datblygiad cynaliadwy BSMT hyd at 2031. Y weledigaeth yw cryfhau safle Merthyr Tudful fel y ganolfan ranbarthol ar gyfer Blaenau'r Cymoedd ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, annog lefel gynaliadwy o dwf yn y boblogaeth, bod yn fan i fod yn falch ohono, ac: - yn fan lle mae pobl yn dysgu ac yn datblygu sgiliau i gyflawni eu huchelgeisiau; - yn fan lle mae pobl yn byw, yn gweithio, yn cael bywyd diogel, iach a bodlon; ac - yn fan lle mae pobl yn ymweld, yn mwynhau ac yn dychwelyd iddo.
Gweledigaeth Economaidd CBSMT 2021-2035	Mae'r adroddiad yn nodi'r weledigaeth economaidd ar gyfer Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful am y 15 mlynedd nesaf. Y Weledigaeth Economaidd yw "Creu amgylchedd sy'n cefnogi twf ein busnesau ac yn denu busnesau newydd i fuddsoddi; arfogi ein holl bobl â'r sgiliau a'r wybodaeth i gael swydd neu ddechrau busnes; cefnogi ein sefydliadau cymunedol i ffynnu; a denu mwy o ymwelwyr i fwynhau ein Bwrdeistref hynod." Dyma'r Uchelgeisiau Craidd ar gyfer yr economi leol: Creu Amrywiaeth Economaidd: cynyddu gwytnwch ar gyfer heriau'r dyfodol drwy gynorthwyo i greu'r math cywir o fusnesau sydd yn cael eu cynorthwyo gan y math cywir o seilwaith busnes. Sefydlu "Cyrchfan Merthyr": blaenoriaethu twf ein heconomi i ymwelwyr drwy adeiladu ar y cyfle unigryw y gall ein darpariaeth awyr agored ei chynnig, ein tirwedd naturiol anhygoel a'n diwylliant a'n treftadaeth sy'n adnabyddus yn fyd eang.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	▪ Addysg a Hyfforddiant: rhoi'r sgiliau angenrheidiol i'n cymuned allu ffynnu yn economi'r dyfodol, a rhoi'r hyder i fusnesau a ▪ Tai Modern a Lleoedd Gwych: darparu tai sy'n effeithlon o ran ynni ac yn sicrhau fod gan bawb le diogel i alw'n gartref; creu ▪ Trawsfurfio Cysylltiadau: cryfhau'r seilwaith digidol a ffisegol er mwyn denu buddsoddwyr, darparu platfform i fusnesau ▪ Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymunedol: bod yn flaengar a dyfeisgar yn y modd yr ydym yn darparu ac yn rheoli asedau ▪ Adnoddau Naturiol ac Economi Carbon-isel: diogelu a gwella ein hadnoddau naturiol, er budd cenedlaethau'r presennol

Tabl 0-1 - Cynlluniau, Polisiâu, Strategaethau a Rhaglenni Perthnasol – Bioamrywiaeth

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Rhyngwladol	
Confensiwn Bern ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewropeaidd (1979)	Mae gan y Confensiwn dri phrif nod ac fe'u rhestrir yn Erthygl 1: ▪ Gwarchod fflora a ffawna gwyllt a'u cynefinoedd naturiol; ▪ Hyrwyddo cydweithrediad rhwng gwladwriaethau; a ▪ Rhoi sylw arbennig i rywogaethau (gan gynnwys rhai mudol) sydd mewn perygl ac yn agored i niwed.
Cadwraeth Cynefinoedd Naturiol a Ffawna a Fflora Gwyllt (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd) (1992)	Nodi Rhwydwaith Ewropeaidd o Safleoedd o Bwysigrwydd Cymunedol (SCIs) i'w dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SACs). Byddai angen i SA adrodd ar unrhyw effeithiau posibl ar SACs a dylai pob cynllun datblygu anelu at osgoi unrhyw effeithiau andwyol arnynt.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
UE (2011) Strategaeth Fioamrywiaeth yr UE hyd at 2020 – tuag at ei gweithredu	Y nod yw atal gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystem rhag cael eu colli yn yr UE erbyn 2020. Mae'r strategaeth yn darparu fframwaith ar gyfer gweithredu dros y degawd nesaf ac yn cwmpasu'r meysydd allweddol a ganlyn: ■ gwarchod ac adfer natur; ■ cynnal a gwella ecosystemau a'u gwasanaethau; ■ sicrhau cynaliadwyedd amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd; ■ brwydro yn erbyn rhywogaethau goresgynnol estron; a ■ mynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth byd-eang.
UE (2013) 7 ^{fed} Rhaglen Gweithredu Amgylcheddol (EAP) hyd at 2020	Roedd y 7^{fed} EAP yn llywio polisi amgylcheddol yr UE hyd at 2020 ac yn gosod uchelgeisiau ar gyfer 2050. Gosododd y Rhaglen y canlynol fel un o'i phrif amcanion sef "diogelu, cadw a gwella cyfalaf naturiol yr Undeb." Roedd y 7^{fed} EAP yn adlewyrchu ymrwymiad yr UE i warchod bioamrywiaeth a'r gwasanaethau ecosystem y mae'n eu darparu, gan wneud hynny am ei werth cynhenid a'i gyfraniad at lesiant economaidd. Mae'r Rhaglen yn amlygu'r gobaith y bydd integreiddio gwerth y gwasanaethau ecosystem wrth gyfrifo ac adrodd yn eu cylch ar draws yr Undeb a'i aelod-wladwriaethau erbyn 2020, yn arwain at reoli cyfalaf naturiol yn well.
Cynllun Strategol y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) ar gyfer Bioamrywiaeth 2011-2020	Mae'r Cynllun hwn yn darparu fframwaith trosfwaol ar gyfer bioamrywiaeth, ac yn cynnwys pob confensiwn sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, system gyfan y Cenhedloedd Unedig, a'r holl bartneriaid eraill sy'n ymwneud â rheoli a datblygu polisi yn y maes. Mae gan y Cynllun bum nod strategol gan gynnwys 20 o dargedau Aichi: ■ Nod Strategol A: Mynd i'r afael â'r achosion wrth wraidd colli bioamrywiaeth trwy ei phrif-ffrydio ar draws y Llywodraeth a chymdeithas. ■ Nod Strategol B: Lleihau'r pwysau uniongyrchol ar fioamrywiaeth a hyrwyddo defnydd cynaliadwy. ■ Nod Strategol C: Gwella statws bioamrywiaeth trwy ddiogelu ecosystemau, rhywogaethau, ac amrywiaethau genetig. ■ Nod Strategol D: Gwella'r buddion y mae bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem yn eu cynnig i bawb. ■ Nod Strategol E: Gwella gweithrediad trwy gynllunio cyfranogol, rheoli gwybodaeth a meithrin gallu.
Confensiwn Ramsar ar Gadwraeth Gwlyptiroedd o Bwys Rhyngwladol (1971)	Mae Confensiwn Ramsar yn ymdrin â phob agwedd ar gadwraeth gwlyptir. Dyma dri phrif biler ei weithgareddau: ■ dynodi gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol yn Safleoedd Ramsar; ■ hyrwyddo defnydd doeth o'r holl wlyptiroedd yn nhiriogaeth pob gwlad; ac ■ annog cydweithrediad rhyngwladol â gwledydd eraill i hybu'r defnydd doeth o wlyptiroedd a'u hadnoddau.



Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang Kunming-Montreal (GBF)	Mae'r 15^{fed} Cynhadledd ar gyfer Partïon i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol wedi mabwysiadu "Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang Kunming-Montreal" (GBF) sy'n cynnwys 4 nod a 23 targed i'w cyflawni erbyn 2030. Bydd gweithredu Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang Kunming-Montreal yn cael ei lywio a'i gefnogi trwy becyn cynhwysfawr o benderfyniadau a fabwysiadwyd hefyd yn COP 15. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys fframwaith monitro ar gyfer y GBF, mecanwaith gwell ar gyfer cynllunio, monitro, adrodd ac adolygu gweithrediadau, yr adnoddau ariannol angenrheidiol ar gyfer gweithredu, fframweithiau strategol ar gyfer datblygu gallu a chydweithrediad technegol a gwyddonol, yn ogystal â chytundeb ar wybodaeth ynghylch dilyniant digidol yr adnoddau genetig. Wrth fabwysiadu Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang Kunming-Montreal, ymrwymodd pob Parti i osod targedau cenedlaethol i'w gweithredu, ac fe wahoddwyd yr holl "actorion" eraill i ddatblygu a chyfathrebu eu hymrwymadau eu hunain. Yng nghyfarfod nesaf Cynhadledd y Partïon yn 2024 yn Nhwrçi, bydd y byd yn cymryd stoc o'r targedau a'r ymrwymadau a osodwyd.
UNEP ac ELD, "State of Finance for Nature", 2022	seiliedig ar natur (NbS) fel y gallant fynd i'r afael â heriau byd-eang sy'n ymwneud â cholli bioamrywiaeth, diraddio tir a newid yn lai na 1.5C a chyflawni niwtraliaeth o ran diraddio tir erbyn 2030, mae'n rhaid i'r llif cyllid cyfredol ar gyfer NbS ddyblu ar fyrder
Cenedlaethol	
Deddf yr Amgylchedd (2021) (dim ond rhai adrannau sy'n ymwneud â Chymru)	
Llywodraeth EM, Cynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd, 2018	Mae'r Cynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd yn amlinellu uchelgais Llywodraeth y DU i adael ein hamgylchedd mewn cyflwr gwell nag y daethom o hyd iddo, a'r camau y bwriedir eu cymryd i gyflawni'r uchelgais hwnnw.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	Mae'r Cynllun yn cynnwys deg targed allweddol ac mae dau ohonynt yn canolbwyntio ar fioamrywiaeth. <u>Planhigion a bywyd gwyllt ffyniannus:</u> - Adfer 75% o'r filiwn hectar sy'n warchodfa i safleoedd daearol a dŵr croyw i gyflwr ffafriol, gan sicrhau ei werth hirdymor i fywyd gwyllt. - Creu neu adfer 500,000 hectar o gynefinoedd sy'n gyforiog o fywyd gwyllt y tu allan i'r rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig, gan ganolbwyntio ar y prif gynefinoedd fel rhan o gyfres ehangach o newidiadau rheoli tir sy'n darparu buddion helaeth. - Cymryd camau i adennill rhywogaethau o anifeiliaid, planhigion a ffyngau sydd dan fygythiad, sy'n eiconig neu'n bwysig yn economaidd, a lle bo'n bosibl atal difodiant a achosir gan ddyn neu golli rhywogaethau sydd dan fygythiad yn Lloegr a'r Tiriogaethau Tramor; - Cynyddu coetir yn Lloegr yn unol â'n dyhead o orchudd 12% erbyn 2060: byddai hyn yn golygu plannu 180,000 hectar erbyn diwedd 2042. <u>Gwella bioddiogeledd:</u> - Rheoli a lleihau effaith y clefydau sy'n effeithio ar blanhigion ac anifeiliaid ar hyn o bryd, lleihau'r risg o rai newydd, a mynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol; - Cyrraedd y nodau manwl a gaiff eu nodi yng Nghynllun Cadernid Iechyd Coed 2018; - Sicrhau amddiffyniad bioddiogeledd cryf ar ein ffiniau, gan fanteisio ar y cyfleoedd y mae gadael yr UE yn eu darparu; a - Gweithio gyda diwydiant i leihau effaith afiechydon endemig.
Llywodraeth EM, Cynllun Gwella Amgylcheddol 2023	Mae'r Cynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd yn nodi'r uchelgais i adnewyddu'r cynllun bob pum mlynedd, sef ymrwymiad a ddaeth i rym yn Neddf yr Amgylchedd 2021. Mae'r ddogfen hon yn parhau i ddefnyddio'r deg nod a restrir yn y Cynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd; fodd bynnag, "Planhigion a Bywyd Gwyllt Llewyrchus" yw'r nod uchaf erbyn hyn. Mae'n amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yma a'r ffordd y mae Defra'n bwriadu cyflawni fframwaith a gweledigaeth y Cynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd.
Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (fel y'i diwygiwyd 1981)	Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn cydgrynhoi ac yn diwygio'r ddeddfwriaeth genedlaethol bresennol i weithredu'r Confensiwn ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewropeaidd (Confensiwn Bern) a Chyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC ar gadwraeth adar gwyllt (Cyfarwyddeb Adar) ym Mhrydain Fawr (DS Mae Cyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC bellach wedi'i disodli gan Gyfarwyddeb 2009/147/EC Senedd Ewrop a Chyfarwyddeb y Cyngor dyddiedig 30 Tachwedd 2009 ar gadwraeth adar gwyllt (fersiwn codeiddiedig). Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer hysbysu a chadarnhau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a diogelu bywyd gwyllt.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009	Mae'r Rheoliadau'n gosod rhwymedigaethau ar lawer o fusnesau i atal, neu unioni, unrhyw ddifrod amgylcheddol y maent yn gyfrifol amdano. Maent yn seiliedig ar "Egwyddor y Llygrwr sy'n Talu", felly caiff y gwaith o atal ac unioni difrod amgylcheddol ei gyflawni gan y rhai sy'n gyfrifol amdano gan arbed y gost i'r trethdalwr. Mae'r Rheoliadau'n mynnu ymateb i'r achosion mwyaf arwyddocaol o ddifrod amgylcheddol, gan gwmpasu mathau penodol o: - ddifrod i rywogaethau a chynefinoedd; - difrod i ddŵr; neu - risgiau i iechyd pobl yn sgil halogi tir.
Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru (2010)	Mae'r Cynllun Adfer Natur yn rhoi natur wrth galon y broses o wneud penderfyniadau, trwy gynyddu gwytnwch systemau naturiol (ecosystemau), a thrwy gymryd camau penodol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau. Mae'n nodi'r modd y bydd Cymru'n cyflawni ymrwymïadau Strategaeth Fioamrywiaeth yr UE a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol i atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth erbyn 2020 ac yna gwrthdroi'r dirywiad hwnnw. Mae'r Cynllun yn adeiladu ar fframwaith deddfwriaethol newydd arloesol: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n edrych ar effeithiau hirdymor penderfyniadau ac yn gweithio i gyflawni'r Saith Nod Llesiant, gan gynnwys cynyddu gwytnwch ecosystemau, tra bydd Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn ymgorffori egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol yn y gyfraith trwy fabwysiadu dull o reoli adnoddau naturiol sy'n seiliedig ar ecosystemau.
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)	Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn darparu fframwaith ailadroddol sy'n sicrhau y bydd rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau. Daeth y Ddeddf â dyletswydd newydd i ddisodli'r ddyletswydd bioamrywiaeth bresennol (yn Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006) a fynnai fod awdurdodau cyhoeddus yn rhoi sylw i warchod bioamrywiaeth. Mae'r ddyletswydd Adran 6 newydd yn mynd â hyn gam ymhellach, gan fynnu bod pob awdurdod cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau yng Nghymru, yn ceisio "cynnal a gwella bioamrywiaeth" wrth weithredu'u swyddogaethau priodol. Trwy wneud hynny, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus hefyd geisio "hyrwyddo cadernid ecosystemau". Mae Adran 7 yn mynnu bod rhestrau bioamrywiaeth yn cael eu cynhyrchu. Mae'r rhestrau hyn yn cynnwys mathau o rywogaethau sydd o'r "Pwys Pennaf" i gynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.
Polisi Cynllunio Cymru, 2021 (Rhifyn 11)	Rhaid i bolisiau, cynigion a phenderfyniadau cynllunio geisio hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy a chefnogi llesiant pobl a chymunedau ledled Cymru. Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	diwylliannol yn cael eu hystyried wrth lunio penderfyniadau. Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth eu bod wedi ystyried cyfleoedd rhesymol i gyflwyno buddion amgylcheddol a chymdeithasol fel rhan o'u cynlluniau. Fel y nodwyd yn Adran 6.2, dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu dull strategol a rhagweithiol o ymdrin â seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth drwy gynhyrchu rhestrau a mapiau diweddar o'r seilwaith gwyrdd presennol ac asedau a rhwydweithiau ecolegol.
Datganiad Ardal Canol De Cymru	Mae'r thema "Adeiladu Ecosystemau Gwydn" yn datgan: <i>"Mae angen i ni ddeall gwerth yr hyn sydd gennym a'i ddiogelu. Mae ein hecosystemau o dan fygythiad ar sawl ffrynt: dulliau amhriodol o reoli tir, llygredd, datblygu anghynaliadwy, rhywogaethau estron goresgynnol a newid hinsawdd."</i> <i>"Yng Nghanol De Cymru, gan weithio gyda'n partneriaid, rydym bellach yn deall ble i ganolbwyntio ein hymdrechion er mwyn meithrin gwytnwch o fewn ecosystemau, gan eu gwneud yn fwy gwydn, gwerthfawr a buddiol i'n cymunedau. Fe wnaethom ddatblygu Proffiliau Ecosystem er mwyn ehangu ein dealltwriaeth o ecosystemau eu hunain, a'r gwasanaethau maent yn eu darparu ar gyfer llesiant."</i> Dyma'r saith ecosystem allweddol yng Nghanol De Cymru: • Arfordirol • Dŵr croyw • Glaswelltiroedd • Mawndiroedd • Y Cymoedd • Trefol • Coetiroedd
Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ar gyfer Cymru 2020	Mae SoNaRR yn asesu sut y caiff adnoddau naturiol eu rheoli'n gynaliadwy yng Nghymru, ac mae'n cyflwyno amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer gweithredu. Mae'r adran Pontydd i'r Dyfodol yn cynnig ymagwedd drawsnewidiol ar gyfer sut gall Cymru gau'r bwch rhwng ble rydyn ni nawr a ble mae angen i ni fod i wireddu dyfodol cynaliadwy. Mae SoNaRR yn asesu Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (neu SMNR, Sustainable Management of Natural Resources) yn erbyn pedwar nod hirdymor SMNR. Mae'r rhain fel a ganlyn: diogelu a chyfoethogi stociau adnoddau naturiol, ecosystemau gwydn, lleoedd iach ar gyfer pobl, ac economi atgynhyrchiol.
Lleol	

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Cynllun Gweithredu Adfer Natur Merthyr Tudful (2019-2024)	Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (adran 6, isadran 1) ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ehangach (y ddyletswydd a6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus wrth gyflawni swyddogaethau sy'n berthnasol i Gymru. Mae'r CGANMT yn nodi'r mesurau a gymerwyd gan CBSMT i gydymffurfio â dyletswydd a6. Dyma Ddatganiad Lefel-uchel y CGANMT: "Trwy gydol ein gweithrediadau byddwn (lle bo'n bosibl) yn ceisio cynnal a gwella amrywiaeth ein hamgylchedd naturiol fel ei fod yn wydn ac yn cefnogi iechyd a llesiant cymdeithasol ac economaidd y cymunedau lleol, er mwynhad a'i werth cynhenid ei hun."
Cynllun Gweithredu Adfer Natur Bannau Brycheiniog (2019-2024)	Prif fwiad y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) yw llywio gwaith Partneriaeth Natur Leol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sef cydweithrediad newydd ar gyfer pawb sydd am gyfrannu. Uchelgais graidd y Cynllun hwn yw: <i>"Helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth trwy ganolbwyntio ar ddatblygu rhwydweithiau ecolegol gwydn (mewn geiriau eraill: rhwydweithiau ar gyfer adfer natur) sydd yn fwy amrywiol, yn fwy o ran maint, yn well o ran eu cyflwr ecolegol ac yn fwy cydgysylltiedig."</i>

Tabl 0-2 - Cynlluniau, Polisiâu, Strategaethau a Rhaglenni Perthnasol - Tirwedd a Threflun

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Rhyngwladol	
Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd 2000 (Daeth yn gyfrwymol ym mis Mawrth 2007)	Mae Confensiwn Tirwedd Cyngor Ewrop yn hyrwyddo'r dasg o warchod, rheoli a chynllunio tirweddau ac yn trefnu cydweithrediad rhyngwladol ar faterion yn ymwneud â thirwedd. Mae mesurau penodol yn cynnwys: ■ codi ymwybyddiaeth ynghylch gwerth tirweddau ymhlith pob sector o gymdeithas ynghyd â rôl cymdeithas wrth eu llunio; ■ hyrwyddo hyfforddiant ac addysg am dirweddau ymhlith arbenigwyr yn y maes, proffesiynau cysylltiedig eraill ac o fewn cyrsiau ysgol a phrifysgol; ■ adnabod ac asesu tirweddau; ■ dadansoddi newid o ran y dirwedd, gyda chyfranogiad gweithredol y rhanddeiliaid; ■ gosod amcanion ar gyfer ansawdd tirwedd, gyda'r cyhoedd yn cymryd rhan yn y broses; a



Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	gweithredu polisiau tirwedd trwy sefydlu cynlluniau a rhaglenni ymarferol.
Cenedlaethol	
Polisi Cynllunio Cymru, 2021 (Rhifyn 11)	Rhaid i bolisiau, cynigion a phenderfyniadau cynllunio geisio hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy a chefnogi llesiant pobl a chymunedau ledled Cymru. Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn cael eu hystyried wrth lunio penderfyniadau. Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth eu bod wedi ystyried cyfleoedd rhesymol i gyflwyno buddion amgylcheddol a chymdeithasol fel rhan o'u cynlluniau. Dylai awdurdodau cynllunio ddarparu ar gyfer cadwraeth a, lle bo'n briodol, gwella tirweddau lleol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn argymhell defnyddio asesiadau LANDMAP i lywio penderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli datblygiadau, asesu cymeriad tirweddau, astudio tirweddau o ran dyluniad a sensitifrwydd.
Gwerthfawr a Chydnherth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol	Mae'r datganiad hwn yn nodi pedwar amcan ar gyfer yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru. - Yn gyntaf, eu bod yn Lleodd Gwerthfawr sy'n denu mwy na'r cynulleidfaoedd traddodiadol ac sy'n argyhoeddi croestoriad mwy amrywiol o gymdeithas Cymru i deimlo bod ganddyn nhw ran yn y tirweddau cenedlaethol hyn. - Yn ail, bod ynddyn nhw Amgylcheddau Cydnherth sy'n cyfoethogi gwerth natur ac yn gwyrddo'i'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae hyn yn bwysig ynddo'i hun ac o ran sicrhau manteision hirdymor i gymdeithas. Rhaid i'r ardaloedd hyn fod yn esiamplau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gyda'r Awdurdodau a'r partneriaethau'n arwain gweithgareddau sy'n rhoi stop ar y dirywiad mewn bioamrywiaeth. - Yn drydydd, eu bod yn cynnal Cymunedau Cydnherth. Mae'r berthynas rhwng pobl a'r amgylchedd wedi ffurfio'r tirweddau hyn a'u cymunedau. Mae sicrhau cydnherthedd economaidd a chymdeithasol y cymunedau hyn yn rhan annatod o ddiben eu dynodi. - Yn olaf, rhaid i bartneriaethau'r AHNE ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol fabwysiadu Ffyrdd Cydnherth o Weithio gan ysgogi cydweithio i gael y buddiannau mwyaf a thaclo'r heriau a wynebir yn y tirweddau hyn.
Lleol	
Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2007-2022	Mae'r polisiau perthnasol yn cynnwys: SQ4 Tirwedd - Sicrhau y bydd pob datblygiad yn y dyfodol yn gwarchod ac yn gwella cymeriad hardd ac amrywiol y Dirwedd.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Strategaeth Mannau Agored CBSMT, 2016	Bydd y Strategaeth yn cael ei defnyddio i lywio a helpu i ddehongli polisiâu Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) y Cyngor sy'n ymwneud â darparu mannau agored mewn datblygiadau newydd a diogelu'r mannau agored presennol. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o reoli safleoedd y mannau agored, ac fel mecanwaith ar gyfer cyfeirio cyllid at safleoedd priodol lle gellir gwneud gwelliannau i nifer, ansawdd a hygyrchedd y mannau agored. Bydd y Strategaeth yn sicrhau bod dull cydgysylltiedig yn cael ei fabwysiadu i ddiwallu anghenion mannau agored CBSMT ac i ddiogelu a datblygu rhwydwaith o fannau agored yn y Fwrdeistref Sirol.
Ardaloedd Tirwedd Arbennig CBSMT, 2018	

Tabl 0-3 - Cynlluniau, Polisiâu, Strategaethau a Rhaglenni Perthnasol – Yr Amgylchedd Hanesyddol



Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Rhyngwladol	
UNESCO, Confensiwn Treftadaeth y Byd, 1972	Lluniodd y Confensiwn hwn fframwaith ar gyfer canfod lleoliadau diwylliannol neu naturiol ac iddynt “werth cyffredinol eithriadol” a’u dynodi’n Safleoedd Treftadaeth y Byd.
Confensiwn Valetta, 1992	Amlinellodd y Confensiwn hwn fesurau diogelu ar gyfer asedau treftadaeth archeolegol, gan gynnwys datblygu a chynnal rhestr o safleoedd. Nod y confensiwn oedd gwarchod safleoedd ar gyfer astudiaeth yn y dyfodol, amlinellu’r gofynion i gofnodi “darganfyddiadau siawns”, yn ogystal â rheoli cloddiadau. Mae angen mewnbwn archeolegwyr arbenigol i lunio polisïau a phenderfyniadau cynllunio o dan y confensiwn hwn hefyd.
Confensiwn er Gwarchod Treftadaeth Bensaernïol Ewrop, Granada (1985)	Prif ddiben y Confensiwn oedd atgyfnerthu a hyrwyddo polisïau ar gyfer gwarchod a gwella treftadaeth Ewrop. Roedd yn cadarnhau’r angen am undod Ewropeaidd o ran cadwraeth treftadaeth ac fe’i cynlluniwyd i feithrin cydweithrediad ymarferol ymhlith y Partïon. Rhoddodd y Confensiwn ystyriaeth i eiddo oedd yn cynnwys yr elfennau parhaol canlynol a restrwyd yn Erthygl 1: henebion: pob adeilad a strwythur o ddiddordeb hanesyddol, archeolegol, artistig, gwyddonol, cymdeithasol neu dechnegol amlwg, gan gynnwys eu gosodiadau a’u ffitiadau; grwpiau o adeiladau: grwpiau homogenaidd o adeiladau trefol neu wledig sy’n amlwg oherwydd eu diddordeb hanesyddol, archeolegol, artistig, gwyddonol, cymdeithasol neu dechnegol, ac sy’n ddigon cydlynol i ffurfio unedau y gellir eu diffinio’n dopograffig; a safleoedd: gweithiau cyfun gan ddyn a natur, sef ardaloedd yr adeiledir yn rhannol arnynt ac sy’n ddigon nodedig a homogenaidd i’w diffinio’n dopograffig ac sydd o ddiddordeb hanesyddol, archeolegol, artistig, gwyddonol, cymdeithasol neu dechnegol amlwg.
Cenedlaethol	
Llywodraeth Cymru (2010) Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru	Ym mis Chwefror 2010, comisiynwyd ECOTEC Research and Consulting Ltd gan y Bartneriaeth Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd i wneud gwaith ymchwil er mwyn rhoi gwerth ar amgylchedd hanesyddol Cymru. Yn gyffredinol, mae’r astudiaeth yn helpu i hybu’r achos dros fuddsoddi yn amgylchedd hanesyddol Cymru drwy ddangos gwerth cyhoeddus asedau hanesyddol ledled y wlad a’r angen am ddarparu mynediad, buddsoddiad a chadwraeth ddigonol.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016	
Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016	Lle ceir Henebion ar dir amaethyddol, mae'r Ddeddf ganlynol yn dylanwadu ar faint o reolaeth gyhoeddus sydd ar gael i sicrhau bod yr henebion cofrestredig yn cael eu diogelu. Mae Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer dynodi, gwarchod a rheoli henebion cofrestredig yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru, drwy weithredu ar ran Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) yn casglu ac yn cynnal Cofrestr o henebion o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae'n drosedd difrodi heneb gofrestredig neu ymgymryd â gwaith heb y caniatâd priodol. Mae Deddf 1979 hefyd yn rheoleiddio'r gwaith o gaffael neu warchod henebion hynafol gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau lleol, yn ogystal â mynediad cyhoeddus at henebion o'r fath. Yn ychwanegol at ddiwygio agweddau ar Ddeddfau 1979 a 1990, mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, yn cynnwys nifer o ddarpariaethau annibynnol. Mae un yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gasglu a chynnal rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Mae un arall yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru gasglu a diweddarw cofnod o'r amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.
Polisi Cynllunio Cymru, 2021 (Rhifyn 11)	



Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	diwylliannol yn cael eu hystyried wrth lunio penderfyniadau. Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth eu bod wedi ystyried cyfleoedd rhesymol i gyflwyno buddion amgylcheddol a chymdeithasol fel rhan o'u cynlluniau. Rhaid i'r system gynllunio ystyried amcanion Llywodraeth Cymru i ddiogelu, cadw, hyrwyddo a gwella'r amgylchedd hanesyddol fel adnodd i hyrwyddo llesiant cyffredinol ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yforyi.
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023	Dyma'r ddeddfwriaeth gydgrynhoi gyntaf yn rhaglen bum-mllynedd ddechreuol Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Mae'r darn hanesyddol hwn o ddeddfwriaeth yn darparu cyfraith gwbl ddwyieithog, drefnus a hygyrch ar gyfer diogelu a rheoli ein hamgylchedd hanesyddol unigryw yn effeithiol fel y gall barhau i gyfrannu at lesiant Cymru a'i phobl.
Cynllun Ymaddasu Sector yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru (2020)	Mae Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol (HEG) wedi paratoi'r cynllun hwn mewn ymgais i godi ymwybyddiaeth o beryglon a chyfleoedd a ddaw i amgylchedd hanesyddol Cymru yn sgil y newid hinsawdd a'r angen i addasu. Yr amcan yw hyrwyddo cydweithrediad a gweithrediad ym mhob sector er mwyn: - cynyddu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r bygythiadau a'r cyfleoedd a ddaw i'r amgylchedd hanesyddol yn sgil newidiadau i'r tywydd a'r hinsawdd yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir; - cynyddu ein gallu trwy ddatblygu ymwybyddiaeth, sgiliau ac adnoddau i reoli effeithiau'r newid hinsawdd ar yr amgylchedd hanesyddol; - datblygu cydnerthedd yr amgylchedd hanesyddol drwy gymryd camau i addasu ac ymateb i'r peryglon, gwneud yr amgylchedd hanesyddol yn llai agored i niwed a sicrhau'r manteision mwyaf posibl.
Lleol	
Strategaeth Treftadaeth Adeiledig a Chynllun Gweithredu Merthyr Tudful (2008)	Ymgwymerwyd â'r Strategaeth gan y Stiwdio Gadwraeth fel comisiwn ar y cyd rhwng Adrannau Cynllunio ac Adfywio Merthyr Tudful er mwyn gwella'r ffordd y caiff ein "hasedau treftadaeth" eu rheoli. Mae'r Strategaeth yn asesu goroesiad yr asedau hyn ac yn datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â dynodiad, cyllid, polisi a rheolaeth. Rhestrir prif ddeilliannau'r Strategaeth Dreftadaeth isod: - yr angen i gynhyrchu cynllun rheoli ar gyfer tirweddau hanesyddol Merthyr Tudful a Gelligaer; - yr angen i ddynodi nifer o Ardaloedd Cadwraeth newydd; - yr angen i godi'r safon wrth asesu ceisiadau ar gyfer Adeiladau Rhestredig a chynyddu'r cyfrifoldeb ar berchnogion am gynnal a chadw Adeiladau Rhestredig; - yr angen i ail-arolygu Adeiladau Rhestredig Lleol yn y Fwrdeistref; - yr angen i sefydlu sylfaen bolisi gadarn i ddiogelu treftadaeth y Fwrdeistref;



Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	- yr angen i godi arian i wella cofadeiliadau ac adeiladau; - yr angen i gynyddu cyfranogiad y gymuned mewn cadwraeth a threftadaeth; ac yn olaf - yr angen i wneud cadwraeth yn rhan annatod o adfywiad economaidd.
Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2007- 2022	Dyma rai polisiâu perthnasol: - Polisi 15 Adeiladau Rhestredig - Polisi 16 Dymchwel Adeiladau Rhestredig - Polisi 17 Amgylchedd yr Adeiladau Rhestredig - Polisi 18 Gwarchod Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol - Polisi 19 Datblygiadau sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth - Polisi 20 Parciau a Gerddi Hanesyddol - Polisi 21 Tirweddau Hanesyddol - Polisi 22 Ardaloedd sy'n destun Gwerthusiad Archeolegol

Tabl 0-4 - Cynlluniau, Polisiâu, Strategaethau a Rhaglenni Perthnasol - Amgylchfyd Dŵr

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Rhyngwladol	
Cyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 23 Hydref 2000 yn sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu gan y Gymuned ym maes polisi dŵr ("Y Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr")	Prif nodau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) yw: ■ atal dirywiad a gwella statws ecosystemau dyfrol, gan gynnwys dŵr daear; ■ hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ddŵr; ■ lleihau llygredd; ■ cyfrannu at liniaru effeithiau llifogydd a sychder. Mae'r WFD yn gofyn am greu Cynlluniau Rheoli Basn Afon (RBMPs). Gosodir amcanion statudol ar gyfer dyfroedd yr Alban trwy Gynlluniau Rheoli Basn Afon. Mae'r amcanion hyn yn seiliedig ar asesiadau ecolegol a dyfarniadau economaidd. Mae'r cynlluniau'n ymdrin â phob math o gorff dŵr, e.e. afonydd, llynnoedd, aberoedd, dyfroedd arfordirol a dŵr daear.
Cyfarwyddeb 2007/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 23 Hydref 2007 ar asesu a rheoli peryglon llifogydd	Mae'r Gyfarwyddeb hon yn mynnu bod Aelod-wladwriaethau yn asesu a yw pob cwrs dŵr ac arfordir mewn perygl o lifogydd, yn mapio maint y llifogydd a'r asedau a'r bobl sydd mewn perygl yn yr ardaloedd hyn, ac yn cymryd mesurau digonol a chydgysylltiedig i leihau'r risg hwn o lifogydd.
Cyfarwyddeb 2006/118/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 12 Rhagfyr 2006 ar ddiogelu dŵr daear rhag llygredd a dirywiad	Mae'r Gyfarwyddeb hon yn sefydlu trefn sy'n gosod safonau ansawdd dŵr daear ac yn cyflwyno mesurau i atal neu gyfyngu ar lygryddion yn treiddio i ddŵr daear. Mae'r Gyfarwyddeb yn sefydlu meini prawf ansawdd sy'n ystyried nodweddion lleol ac yn darparu ar gyfer gwelliannau pellach yn seiliedig ar ddata'r gwaith monitro ac unrhyw wybodaeth wyddonol newydd a ddaw i'r fei.
Cenedlaethol	

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Deddf yr Amgylchedd (2021)	Mae Deddf yr Amgylchedd, a ddaeth i rym yn 2021, yn gweithredu fel fframwaith newydd y DU ar gyfer diogelu'r amgylchedd. Mae Deddf yr Amgylchedd yn caniatáu i'r DU ymgorffori amddiffyniad amgylcheddol gwell o fewn y gyfraith. Mae'n rhoi pwerau i'r Llywodraeth osod targedau rhwymol newydd, gan gynnwys rhai ar gyfer ansawdd aer, dŵr, bioamrywiaeth, a lleihau gwastraff. Dyma'r amcanion ar gyfer y targedau dan ystyriaeth: ■ lleihau llygredd o amaethyddiaeth, yn enwedig ffosforws a nitrad; ■ lleihau llygredd o ddŵr gwastraff, yn enwedig ffosforws a nitrad; ■ lleihau'r galw am ddŵr; ■ gwella ansawdd cynefinoedd ar dir ac ar safleoedd dŵr croyw ac arfordirol, a fynegir trwy gyflwr ein safleoedd gwarchodedig (SoDdGA); ■ gwella statws cyffredinol y poblogaethau o rywogaethau ar dir ac mewn dyfroedd croyw.
Rheoliadau Perygl Llifogydd (2009)	Crëwyd Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 i drosi Cyfarwyddeb Llifogydd yr UE (Cyfarwyddeb 2007/60/EC) yn gyfraith ddomestig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Gyfarwyddeb Llifogydd yn darparu fframwaith i asesu a rheoli peryglon llifogydd er mwyn lleihau canlyniadau andwyol i iechyd pobl, yr amgylchedd (gan gynnwys treftadaeth ddiwylliannol) a gweithgareddau economaidd.
Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010)	Yn ôl Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae'n ofynnol i Awdurdodau Rheoli Risg: ■ gydweithredu â'i gilydd; ■ gweithredu mewn modd sy'n gyson â Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru a'r strategaethau rheoli risg llifogydd lleol a ddatblygwyd gan Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol; ■ cyfnewid gwybodaeth. Mae gan Awdurdodau Rheoli Risg hyblygrwydd i ffurfio partneriaethau ac i weithredu ar ran ei gilydd.
Dŵr Cymru (2019) Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol	Mae'r Cynllun yn edrych ymlaen dros y 30 mlynedd rhwng 2020 a 2050 er mwyn asesu unrhyw risgiau i allu Dŵr Cymru i gyflenwi digon o ddŵr ar gyfer gofynion ei gwsmeriaid, gan gymryd i ystyriaeth y ffactorau uchod. Mae'r Cynllun wedi pennu'r strategaeth "Digon o Ddŵr i Bawb" yng ngweledigaeth "Dŵr Cymru 2050"
LIC (2020) Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru	Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn nodi sut y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ddatblygu, cynnal a chymhwyso Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) yng Nghymru. Mae'r Strategaeth hon yn nodi'r modd y mae Cymru'n bwriadu rheoli'r risgiau sy'n deillio o lifogydd ac erydu arfordirol ledled Cymru dros y 10 mlynedd nesaf, tra bydd yn cryfhau ac yn egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau. Mae'n nodi'r polisïau a'r cyfeiriad ar

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	gyfer yr holl Awdurdodau sy'n Rheoli'r Risg o Lifogydd yng Nghymru, gyda mesurau'n egluro'r ffordd o gyflawni hyn. Gellid ystyried hwnnw fel ei chynllun gweithredu. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod FCERM yn faes blaenoriaeth, a nodir hyn drwy'r Strategaeth a thrwy ymrwymïadau ei Rhaglen Lywodraethu. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi pum amcan trosfwaol ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru: ▪ gwella ein dealltwriaeth o risg a'r ffordd rydym yn hysbysu am risg; ▪ paratoi ac adeiladu cydnherthedd; ▪ blaenoriaethu buddsoddiad mewn cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf; ▪ atal rhagor o bobl rhag dod i gysylltiad â risg; a ▪ darparu ymateb effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau.
Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021	Cyflwynwyd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 i leihau llygryddion amaeth rhag treiddio i'r amgylchedd drwy osod rheolau ar gyfer rhai arferion ffermio. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod safonau ar gyfer gwneud silwair a storio elifiant silwair, ac ar gyfer systemau i storio slyri. Maent yn disodli'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair a Slyri) (Cymru) 2010, gan sefydlu arferion da gogyfer rheoli maethynnau a'u cyfuno mewn un set o reoliadau er mwyn lleihau cymhlethdod.
Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017	Mae Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) yn fecanwaith pwysig ar gyfer asesu a rheoli'r amgylchedd dŵr yn y DU. Mae'r Gyfarwyddeb yn anelu at "statws da" ar gyfer yr holl ddŵr daear a dŵr wyneb (afonydd, llynnoedd, dŵr trosiannol a dyfroedd arfordirol). O dan Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, rhaid paratoi cynllun rheoli basn afon ar gyfer pob ardal basn afon. Mae'r cynllun yn cynnwys amcanion amgylcheddol a chrynodeb o raglenni'r mesurau sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion hynny.
Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd CNC	Mae'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd (FRMPs) hyn yn nodi'r modd y byddwn yn rheoli risg llifogydd mewn ardaloedd allweddol ledled Cymru dros y chwe blynedd nesaf (2023 – 2029). Mae'r cynlluniau'n egluro'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu yr ydym yn eu cynnig i reoli'r risg o lifogydd ar lefel genedlaethol a lleol. Maent hefyd yn ystyried y ffordd y mae angen inni addasu a lliniaru yn erbyn newid hinsawdd. Cynhyrchwyd Asesiadau Amgylcheddol Strategol (yr SEAs) hefyd fel rhan o'r broses hon ar sail genedlaethol a lleol.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd CNC: Lle Canol De Cymru	Mae adran Lle De Canol Cymru yn rhoi gwybodaeth am lefel y risg ar raddfa leol ac yn disgrifio'r hyn y mae CNC wedi'i gynllunio ar gyfer y cymunedau y maent yn pryderu fwyaf yn eu cylch. Mae'n nodi 14 blaenoriaeth: - Blaenoriaeth 1: Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur drwy geisio arferion arloesol, hyrwyddo dulliau o ymaddasu a pharatoi ar gyfer newid yn y dyfodol. - Blaenoriaeth 2: Datblygu a darparu dulliau dalgylch i leihau llifogydd a chyfrannu at gydnerthedd ecosystemau, gan weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol. - Blaenoriaeth 3: Gwella gallu cymunedau i wrthsefyll perygl llifogydd nawr ac yn y dyfodol. Gweithio i gefnogi cymunedau i ddod yn fwy ymwybodol a chymryd camau i liniaru eu perygl llifogydd eu hunain. - Blaenoriaeth 4: Ceisio a chymryd cyfleoedd i wella iechyd a llesiant cymunedau, bioamrywiaeth a'r amgylchedd, a'r buddion ehangach y maent yn eu darparu, i gefnogi ymateb CNC i'r Argyfwng Natur. - Blaenoriaeth 5: Cynyddu cydnerthedd asedau rheoli perygl llifogydd, i leihau effeithiau perygl llifogydd nawr ac yn y dyfodol. - Blaenoriaeth 6: Gwella effeithiolrwydd ein cynhyrchion a'n gwasanaethau allweddol, gan gynnwys ein gwasanaethau digidol, er mwyn darparu gwasanaethau gwell i'r cyhoedd. - Blaenoriaeth 7: Parhau i wella ein dealltwriaeth a'n dulliau cyfathrebu ynglŷn â pherygl llifogydd nawr ac at y dyfodol (gan gynnwys newid yn yr hinsawdd) fel bod penderfyniadau'n seiliedig ar y dystiolaeth a'r wybodaeth orau sydd ar gael. - Blaenoriaeth 8: Darparu ymateb effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau llifogydd, gan weithio ar y cyd ag awdurdodau rheoli risg a phartneriaid proffesiynol lle bo angen. - Blaenoriaeth 9: Gwella ein gwasanaeth rhybuddion llifogydd yn barhaus i alluogi pobl i gymryd camau effeithiol mewn ymateb i lifogydd. - Blaenoriaeth 10: Darparu cyngor cynllunio effeithiol ar beryglon a chanlyniadau llifogydd i leihau datblygu amhriodol mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. - Blaenoriaeth 11: Blaenoriaethu ein gwaith ar sail risg yn unol â Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru a datblygu ein sylfaen dystiolaeth i sicrhau buddsoddiad yn y dyfodol mewn rheoli perygl llifogydd. - Blaenoriaeth 12: Hyrwyddo, cefnogi a gweithredu atebion sy'n seiliedig ar natur lle bo'n briodol i leihau'r perygl o lifogydd ac effeithiau llifogydd a sicrhau buddion ehangach i'r ecosystem. - Blaenoriaeth 13: Ymgymryd â'n rôl oruchwylio strategol i ddeall pob ffynhonnell o berygl llifogydd ar sail genedlaethol er mwyn llywio buddsoddiad a sicrhau ein bod yn cynllunio gwaith yn y ffordd orau, gan gynnwys gyda phartneriaid eraill. - Blaenoriaeth 14: Sicrhau bod gennym weithlu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol gyda'r galluedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ein blaenoriaethau ac ymateb i heriau'r dyfodol.
Deddf Dŵr 2014	Deddf Dŵr 2014 yw'r ddeddfwriaeth sy'n llywio'r gwaith o reoli ein hadnoddau dŵr. Crybwyllir y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn y ddogfen, ond mae a wnelo hyn yn fwy ag ansawdd dŵr yn hytrach nag adnoddau.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Lleol	
Cynllun Rheoli Dalgylch Cymoedd y De-ddwyrain	Mae'r Cynllun yn nodi ffyrdd o wella Dalgylch Cymoedd y De-ddwyrain sy'n cynnwys y canlynol: - Atal dirywiad mewn statws. Ni chaniateir i statws cyrff dŵr ddirywio o'r statws cyfredol. - Cyflawni'r amcanion ar gyfer ardaloedd gwarchodedig a chyflawni'r safonau a nodir gan y gyfarwydddeb berthnasol y cawsant eu dynodi oddi tani. Ar gyfer safleoedd Natura 2000 sy'n ddibynol ar ddŵr, y nod yw cyflawni amcanion cadwraeth. Mae sicrhau statws da erbyn 2021 yn garreg filltir tuag at wireddu'r amcan hwnnw. - Anelu at sicrhau statws cyffredinol da ar gyfer dŵr wyneb a dŵr daear. Gweithredu mesurau i sicrhau statws cyffredinol da lle maent yn dechnegol ymarferol heb fod yn anghymesur o ddrud.
Dalgylch Cyfle Taf ac Elái, 2021	Sefydlodd trydydd cylch y Cynllun Rheoli Basn Afon (RBMP) ddeg Dalgylch Cyfle ledled Cymru. Mae Dalgylchoedd Cyfle wedi'u cytuno fel y mecanwaith i gyflawni trydydd cylch y Cynlluniau Rheoli Basn Afon (RBMPs) (2021-2027). Ffocws y Dalgylchoedd Cyfle yw cynyddu buddion lluosog i gyrff dŵr, iechyd a llesiant, a'u darparu trwy weithio mewn partneriaeth. Mae Dalgylchoedd Cyfle yn fecanwaith i integreiddio RBMP â ffrydiau gwaith eraill ac i gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Adnoddau Naturiol, megis cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur. Mae Datganiadau Ardal yn darparu cyfeiriad lleol pwysig i'r heriau a'r cyfleoedd lleol a nodwyd ar gyfer pob ardal. Mae Taf ac Elái yn un o'r Dalgylchoedd Cyfle hyn. Dyma'r meysydd allweddol ar gyfer Dalgylchoedd Cyfle Taf ac Elái: - Cydweithio - Cyflawni addasiadau corfforol - Trefoli - Adfer prosesau naturiol
Strategaeth Trwyddedu Tynnu Dŵr Cymoedd y De-ddwyrain, 2017	CNC yw'r corff rheoleiddiol sy'n gyfrifol am reoli adnoddau dŵr yng Nghymru. Mae angen i ni reoli anghenion dŵr yr amgylchedd, cymdeithas a'r economi, yn awr ac yn y dyfodol. Rydyn ni'n wynebu nifer o heriau fydd yn effeithio ar ein hadnoddau dŵr a'n ffyrdd o'u rheoli. Mae'r rhain yn cynnwys twf yn y boblogaeth, mwy o alw am ddŵr a newid yn yr hinsawdd. Mae'r Strategaeth Drwyddedu yn nodi sut y caiff adnoddau dŵr eu rheoli yn nalgylchoedd yr afonydd yng nghymoedd y de-ddwyrain. Mae'n rhoi gwybodaeth ynghylch lle mae'r dŵr ar gael ar gyfer ei dynnu ac yn rhoi syniad o ba mor ddibynadwy y bydd trwydded newydd i dynnu dŵr.



Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren 2021-2027	Mae FRMP ardal basn afon Hafren yn gynllun a baratowyd ar y cyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru mewn partneriaeth â 5 LLFA. Mae'r FRMP yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â "phrif afonydd" (afonydd a nentydd mwy o faint sydd wedi'u nodi ar ddogfen swyddogol a elwir y prif fap afonydd), y môr a chronfeydd dŵr ar gyfer yr holl ardal sy'n cynnwys basn yr afon. Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n arwain y gwaith ar gyfer Afon Hafren. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a phartneriaid i sicrhau bod y trefniadau cydweithredol priodol ar waith ar gyfer cynllunio a rheoli'r dalgylch trawsffiniol ar gyfer ardal basn afon Hafren. Mae crynodeb o ran Cymru yng nghynllun rheoli basn afon Hafren yn disgrifio: - cyflwr presennol yr amgylchedd dŵr; - y pwysau sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr; - yr amcanion amgylcheddol ar gyfer gwarchod a gwella'r dyfroedd; - y rhaglen o fesurau a chymau gweithredu y mae eu hangen i gyflawni'r amcanion; - y cynnydd oddi ar gynllun 2015.
Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2007-2022	Polisi 58 Systemau Draenio Cynaliadwy - Bydd yn ofynnol i bob cynnig ar gyfer datblygiad newydd roi ystyriaeth i gynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy priodol. Lle y bo'n berthnasol, mae'n rhaid dangos bod y corff draenio perthnasol wedi cymeradwyo'r systemau draenio cynaliadwy a gynigir ar gyfer y datblygiad, yn ogystal â'r gweithdrefnau ar gyfer eu mabwysiadu a'u cynnal a'u cadw. Bydd hyn yn gysylltiedig ag amod a/neu drefniant adran 106 lle y bo'r angen.

Tabl 0-5 - Cynlluniau, Polisiâu, Strategaethau a Rhaglenni Perthnasol - Ansawdd Aer a Nwyon Tŷ Gwydr

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Rhyngwladol	
Protocol Kyoto i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (1992) Diwygiad Doha i Brotocol Kyoto (2012)	Mae'r gwledydd datblygedig yn ymrwymo i leihad o 5% fan lleiaf yn eu hallyriadau cyfunol o chwe nwy tŷ gwydr allweddol. Rhaid cyrraedd targed yr allyriadau ar gyfer pob gwlad erbyn y cyfnod 2008-2012. Gwelodd Gwelliant Doha y partïon yn ymrwymo i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr fel eu bod o leiaf 18% yn is na lefelau 1990 yn y cyfnod wyth mlynedd rhwng 2013 a 2020.
Cytundeb Paris, 2015	Ei nod yw cyfyngu'r cynhesu byd-eang i lai na 2°C uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol. Fodd bynnag, nod y gwledydd yw cyfyngu'r cynnydd i 1.5°C er mwyn lleihau effeithiau cynhesu byd-eang. Mae'r UE wedi ymrwymo i darged rhwymol o ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf 40% erbyn 2030 o'u cymharu â 1990.
Cenedlaethol	
Deddf yr Amgylchedd (2021)	Mae Deddf yr Amgylchedd, a ddaeth i rym yn 2021, yn gweithredu fel fframwaith newydd y DU ar gyfer diogelu'r amgylchedd. Mae Deddf yr Amgylchedd yn caniatáu i'r DU ymgorffori amddiffyniad amgylcheddol gwell yn ei chyfraith. Mae'n rhoi pwerau i'r Llywodraeth osod targedau rhwymol newydd, gan gynnwys rhai ar gyfer ansawdd aer, dŵr, bioamrywiaeth, a lleihau gwastraff. Dyma'r amcanion dan ystyriaeth ar gyfer targedau: ■ lleihau lefel gymedrig flynyddol y deunyddiau cronynnol mân (PM2.5) mewn aer amgylchynol (fel sy'n ofynnol gan Fil yr Amgylchedd); ■ yn y tymor hir, lleihau'r risg o bobl yn dod i gysylltiad â PM2.5.
Deddf Newid Hinsawdd, 2008	Gwella rheolaeth garbon a helpu i drosglwyddo tuag at economi carbon-isel yn y DU. Dangos arweinyddiaeth gref y DU yn rhyngwladol, gan ddangos yr ymrwymiad i gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am leihau allyriadau byd-eang yng nghyd-destun datblygu trafodaethau ar gytundeb byd-eang ôl-2012 yn Copenhagen yn 2009. Gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf 80% erbyn 2050 trwy weithredu yn y DU a thramor, a gostwng allyriadau CO2 o leiaf 26% erbyn 2020, gan ddefnyddio 1990 fel llinell sylfaen.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (2010)	Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu ar gyfer Cymru ddeddfwriaeth y Gymuned ar asesu a rheoli ansawdd aer amgylchynol a gwerthoedd terfyn ar gyfer ansawdd aer. Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwydddeb 2008/50/EC ar ansawdd aer amgylchynol ac aer glanach ar gyfer Ewrop, a Chyfarwydddeb 2004/107/EC sy'n ymwneud ag arsenig, cadmiwm, mercwri, nicel a hydrocarbonau aromatig polysyclog mewn aer amgylchynol.
Llywodraeth Cymru (2010) Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd	Mae'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a'r Cynlluniau Cyflawni cysylltiedig ar Leihau ac Ymaddasu Allyriadau, yn nodi'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac ymaddasu i newidiadau yn yr hinsawdd. Mae Cynllun Cyflawni'r Strategaeth Newid Hinsawdd ar gyfer Lleihau Allyriadau yn amlinellu'r polisiau a'r rhaglenni i gyflawni targed Cymru o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 3% y flwyddyn yn y meysydd cymhwysedd a ddatganolwyd.
Bil Aer Glân i Gymru (2023)	Mae Deddf Aer Glân i Gymru yn un o ymrwymadau allweddol ein Cynllun Aer Glân i Gymru: Aer Iach, Cymru Iach. Bydd yn caniatáu inni weithio'n well ar draws llywodraeth leol a chenedlaethol a chyda rhanddeiliaid, i wella ansawdd aer a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd pobl, natur, yr amgylchedd a'n heconomi.
Datganiad Ardal Canol De Cymru	Mae'r thema sy'n ymwneud â gwella ansawdd aer yn nodi: <i>"Fel ardal fwyaf poblog y wlad, sy'n cynnwys nifer o brif ffyrdd trafndiaeth pwysig ac ardaloedd â phroblemau traffig nodweddiadol, mae'n gwneud synnwyr na ellir anwybyddu problemau ynghylch ansawdd aer yng Nghanol De Cymru. Wedi dweud hynny, nid trafndiaeth yw'r unig ffactor cyfrannol. Mae newidiadau mewn arferion amaethyddol wedi chwarae eu rhan, fel y mae diwydiant a thanau gwyllt sy'n digwydd ar adegau penodol o'r flwyddyn.</i> <i>Yn gyffredin â'r themâu eraill yn ein Datganiad Ardal, mae Canol De Cymru yn cynnig y dylid mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig i wrthsefyll ansawdd aer gwael, gan ddatblygu ffyrdd newydd o weithio yn fewnol a chyda phartneriaid strategol er mwyn gwella ansawdd aer ym mhob man, ac nid dim ond yn yr ardaloedd â'r problemau llygredd mwyaf neu o amgylch yr ardaloedd hynny."</i>
Lleol	
Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer CBSMT 2018-2020	Mae'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer (AQAP) wedi'i gynhyrchu fel rhan o ddyletswyddau statudol y Cyngor sy'n ofynnol gan y Fframwaith Rheoli Ansawdd Aer Lleol. Mae'r AQAP yn amlinellu'r camau i wella ansawdd aer ym Merthyr Tudful. Dyma'r blaenoriaethau allweddol i'w gweithredu: ■ Blaenoriaeth 1 - Allyriadau traffig ffyrdd lleol

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	Blaenoriaeth 2 - Allyriadau traffig cyffredinol y dref
Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2007- 2022	Polisi 14 Ansawdd Aer - Caniateir cynigion ar gyfer datblygiad dim ond lle y profir na fydd unrhyw effaith niweidiol, yn unigol neu'n gronnol, ar ansawdd aer. Ni chaniateir cynigion ar gyfer datblygiad sy'n debygol o gael effaith negyddol ar ansawdd aer neu a allai lygru, oni bai y darperir mesurau lliniaru i osgoi'r effaith

Tabl 0-6 - Cynlluniau, Polisiâu, Strategaethau a Rhaglenni Perthnasol - Ffactorau Hinsoddol

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Rhyngwladol	
Protocol Kyoto i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (1992) Diwygiad Doha i Brotocol Kyoto (2012)	Mae'r gwledydd datblygedig yn ymrwymo i leihad o 5% fan lleiaf yn eu hallyriadau cyfunol o chwe nwy tŷ gwydr allweddol. Rhaid cyrraedd targed yr allyriadau ar gyfer pob gwlad erbyn y cyfnod 2008-2012. Gwelodd Gwelliant Doha y partïon yn ymrwymo i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr fel eu bod o leiaf 18% yn is na lefelau 1990 yn y cyfnod wyth mlynedd rhwng 2013 a 2020.
Cytundeb Paris, 2015	Ei nod yw cyfyngu'r cynhesu byd-eang i lai na 2°C uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol. Fodd bynnag, nod y gwledydd yw cyfyngu'r cynnydd i 1.5°C er mwyn lleihau effeithiau cynhesu byd-eang. Mae'r UE wedi ymrwymo i darged rhwymol o ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf 40% erbyn 2030 o'u cymharu â 1990.
Cenedlaethol	
Llywodraeth Cymru (2010) Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd	Mae'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a'r Cynlluniau Cyflawni cysylltiedig ar Leihau ac Ymaddasu Allyriadau, yn nodi'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac ymaddasu i newidiadau yn yr hinsawdd. Mae

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Llywodraeth Cymru (2019) Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd	Mae'r Cynllun yn ceisio cyfleu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd ar draws ystod eang o bynciau i newid pethau, o dan y thema "addasu i'r newid yn yr hinsawdd". Mae Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd yn dangos y camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf yn y meysydd lle mae'r risg fwyaf, sef: ■ amddiffyn pobl, cymunedau, adeiladau a seilwaith rhag llifogydd; ■ amddiffyn cyflenwadau dŵr rhag sychder a llif isel mewn afonydd; ■ taclo arferion rheoli tir sy'n gwaethygu risgiau'r hinsawdd; ■ rheoli'r risgiau i fusnesau ffermio ac ecosystemau.
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)	
Leol	
Cynllun Datgarboneiddio CBSMT 2023-2030	garbon-niwtral erbyn 2030. Bydd ein Map Trywydd Sero Net yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar themâu, gyda phob un ohonynt yn ■ CBSMT – Cynllunio Ystadau ac Adeiladau ■ Symudedd a Chludiant ■ Caffael ■ Gwasanaethau Allanol ■ Rheoli Tir ■ Llywodraethiant

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2007-2022	SP4 Newid yn yr Hinsawdd - Bydd yn ofynnol i bob cynnig ddangos, lle y bo'n berthnasol, sut y bydd y datblygiad: a) yn gydnerth ac yn gallu addasu i effeithiau tebygol y newid hinsawdd; b) yn cyfyngu ac yn lliniaru achosion y newid hinsawdd; ac c) yn cyfrannu at nod niwtraleddd carbon.

Tabl 0-7 - Cynlluniau, Polisiâu, Strategaethau a Rhaglenni Perthnasol – Daeareg a Phriddoedd

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Cenedlaethol	
Cynulliad Cymru (2012) Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) (Diwygio) 2012	Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth, o ran Cymru, ynghylch adnabod ac adfer tir halogedig o dan Ran 2A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Maent yn nodi categorïau o safleoedd ("safleoedd arbennig"), gan gynnwys tir sydd wedi'i halogi gan sylweddau ymbelydrol yn y tir hwnnw, arno neu oddi tano.
Lleol	
Strategaeth Archwilio Tir Halogedig CBSMT	Mae'r Strategaeth yn rhoi manylion y gweithdrefnau ar gyfer cysylltu â chyrff rheoleiddio fel Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru), ac ar gyfer ymgynghori â chyrff eraill megis busnesau a sefydliadau gwirfoddol. Mae rolau a chyfrifoldebau o fewn y Cyngor ar gyfer datblygu'r Strategaeth ac ar gyfer nodi ac archwilio tir halogedig, hefyd wedi'u nodi.
Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2007-2022	Polisi 13 Ansawdd Pridd: Mae'n rhaid i gynigion datblygu ddangos eu bod yn dilyn arferion da o ran defnyddio a rheoli pridd yn gynaliadwy wrth ddatblygu ac adeiladu, trwy gydymffurfio â Chod Ymarfer Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyfer Defnyddio Priddoedd yn Gynaliadwy ar Safleoedd Adeiladu. Ni chaniateir datblygiadau sy'n cael effaith niweidiol ac annerbyniol ar ansawdd pridd.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	Polisi SP3 Diogelu'r Amgylchedd – Polisi Strategol: Mae'n rhaid i bob cynnig am ddatblygiad neu newid defnydd tir neu adeiladau yn y Parc Cenedlaethol ddangos nad yw'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar y canlynol, nac yn amharu arnynt, nac yn atal mwynhad ohonynt: f) ansawdd pridd ac aer (gweler Polisiâu 13 ac 14); ff) Tir Amaethyddol Gradd 1,2,3a.

Tabl 0-8 - Cynlluniau, Polisiâu, Strategaethau a Rhaglenni Perthnasol – Asedau Materol

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
Cenedlaethol	
Deddf yr Amgylchedd (2021)	Mae Deddf yr Amgylchedd, a ddaeth i rym yn 2021, yn gweithredu fel fframwaith newydd y DU ar gyfer diogelu'r amgylchedd. Mae Deddf yr Amgylchedd yn caniatáu i'r DU ymgorffori amddiffyniad amgylcheddol gwell yn ei chyfraith. Mae'n rhoi pwerau i'r Llywodraeth osod targedau rhwymol newydd, gan gynnwys rhai ar gyfer ansawdd aer, dŵr, bioamrywiaeth, a lleihau gwastraff. Amcanion ar gyfer targedau dan ystyriaeth: - cynyddu cynhyrchiant adnoddau; - lleihau cyfaint y gwastraff "gweddilliol" a gynhyrchir gennym.
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)	Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn darparu fframwaith ailadroddol sy'n sicrhau y bydd rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno pwerau newydd er mwyn cynyddu'r deunyddiau a anfonir i'w hailgylchu, gwella ansawdd y deunyddiau a fydd ar gael i'w hailgylchu, a sicrhau na fydd deunyddiau y gellid bod wedi'u hailgylchu yn cael eu gwastraffu. Mae'r pwerau newydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i: - fynnu bod busnesau a chyrff eraill sy'n cynhyrchu gwastraff, e.e. y sector cyhoeddus, yn gwahanu deunyddiau glân y gellir eu hailgylchu cyn iddynt gael eu casglu; - mynnu bod casglwyr gwastraff yn casglu gwastraff ailgylchadwy ar wahân;

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	- gwahardd deunyddiau y gellir eu hailgylchu rhag diweddu mewn peiriannau llosgi gwastraff; - gwahardd busnesau a'r sector cyhoeddus rhag gwaredu gwastraff bwyd mewn carthffosydd.
Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru (2010) Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned. Y ddogfen strategaeth wastraff troswaol ar gyfer Cymru	Mae'r Strategaeth yn rhoi manylion am ganlyniadau, polisiâu a thargedau lefel-uchel, ac yn ffurfio rhan o gyfres o ddogfennau sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio'r Cynllun Rheoli Gwastraff Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae'n amlinellu fframwaith hirdymor ar gyfer defnyddio adnoddau a rheoli gwastraff yn effeithlon rhwng nawr a 2050. Mae'n anelu at gyflawni'r deilliannau canlynol: - amgylchedd cynaliadwy, lle mae effaith gwastraff yng Nghymru'n cael ei leihau nes ei bod o fewn ein terfynau amgylcheddol erbyn 2050. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar lefelau "Un Blaned" y bydd cynhyrchu a rheoli gwastraff yn bodoli; - cymdeithas ffyniannus, gydag economi gynaliadwy, sy'n gwneud defnydd effeithlon o adnoddau; - cymdeithas deg a chyfiawn, lle gall pob dinesydd gyflawni ei botensial llawn fel unigolyn a chyfrannu at lesiant Cymru drwy weithredu i atal, aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff. Mae dwy garreg filltir heriol wedi'u gosod: 2025: Tuag at Ddyfodol Diwastraff; 2050: Cyflawni Dyfodol Diwastraff.
Llywodraeth Cymru (2012) Cynnal Cymru Fyw: Papur Gwyrdd ar Ffordd Newydd o Reoli Adnoddau Naturiol Cymru	- yn gwella gwytnwch ac amrywiaeth ein hamgylchedd a'i fioamrywiaeth gynhaliol; - yn darparu rheoleiddio symlach a mwy cost-effeithiol; - yn cynnig mwy o sicrwydd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
Llywodraeth Cymru (2016) Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru: Strategaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf 2016-2026	Bydd y Strategaeth yn llywio camau gweithredu i gyrraedd nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sef: trechu tlodi a'r bygythiad byd-eang yn sgil newid hinsawdd, datblygu cadernid i'n cymunedau, hybu twf gwyrdd yn yr economi, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a achosir gan effeithlonrwydd ynni gwael. Dyma'r weledigaeth ar gyfer Cymru sy'n fwy ynni-effeithlon erbyn 2025: "Rydym am sicrhau bod Cymru yn y sefyllfa orau bosibl i wireddu ei photensial llawn o ran effeithlonrwydd ynni, a dod yn un o brif allforwyr technoleg a medrau ym maes effeithlonrwydd ynni."
Llywodraeth Cymru (2017) Polisi Adnoddau Naturiol	dod o hyd i atebion sy'n seiliedig ar natur - gweithio'n fwy effeithiol gyda byd natur i fynd i'r afael â'n heriau mawr;

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	- cynyddu ynni adnewyddadwy a dulliau o ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon – a gosod llwybr clir ar gyfer buddsoddi yn y meysydd hyn; - mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar leoedd – ymateb i anghenion a chyfleoedd lleol.
Cynllun Adnoddau Coedwigoedd Gethin, Ynysowen ac Ystâd Allen	Lleolir y coedwigoedd hyn yng Nghynghorau Sir Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae'r ardal yn 1364 hectar o faint. Tir fferm gyda rhywfaint o goetiroedd preifat sy'n ffinio â'r ardal hon yn bennaf. Dyma rai o amcanion allweddol y Cynllun: Parhau i gynhyrchu pren - Bydd hyn yn parhau i fod yn ysgogiad hollbwysig ar gyfer y coedwigoedd hyn. Bydd y cyfleoedd i amrywio rhywogaethau yn cael eu rhoi ar waith lle bo'n briodol, a bydd hyn yn gwella cynaliadwyedd y coedwigoedd. Fe fydd coetiroedd brodorol yn cael eu hadfer a'u hymestyn er mwyn creu gwell cysylltiad rhwng cynefinoedd a chynyddu gwerth y dirwedd. Hamdden - Ar y cyfan, mae'r coedwigoedd ar agor ar gyfer gweithgareddau hamdden tawel, fel cerdded, seiclo. Bydd hyn yn parhau ac yn cael ei ystyried yn ystod holl weithrediadau'r coedwigoedd. Mae gan Barc Beiciau Cymru gytundeb rheoli gyda CNC ar gyfer cynnal a rheoli'r llwybrau beicio sy'n mynd i lawr yr allt. Mae hyn o fudd i hamdden a thwristiaeth yn, ac o amgylch, Coedwig Gethin. Caiff y coedwigoedd yn y cynllun hwn eu defnyddio gan drigolion yr ardal ar gyfer cerdded a seiclo. Cynefinoedd hollbwysig - Ceir ardaloedd dynodedig o "warchodfeydd naturiol" o fewn Cynllun Adnoddau'r Goedwig (dynodiad UKWAS) ac maent yn bodloni'r meini prawf. Ymhellach, yng Nghoedwig Gethin gwyddys fod poblogaeth o fadfallod i'w chael ym mhyllau'r chwarel. Caiff y cynefinoedd hyn eu hystyried yn y cynlluniau a chofnodir y cysylltiad rhwng cynefinoedd gan dimau cynllunio coedwigoedd lleol. Systemau rheoli - y cylchdro cyntaf o gnydau conwydd yw cyfran helaeth o'r coedwigoedd. Lle y ceir trefn deneuo dda, y dull rheoli a ffefrir yw System Goedamaeth Fach ei Heffaith. Bydd hon yn manteisio ar aildyfiant naturiol y cnydau newydd neu danblannu o bosibl. Bydd system llwyrgwmpo'n cael ei defnyddio fel y bo'n briodol a bydd angen ei gweithredu yn ôl statws y cnydau (o ran teneuwch, aramlygiad, priddoedd ac ati) ger y llwybrau beicio. Mynediad at goetiroedd llai - Caiff mynediad cyfyngedig i reoli'r coetiroedd eu nodi yn y Cynllun hwn. Yr ardaloedd eu hunain sy'n rhaglennu, ariannu ac ymgynghori â'r awdurdodau perthnasol. Heb y mynediad hwn, cyfyngedig fyddai'r arfer o gwmpo coed neu adfer coetiroedd brodorol.
Cynllun Adnoddau Coedwig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (De)	Lleolir y coedwigoedd hyn o fewn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r ardal yn 3454 hectar o faint. Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a thir fferm sy'n ffinio'r coedwigoedd. Ceir nifer o dirweddau a ffyrdd cyhoeddus pwysig, a gaiff eu cynnwys yn y Cynllun Adnoddau Coedwig. Dyma rai o amcanion allweddol y Cynllun: Cynnal y gwaith o gynhyrchu pren - Fe fydd hyn yn parhau i fod yn sbardun pwysig i'r coedwigoedd dan sylw. Bydd y cyfleoedd i gael rhywogaethau mwy amrywiol, lle y bo hynny'n briodol, yn gwella cynaliadwyedd y coedwigoedd. Er mwyn creu profiad gwell o safbwynt y coetiroedd a'r dirwedd, fe fydd coetiroedd hynafol a brodorol yn cael eu hadfer.

Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	• Hamdden – Ar y cyfan, mae'r coedwigoedd ar agor i weithgareddau hamdden tawel, fel cerdded a seiclo. Fe fydd y rhain yn parhau yn ystod holl weithrediadau'r fforest. Mae Canolfan Ymwelwyr Garwnant a leolwyd yng Nghoed Taf a'r rhaeadrau yng Ngwaun Hepste yn lleoedd poblogaidd ar gyfer gweithgareddau hamdden a thwristiaeth. • Cynefinoedd hollbwysig - Mae Safon Sicrwydd Coetiroedd y Deyrnas Unedig wedi'i dyfarnu i'r coedwigoedd drwy'r cynllun adnoddau. Er mwyn cyrraedd y safonau hyn a bodloni'r meini prawf, rhaid ymyrryd cyn lleied ag y bo modd er mwyn galluogi'r cynefinoedd hyn i gyfoethogi. • Systemau rheoli - Cnydau conwydd ar eu cylchdro cyntaf yw mwyafrif y coedwigoedd. Pan fo system deneuo dda wedi'i rhoi ar waith, y dull rheoli a ffefrir yw system goedwriaeth bach ei heffaith. Fe fydd hyn yn manteisio ar aildyfiant naturiol y cnydau newydd, neu danblannu efallai. Bydd system lwyrgwmpo'n cael ei defnyddio yn unol â statws y cnydau (eu teneuwch, eu haramlygiad, eu priddoedd ac ati). • Mynediad at goetiroedd llai - Nodir mynediad cyfyngedig ar gyfer rheoli'r coetiroedd yn y Cynllun hwn. Yr ardaloedd eu hunain sy'n rhaglennu, ariannu ac ymgynghori â'r awdurdodau perthnasol. Heb y mynediad hwn, byddai'r gwaith o gwmpo coed neu adfer coetiroedd brodorol yn cael ei gyfyngu.
Cynllun Adnoddau Coedwig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Canolog)	Mae Cynllun Adnoddau Coedwig (Bannau Brycheiniog Canolog) yn 2335 hectar ac yn cynnwys 8 bloc o goedwig amlwg: Talybont, Coety, Taf Fechan, Gwaun y Geifr, Dyffryn Crawnon, Llanddeti, Treberfedd a Chwm Glaisfer. Fe leolir yr uned cynllunio yn gyfan gwbl o fewn Bannau Brycheiniog yn union i'r de o'r A40 yn agos i gymunedau Talybont-ar-Wysg a Llangyndir, ac i'r gogledd o'r A465 sef Ffordd y Blaenau. Mae'r amcanion rheoli wedi'u cytuno er mwyn cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau, a'r buddion y maent yn eu darparu. Mae'r amcanion perthnasol yn cynnwys: • Parhau i gynnal cyflenwad cynaliadwy o gynhyrchiant coed drwy gynllunio'r torri a'r dewis o rywogaethau i'w hailblannu. • Parhau i amrywio cyfansoddiad rhywogaethau'r goedwig er mwyn cynyddu'i gwytnwch yn erbyn plâu a chlefydau, gan adeiladu coedwig gydnerth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. • Cynyddu amrywiaeth strwythurol drwy reolaeth LISS (systemau coedwigaeth effaith-isel) lle bo hynny'n briodol ac ystyried graddfa, maint ac amseriad unrhyw gwmpglirio er mwyn osgoi cwmpo clystyrau cyfagos. Dylid cadw cnydau hyn o gonwydd lle bo modd er mwyn cynnal strwythur y goedwig a'i photensial cynhyrchiol. • Cynyddu'r meysydd a nodwyd ar gyfer teneuo o fewn y cynllun teneuo 5 mlynedd er mwyn galluogi rheolaeth LISS ac adferiad Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol (PAWS). Bydd cynyddu'r gwaith o deneuo coed nid yn unig yn lleihau'r risg o dywyllu Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol ond hefyd yn lleihau'r angen i lwyr gwmpo yn y dyfodol a chadarnhau sadrwydd celli, lle bo hynny'n bosibl, drwy drawsnewidiadau hwyr i Systemau Goedamaeth Effaith-isel. • Manteisio ar gyfleoedd i leoli coetiroedd llydanddail er mwyn cysylltu cynefinoedd gwrychoedd a gwella gwytnwch. • Defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd a pharthau torlannol presennol er budd bioamrywiaeth drwy greu cysylltiadau â chynefinoedd agored.



Dogfen	Negeseuon/Materion Allweddol
	- Cynnal a gwella defnydd hamdden yr ardal. - Cynnal llinellau gweld agored ar gyfer golygfannau ac ar hyd llwybrau hamdden.
Lleol	
Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Cyntaf CBSMT 2016-2031	Mae gweledigaeth ac amcanion y CDLI yn darparu cyd-destun trosfwaol ar gyfer y Cynllun sy'n dangos y modd y mae ystyriaethau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn cael eu cydbwysu i gyflawni datblygiad cynaliadwy CBSMT hyd at 2031. Y weledigaeth yw cryfhau safle Merthyr Tudful fel y ganolfan ranbarthol ar gyfer Blaenau'r Cymoedd ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, annog lefel gynaliadwy o dwf yn y boblogaeth, bod yn fan i fod yn falch ohono, ac: - yn fan lle mae pobl yn dysgu ac yn datblygu sgiliau i gyflawni eu huchelgeisiau; - yn fan lle mae pobl yn byw, yn gweithio, yn cael bywyd diogel, iach a bodlon; ac - yn fan lle mae pobl yn ymweld, yn mwynhau ac yn dychwelyd iddo.

Atodiad B

MAN CYCHWYN





RHAGAIR

Mae'r atodiad hwn yn nodi'r wybodaeth sylfaenol allweddol ar gyfer pob un o'r pynciau SEA, yn ogystal ag unrhyw dueddiadau'r dyfodol waeth sut y caiff y Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol (LFRMS) ei rhoi ar waith. Mae hefyd yn nodi materion allweddol ar gyfer cynaliadwyedd mewn perthynas â'r LFRMS, a ddefnyddiwyd i ddatblygu fframwaith gwerthuso, y manylir arno yn y prif Adroddiad Amgylcheddol.

POBLOGAETH A CHYDRADDOLDEB

MAN CYCHWYN

Mae gan CBSMT gyfanswm poblogaeth o tua 58,900 o bobl⁹, sef 3.87% o gyfanswm poblogaeth De-ddwyrain Cymru (1,522,500 o bobl) a 1.90% o gyfanswm poblogaeth Cymru (3,105,400 o bobl). Dwysedd y boblogaeth yw 528 o bobl fesul km², sydd dros deirgwaith yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol (150 o bobl fesul km²)¹⁰.

Mae'r gyfran uchaf o bobl yn CBSMT rhwng 45-64 oed¹¹, sef 26.6% o'r boblogaeth gyfan. Mae'r gyfran uchaf o bobl yng Nghymru hefyd rhwng 45-64 oed ac yn yr un modd yn cyfrif am 26.5% o'r boblogaeth gyfan. Mae canran y rhai 65 oed a throsodd (19%) hefyd yn debyg i'r cyfartaledd rhanbarthol o 19.1% a'r cyfartaledd cenedlaethol o 21.5%. Ers cyfrifiad 2011, bu cynnydd o 13.3% yn nifer y bobl 65 oed a hŷn, gostyngiad o 4.3% yn nifer y bobl sy'n 15-64 oed a chynnydd o 3.7% yn nifer y plant dan 15 oed yn CBSMT¹².

O fewn CBSMT, mae tua 51.2% o'r boblogaeth yn fenywod a 48.8% yn ddynion¹³. Mae hyn yn debyg i'r cyfartaleddau rhanbarthol a chenedlaethol (y ddau yn 51.1% yn fenywod, 48.9% yn ddynion).

Yn ôl data Cyfrifiad 2021¹⁴, mae 97.0% o boblogaeth CBSMT yn Wyn, 1.60% yn Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), 0.87% yn grwpiau ethnig 'Cymysg/Lluosog', 0.39% yn grwpiau ethnig 'Arall', ac Mae 0.14% yn Sipsiwn, Teithwyr Gwyddelig neu Roma. Mae'r grŵp ethnig Gwyn yn CBSMT wedi gweld cynnydd yn y boblogaeth ers cyfrifiad 2021 i 99.8% o gyfanswm y boblogaeth ym mis Mawrth 2023¹⁵ sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 81.7%.

Rhwng 2019 a 2020, roedd mudo mewnol net yn CBSMT yn 70 o bobl sy'n cyfrif am tua 0.54% o'r mudo net rhwng Cymru a'r DU (mudo mewnol net o 12,866 o bobl yng Nghymru) 16. Ar gyfer CBSMT, mae hyn tua'r un peth â'r flwyddyn flaenorol (77 o bobl) ond yn sylweddol is na 2017-2018 (160 o bobl).

⁹Llywodraeth Cymru, StatsCymru, Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn. Ar gael ar:

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-year> (Cyrchwyd 01/11/2023)

¹⁰Llywodraeth Cymru, StatsCymru, Dwysedd y boblogaeth (unigolion fesul cilomedr sgwâr) yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn. Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Density/populationdensity-by-localauthority-year> (Cyrchwyd 01/11/2023)

¹¹Llywodraeth Cymru, StatsCymru, Dosbarthiad Oedran y boblogaeth yn ôl rhyw a blwyddyn. Ar gael ar: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Distributions/agedistributionofpopulation-by-sex-year> (cyrchwyd 01/11/2023)

¹² Office for National Statistics, How the population changed in Merthyr Tydfil: Cyfrifiad 2021. Ar gael ar <https://www.ons.gov.uk/visualisations/censuspopulationchange/W06000024/> (Accessed 01/11/2023)

¹³Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021. Ar gael ar: <https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationandhouseholdestimatesenglandandwalescensus2021> (Cyrchwyd 01/11/2023)

¹⁴Office for National Statistics, Grŵp Ethnig, Cyfrifiad 2021. Ar gael ar: https://cy.ons.gov.uk/datasets/TS021/editions/2021/versions/1?_gl=1*hiin90*_ga*MjU5Njg5NTYyLiE2ODEzNzU4NTM.*_ga_W804VY6YKS*MTcwMzY3NzUxMS40LjEuMTcwMzY3NzY0My42MC4wLjA. (Cyrchwyd 01/11/2023)

¹⁵Llywodraeth Cymru, StatsCymru, Ethnigrwydd yn ôl ardal a grŵp ethnig. Ar gael ar: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-area-ethnicgroup> (Cyrchwyd 01/11/2023)

¹⁶Llywodraeth Cymru, StatsCymru, Mudo rhwng Cymru a gweddill y DU yn ôl awdurdod lleol, lliw a chyfnod newid. Ar gael ar: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Migration/Internal/migrationbetweenwalesandrestofuk-by-localauthority-flow-periodofchange> (Cyrchwyd 01/11/2023)

Nid oes gan y mwyafrif o boblogaeth CBSMT unrhyw grefydd (53.2%), mae 40.1% yn Gristnogion, mae 0.5% yn Fwslimiaid, mae gan 0.4% grefydd 'arall', mae 0.2% yn Fwdhaidd, mae 0.2% yn Hindwaidd, mae 0.1% yn Sikhiaidd¹⁷. Mae hyn yn debyg i'r canrannau cenedlaethol; fodd bynnag, mae mwyafrif poblogaeth Cymru yn Gristnogion (46.2%), yna'r rhai heb unrhyw grefydd (37.2%) a Moslemaidd (6.5%).

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod y mwyafrif o boblogaeth CBSMT yn heterorywiol (91.53%), 1.43% yn hoyw neu'n lesbiaidd, 0.76 yn ddeurywiol, 0.13% yn drawsrywiol, 0.04% yn anrhywiol a 0.01% yn cwiar sy'n debyg i'r canrannau ar draws Cymru¹⁸.

